Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol

Gorffennaf 2020



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Cefndir** | **3** |
| **Prif ganfyddiadau** | **9** |
| **Argymhellion** | **12** |
| **Cryfhau ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned** | **14** |
| **Ymestyn y defnydd o asedau'r ysgol gan y gymuned** | **24** |
| **Cydleoli gwasanaethau mewn ysgolion cymunedol** | **29** |
| **Atodiad 1: Astudiaethau achos** | **33** |
| **Atodiad 2: Sail dystiolaeth** | **78** |
| **Atodiad 3: Ffeithlun ar ysgolion cymunedol** | **81** |
| **Geirfa** | **82** |
| **Cyfeiriadau** | **84** |

# Rhagair

Yn ystod y tri mis diwethaf, mae ysgolion wedi dangos y rhan ganolog sydd ganddynt o ran darparu cymorth i'w dysgwyr, teuluoedd a chymunedau ehangach, a hoffwn ddiolch i staff ar draws ein lleoliadau addysg a gwasanaethau partner am eu gwaith yn helpu disgyblion a theuluoedd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mewn adroddiadau thematig a blynyddol blaenorol, rwyf wedi amlygu manteision ysgolion yn cydweithio â theuluoedd a chymunedau fel ysgolion cymunedol. Nawr yn fwy nag erioed, mae'n hanfodol bod ysgolion yn ymgysylltu â'u cymunedau er mwyn cefnogi dysgu a lles eu disgyblion a'u teuluoedd.

Mae ymateb y gymuned addysg i COVID-19 wedi dangos sut gall ysgolion wneud hynny. Mae athrawon ledled Cymru wedi meithrin partneriaethau cryfach â rhieni i gefnogi dysgu gartref. Mae ysgolion wedi cydweithio ag ystod o bartneriaid i gynnal y ddarpariaeth hybiau i blant gweithwyr allweddol a disgyblion sy'n agored i niwed. Mae staff mewn ysgolion ac awdurdodau lleol wedi gwneud yn siŵr fod plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cael bwyd. Maent wedi cydweithio â banciau bwyd i ddanfon parseli bwyd i deuluoedd sy'n agored i niwed ac wedi dosbarthu offer TG yn ôl yr angen. Rydym wedi gweld agwedd gadarnhaol, arloesedd a chydweithio i gefnogi lles disgyblion a'u teuluoedd. Mae ysgolion wedi cydweithio'n agos â gwasanaethau eraill a sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu ymateb cyfunol, integredig i'r heriau a wynebir gan blant a theuluoedd.

Rwy'n cyhoeddi'r adroddiad hwn nawr gan fy mod yn teimlo ei fod yn amserol ac y gall gyfrannu at ein meddylfryd o ran sut gallwn weithio tuag at system addysg ar ôl y pandemig sy'n adeiladu ar ysbryd cymunedol cryf a chyfrifoldeb dinesig. Nodweddion yr ysgolion cymunedol effeithiol yn yr adroddiad hwn sy'n arbennig o berthnasol yw:

- Rôl ysgolion o ran cydweithio â phartneriaid i feithrin arweinyddiaeth a gwydnwch cymunedol.
- Pwysigrwydd dysgu fel teulu, yn enwedig rhaglenni a fydd yn helpu rhieni i fagu'r hyder i gynorthwyo eu plant i ddysgu gartref.
- Gwerth gwasanaethau cydleoledig sydd wedi'u trefnu o hwb ysgol, sy'n galluogi teuluoedd a phreswylwyr i fanteisio ar ystod o gefnogaeth mewn lle hygyrch, yn agos at eu cartrefi.
- Manteision cydweithio strategol a chydberchenogaeth o strategaethau ysgolion cymunedol.
- Pwysigrwydd arweinyddiaeth afaelgar, gref sy'n deall yr heriau a wynebir gan y gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu.

Er i'r gwaith maes ar gyfer yr adroddiad gael ei gynnal cyn y pandemig, rwy'n gobeithio y bydd y negeseuon allweddol a'r astudiaethau achos yn yr adroddiad yn cynorthwyo ysgolion i wella eu ffocws cymunedol a manteisio ar rym ysgolion, teuluoedd a chymunedau'n cydweithio â'i gilydd.

**Meilyr Rowlands PAEM**

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio wrth ymateb i gais gan y Gweinidog Addysg yn ei llythyr cylch gwaith i Estyn ar gyfer 2019-2020. Mae'n canolbwyntio ar ddulliau hynod effeithiol o addysg gymunedol a ddefnyddir gan ysgolion cynradd, uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig. Bwriedir yr adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Ffocws yr adroddiad hwn yw sut mae ysgolion cymunedol yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol, gwasanaethau statudol ac ystod o asiantaethau arbenigol i ddarparu gwasanaethau sydd o fudd i ddisgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned mae'r ysgol yn ei gwasanaethu. Yn benodol, mae'r adroddiad yn ystyried dulliau a ddefnyddir gan ysgolion i:

- gryfhau ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned
- ymestyn y defnydd o'u hasedau er budd y gymuned mae'r ysgol yn ei gwasanaethu
- darparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, drwy gydleoli neu ddarparu hybiau gwasanaeth yn y gymuned

# Cefndir

## Y cyd-destun polisi

*Bydd ysgol y dyfodol yn rhuddin i'w chymuned leol a bydd yn annog holl aelodau'r gymuned i ymgymryd â dysgu gydol oes.*
(Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003)

Bu'r cysyniad o ysgolion cymunedol yn rhan o bolisi addysg Cymru ers blynyddoedd cynnar datganoli. Mae *Y Wlad sy'n Dysgu: Rhaglen gynhwysfawr ar gyfer addysg a dysgu gydol oes hyd at 2010 yng Nghymru* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001) yn cyfeirio'n benodol ar ysgolion cymunedol. Mae'r ddogfen bolisi'n cyfeirio'n benodol at 'perthynas agosach o lawer rhwng ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001, t.25). Yn benodol, mae'r polisi'n amlinellu'r uchelgais y dylai ysgolion fod wedi'u gwreiddio mewn cyd-destun cymunedol eang a bod yn 'rhan annatod o adeiladu gallu cymunedol – gan ddarparu sylfaen ar gyfer cyflwyno nid yn unig addysg a hyfforddiant (gyda chysylltiadau â sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch), ond hefyd ystod o wasanaethau eraill fel cynhaliaeth deuluol a hybu iechyd a menter' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001, t.25)

Soniodd adroddiad ar *Cau'r Bwlch* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2002, t.1) am 'y ffyrdd mae angen i ysgolion weithio gydag ac o fewn eu cymunedau lleol i godi statws dysgu ac, mewn rhai achosion, gweithio fel asiantau ar gyfer newid yn y gymuned'. Yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd Estyn *Ysgolion Rhagorol: gweledigaeth ar gyfer ysgolion yr 21ain ganrif* (2002).

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, yn 2004, llywiodd tystiolaeth o 100 o ysgolion uwchradd yng Nghymru, a oedd wedi dangos gwelliant sylweddol yn eu deilliannau, ac ymweliadau â 12 o ysgolion uwchradd a oedd â thros 20% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gyfres o wyth o nodweddion a oedd yn diffinio ysgol gymunedol. Cipiwyd y nodweddion diffiniol hyn yn adroddiad Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2004 ar *Ysgol y Dyfodol* (2003)

Mae'r nodweddion hyn fel a ganlyn:

- ffocws ar anghenion cymdeithasol ac emosiynol, ac anghenion iechyd, pob disgybl, gan gynnwys mynediad at amrediad rhesymegol o wasanaethau a chynlluniau dysgu personol i ddisgyblion
- cysylltiad â theuluoedd, a hwnnw'n aml yn cynnwys datblygu gwasanaeth cymorth i deuluoedd yn yr ysgol
- ymwneud â'r gymuned ehangach, gan ddarparu'r cyfle a'r peirianwaith i feithrin gallu yn y gymuned leol
- darparu addysg integredig yn yr ysgol, addysg anffurfiol yn ogystal â ffurfiol, gwaith cymdeithasol ac addysg iechyd a gwasanaethau hyrwyddo
- rheolaeth integredig yn aml yn cael ei chefnogi gan reolwr integreiddio

- gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â chyfres o amcanion integredig a chanlyniadau mesuradwy; un nodwedd bwysig mewn llawer o achosion yw rhannu lleoliad
- ymrwymiad ac arweinyddiaeth
- hyfforddiant amlddisgyblaethol a datblygu staff

Yn 2003, sefydlodd Llywodraeth Cymru'r fenter ysgolion bro. Nod y fenter hon oedd cynorthwyo ysgolion, drwy gyllid grant, i ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau a oedd yn cwmpasu gofal plant, dysgu gydol oes, darpariaeth iaith, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon, gwasanaeth chwarae i blant a phobl ifanc, dysgu y tu allan i oriau, gwasanaethau profiad gwaith i'r gymuned, a'r gallu i fanteisio at adnoddau TG (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003). Roedd y cylchlythyr hwn yn diffinio ysgol gymunedol fel un sy'n darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu i fodloni anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae'r diffiniad hwn wedi gwrthsefyll newidiadau polisi, gan ei fod yn ymddangos yng Nghanllaw i'r gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013 (Pennod 27) (2013b). Mae'r canllaw hwn yn nodi'r gwasanaethau allweddol a ddarperir gan ysgol gymunedol, sef gofal plant, dysgu gydol oes, darpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon, gwasanaethau ieuenctid, dysgu y tu allan i oriau a gwasanaethau cymunedol.

Caiff manteision ymgysylltiad cryf â theuluoedd a'r gymuned gan ysgolion eu hatgyfnerthu ym mhapur trafod Estyn, *Trawsnewid Ysgolion* (2007). Mae'r cyhoeddiad hwn yn cydnabod, erbyn 2007, bod ysgolion yn dechrau cydweithio'n agosach â phartneriaid, yn agor eu drysau i'r gymuned ac yn meithrin cysylltiadau â theuluoedd. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i gydnabod bod ysgolion yn cydnabod, yn gyffredinol, bod dysgu disgyblion yn gweithio orau fel partneriaeth rhwng rhieni ac athrawon. Noda hefyd fod nifer fach o ysgolion wedi creu sylfaen ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd yn ogystal â phlant. Mae'r adroddiad yn rhoi awgrymiadau ar sut gall ysgolion ddatblygu dull sydd â ffocws cymunedol, gan gynnwys cydweithio â phartneriaid strategol, codi proffil dysgu yn y gymuned, ac agor eu cyfleusterau i ddod yn 'ganolfan ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol' (Estyn, 2007, t.20).

O 2010 ymlaen, parhaodd y ffocws cenedlaethol cynyddol ar fynd i'r afael ag effaith tlodi a difreintedd ar gyflawniad addysgol i godi ymwybyddiaeth o fanteision sylweddol cydweithio â theuluoedd a'r gymuned i gefnogi disgyblion sydd dan anfantais tlodi. Amlygodd cyflwyno'r Grant Datblygu Disgyblion yn 2012 yr angen i ysgolion ddefnyddio cyllid grant i sefydlu strategaethau effeithiol i ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. Roedd cyfarwyddyd yn cynnwys cyfeiriad at ddefnyddio cyllid i sefydlu:

- dysgu y tu allan i oriau
- grwpiau anogaeth i ddisgyblion, y mae rhai ohonynt yn cynnwys rhieni/gofalwyr
- cyfleoedd dysgu i deuluoedd
- rhaglenni magu plant
- cymorth amlasiantaeth ar y safle

- cysylltiadau cryf â chymunedau lleol, a chyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol
- ymrwymiad cyflogwyr lleol

*Canllawiau ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Beth sydd wir yn gweithio?* (Welsh Government, 2013a)

Atgyfnerthwyd pwysigrwydd cydweithio â theuluoedd, y gymuned ac ystod o bartneriaid ac asiantaethau mewn sawl adroddiad gan Estyn.  Mae'r rhain yn cynnwys adroddiad 2012 ar arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion (Estyn, 2012) ac Adroddiad Blynyddol PAEM (2012/13) (Estyn, 2013), sy'n amlygu Ysgol Gynradd Mount Stuart fel enghraifft nodedig o ysgol gymuned sydd, drwy ei gwaith â theuluoedd, y gymuned, amlasiantaethau a busnesau, yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion difreintiedig.

Mae'r cyhoeddiad, Wynebu'r her gyda'n gilydd: Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2015) yn rhoi arweiniad ymarferol i helpu ysgolion i ddatblygu a chryfhau'r ffordd y maent yn ymgysylltu â theuluoedd ac ysgolion.  Mae llawer o gynnwys y ddogfen hon yn atgyfnerthu'r nodweddion sy'n diffinio ysgol gymunedol a gynhwyswyd yn ymchwil a pholisi cynharach Llywodraeth Cymru.

Mae polisi diweddar Llywodraeth Cymru'n cyfeirio at botensial ysgolion bro yng Nghymru.  Mae Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl (2017-2021) yn cyfeirio at rôl ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi'i ymrwymo i ragoriaeth a lles fel amcan galluogi i gefnogi'r daith ddiwygio bresennol (Llywodraeth Cymru, 2017a).  Mae hyn yn cynnwys ymateb i'r heriau unigryw sy'n wynebu unigolion neu grwpiau o ddysgwyr, a phwysigrwydd partneriaeth i wella profiadau plant yn ystod plentyndod cynnar.

Wrth wraidd Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2017b) mae cydnabyddiaeth bod angen i wasanaethau cyhoeddus a phartneriaid yn y sector gwirfoddol gydweithio â'i gilydd tuag at amcanion cyffredin, canolbwyntio ar anghenion pobl, ar bob adeg o'u bywydau ac ym mhob rhan o Gymru.  Mae amcanion llesiant y polisi hwn yn adlewyrchu'r egwyddorion sydd wrth wraidd llawer o'r ysgolion cymunedol yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn.  Mae'r rhain yn cynnwys:

- Helpu pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial
- Datblygu uchelgais ac annog dysgu gydol oes
- Sicrhau bod gan bawb y medrau cywir ar gyfer byd sy'n newid
- Datblygu cymunedau cydnerth

Yn Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Grant Cyfalaf Canolfannau Cymunedol gwerth £15 miliwn, i hwyluso'r gwaith o sefydlu 21 o ganolfannau cymunedol a chanolfannau dysgu ychwanegol yn rhan o astudiaeth beilot a ariennir dan y Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif.  Prif ddiben y grant hwn yw ariannu prosiectau sy'n darparu ar gyfer y gymuned leol.  Caiff y cyllid ei ddefnyddio hefyd i greu mannau sy'n bodloni angen penodol yn y gymuned leol.

Mae ysgolion cymunedol effeithiol, gan gynnwys y rhai a gyfrannodd at yr arolwg hwn, yn dangos llawer o'r rhinweddau a'r priodoleddau sydd wedi'u cipio yn y weledigaeth uchelgeisiol a fynegir yn Ffyniant i Bawb.  Y weledigaeth hon yw cyflwyno 'cyflwyno model newydd o Ganolfannau Dysgu Cymunedol a fydd yn darparu ystod estynedig o wasanaethau, megis gofal plant, cymorth i rieni, dysgu i deuluoedd a mynediad at gyfleusterau i'r gymuned, a hynny oll wedi'i ddatblygu o amgylch y diwrnod ysgol' (Llywodraeth Cymru, 2017b, t.16).  Maent hefyd yn dangos y nodweddion sy'n diffinio ysgolion cymunedol, fel y diffinnir ym mholisi addysg cynharach Llywodraeth Cymru, a sefydlodd weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer ysgolion cymuned yng Nghymru.

## Y cyd-destun deddfwriaethol

Dywed y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion (1998) bod yr awdurdod lleol yn berchen ar, ac yn rhedeg, ysgol gymunedol (Prydain Fawr, 1998).  Ysgol gymunedol yw un o'r categorïau o ysgolion a gynhelir yng Nghymru.  Ysgolion cymunedol arbennig yw ysgolion cymunedol sy'n darparu addysg i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.  Mae ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion meithrin a gynhelir yn gategorïau eraill o ysgolion cymunedol a ddiffinnir gan y Ddeddf.

Mae adrannau 27 a 28 o Ddeddf Addysg (2002) yn rhoi pŵer galluogol i gyrff llywodraethol ysgolion ddarparu cyfleusterau cymunedol (Prydain Fawr, 2002).  Mae Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008, a gyhoeddwyd dan adran 31 Deddf Addysg (2002) yn amlinellu cyfrifoldebau mangreoedd ysgol y tu mewn a'r tu allan i oriau ysgol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008).

## Diffinio ysgol gymunedol

Dywed adroddiad gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru ar ddefnyddio cyfleusterau ysgol (2016, tt.1,3), 'daw ysgolion cymunedol ar sawl ffurf a gallant fodloni nifer o ddibenion... dylid ei ddefnyddio'n derm ambarél yn hytrach nag yn ddynodiad o ddull sydd wedi'i ddiffinio'n fanwl'.  Mae'r adroddiad yn cadarnhau y dylai ysgol gymunedol ddod o hyd i ffordd unigryw i wasanaethu anghenion y gymuned a'r boblogaeth leol.

Yn yr un modd, mewn adolygiad o'r fenter ysgolion estynedig gwasanaeth llawn (FSES yn Lloegr, mae Cummings *et al*. (2007a) yn nodi bod ysgolion estynedig gwasanaeth llawn wedi'u nodweddu gan amrywiaeth sylweddol, ond bod ganddynt nodweddion cyffredin.  Roedd y rhain fel a ganlyn:

- ffocws ar oresgyn rhwystrau disgyblion rhag dysgu a chydnabyddiaeth bod y rhain yn ymwneud â'r hyn a ystyriwyd yn broblemau teuluol a chymunedol
- datblygu darpariaeth ychwanegol i oresgyn y rhwystrau hyn
- defnyddio staff ychwanegol a ffurfio partneriaethau i gyflwyno'r ddarpariaeth hon
- trin ffrydiau cyllido niferus i gefnogi darpariaeth a thueddiad i ysgolion fynd eu ffordd eu hunain wrth fynd ar drywydd eu nodau

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi, 'mae gan ysgolion estynedig gwasanaeth llawn y potensial i ddod ag ystod o wasanaethau at ei gilydd oddi mewn, a'r tu hwnt, i addysg... gallant weithio nid yn unig â'u disgyblion eu hunain, ond â theuluoedd a phreswylwyr lleol hefyd (Cummings *et al.*, 2007a, t.7).   Mae'r adroddiad hwn yn

mynd ymlaen i amlinellu sawl her i ysgolion estynedig gwasanaeth llawn. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- sicrhau darpariaeth gynaliadwy
- anawsterau o ran gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a sefydliadau eraill
- gweithio o fewn strategaethau ardal
- datblygu strwythurau rheoli a llywodraethu priodol

Er mwyn datblygu dulliau tebyg yn y dyfodol, mae'r adroddiad yn gwneud cyfres o argymhellion, y mae rhai ohonynt yn berthnasol i'r cyd-destun yng Nghymru. Yn benodol, mae'r rhain yn ymwneud â:

- cydlyniad a sefydlogrwydd polisi, sy'n galluogi ysgolion i ddatblygu dros gyfnodau hwy
- cysyniadau clir sy'n deillio o drafodaeth ynghylch natur a dibenion dulliau ysgolion estynedig gwasanaeth llawn
- fframweithiau strategol a ddatblygir ar lefel leol er mwyn cysylltu ymdrechion ysgolion â rhai sefydliadau ac asiantaethau eraill sy'n mynd i'r afael â materion tebyg

Er gwaethaf y llenyddiaeth, polisi a gwerthusiadau helaeth o'r cysyniad eang o ysgolion cymunedol, bu'n anodd rhoi diffiniad clir o ysgol gymunedol sy'n cael ei ddeall yn dda a'i rannu gan arweinwyr ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid strategol. Mewn erthygl sy'n archwilio pa mor dda mae'r cysyniad o 'ysgolion estynedig' yn cael ei ddeall gan weithwyr addysg proffesiynol, daw Cumming *et al*. (2007b) i'r casgliad bod dealltwriaeth pobl o'r cysyniad yn dibynnu ar ragdybiaethau gwahanol am faterion cymdeithasol ac addysgol sylfaenol. Ymddengys bod y sefyllfa hon yn debyg i'r un a welwyd yng Nghymru ers dyddiau cynnar datganoli ac, o bosibl, dyma un o'r rhesymau pam nad yw polisi'r llywodraeth sy'n cefnogi'r cysyniad o ysgolion cymunedol wedi symud ymlaen yn ddigonol neu'n gynaledig.

Ar hyn o bryd, caiff y term 'ysgol gymunedol' ei ddefnyddio'n eang iawn gan ysgolion yng Nghymru, weithiau o ran yr enw yn unig ag ychydig o'r nodweddion sy'n diffinio'r math o ysgol gymunedol a ragwelwyd yn yr ymchwil a'r dystiolaeth y cyfeiriwyd atynt yn yr adran hon. Er enghraifft, yn 2020, mae 14% o'r ysgolion yng Nghymru yn defnyddio'r term 'cymuned' yn eu henw swyddogol. Fodd bynnag, mae'n anodd canfod a yw gweledigaeth, gwerthoedd a gweithgareddau beunyddiol pob un o'r ysgolion hyn yn bodloni egwyddorion ysgol gymunedol fel yr amlinellir gan ymchwil, neu b'un a yw enw'r ysgol yn waddol o fentrau fel ysgolion bro neu'n ganlyniad penderfyniad lleol a wnaed gan y corff llywodraethol.

Mae'r ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg hwn yn rhoi enghreifftiau o sut, drwy weithio yn y modd hwn, maent yn ymgorffori nodweddion ysgol gymunedol sy'n dod â manteision i blant, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

At ddibenion yr arolwg hwn, bu'n rhaid pennu'r hyn sy'n gyfystyr ag ysgolion gymunedol. Ar sail y dystiolaeth a ystyriwyd wrth gwblhau'r arolwg hwn, gan gynnwys ymchwil a pholisi Llywodraeth Cymru, mae'r disgrifiad canlynol yn rhoi'r darlun gorau o'r ysgolion rydym ni o'r farn y maent yn ysgolion cymunedol effeithiol.

Caiff ysgol gymunedol ei diffinio fel un sydd â lles pennaf dysgwyr, teuluoedd a'r gymuned wrth wraidd iddi. Mae'r ysgolion hyn yn estyn llaw i ymgysylltu â theuluoedd a chydweithio â'r gymuned ehangach, gan wybod y gwahaniaeth y gall hyn ei wneud i lwyddiant pob disgybl yn yr ysgol, yn enwedig y rhai sydd dan anfantais oherwydd tlodi. Mae'r ysgolion hyn yn gweithio mewn partneriaethau strategol hynod effeithiol ag ystod o sefydliadau, ac yn cydleoli gwasanaethau, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn galluogi teuluoedd a'r gymuned i fanteisio arnynt yn rhwydd. Mae ysgolion cymunedol yn defnyddio eu cyfleusterau a'u hadnoddau'n effeithiol er budd y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ganddynt y staff a'r arbenigedd i fynd i'r afael ag anghenion teuluoedd a'r gymuned. Trwy gydleoli gwasanaethau a defnyddio eu hasedau'n effeithiol, maent yn galluogi preswylwyr i ymgysylltu â gweithgareddau na fyddant ar gael iddynt fel arall. Mae hyn oll yn cyfrannu at ymgysylltu'n arbennig â theuluoedd a'r gymuned y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu. Mae ysgolion cymunedol yn gweithio'n ddi-baid i wella bywydau plant, cryfhau eu teuluoedd a chyfrannu at adeiladu cymunedau cryfach i'r dyfodol.

Caiff y syniad hwn o ysgol gymunedol ei chefnogi gan Jenkins a Duffy (2016) yn eu hymchwil ar ysgolion cymunedol ar waith. Mae eu hymchwil yn arsylwi bod 'ysgolion cymunedol' yn derm ambarél i ddisgrifio ysgolion sy'n mabwysiadu ystod eang o wasanaethau i fynd i'r afael ag ystod gynhwysfawr o fyfyrwyr, teuluoedd a chymunedau. Dylai pob ysgol gymunedol ddod o hyd i ffordd unigryw i wasanaethu anghenion penodol y boblogaeth leol. Mae'r ymchwil yn disgrifio elfennau cyffredin ymhlith ysgolion cymuned, fel rhaglenni ar ôl ysgol neu oriau estynedig, gofal plant ar y safle, gwasanaethau iechyd, cwnsela, cymorth â swyddi a thai, a mentrau cymorth bwyd. Rhoddodd bron pob un o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â nhw fel rhan o'r arolwg hwn enghreifftiau o sut maent yn darparu bron pob un o'r elfennau hyn yn effeithiol, fel y bo'n briodol, i'w cymunedau.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae arweinwyr ysgolion cymunedol llwyddiannus yn cyfleu gweledigaeth gref ac ymdeimlad o bwrpas, wedi'u tanategu gan ddealltwriaeth ddofn o'r cymunedau a wasanaethir gan yr ysgol a pharch tuag atynt. Mae gan yr arweinwyr hyn werthoedd cryf wedi'u seilio ar gred mewn cynhwysiant a'r angen i fynd i'r afael ag annhegwch, a phenderfyniad i oresgyn heriau. Mae'r arweinyddiaeth yn yr ysgolion hyn yn feiddgar ac yn ddygn, ac yn cydweithio'n agos â theuluoedd a chymunedau i wella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc. Mae arweinwyr yn deall yr heriau cymdeithasol ac economaidd penodol mae eu cymuned yn eu hwynebu, ac effaith y rhain ar ddisgyblion a'u teuluoedd.

2 Mae gwella ysgolion mewn ysgolion cymunedol effeithiol yn rhoi ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned wrth wraidd prosesau cynllunio. Caiff ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ei gydnabod yn un o'r strategaethau pwysicaf o ran gwella'r ysgol, a chaiff ei ystyried yn rhan annatod o wella lles a chyflawniad disgyblion. Mae ffocws clir ar ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, gweithio mewn partneriaeth a defnyddio cyfleusterau'r ysgol er budd y gymuned ehangach.

3 Mae ysgolion cymunedol llwyddiannus yn gwerthuso effaith eu strategaethau ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn rheolaidd. Maent yn dilyn hynt a helynt newidiadau yn y gymuned, fel tueddiadau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yn adolygu eu dulliau er mwyn iddynt allu lliniaru effaith y newidiadau hyn ar eu disgyblion.

4 Mae ysgolion cymunedol effeithiol yn darparu dysgu proffesiynol targedig i'r holl staff a llywodraethwyr. Maent yn cydnabod bod staff a phartneriaid yn gyfrifol am ddulliau cymunedol yr ysgol, ac yn deall anghenion datblygu eu staff a'u partneriaid. Mae'r ysgolion hyn yn cynnwys partneriaid a staff o asiantaethau eraill yn eu dysgu proffesiynol ac yn cydnabod, er mwyn bod yn ysgol gymunedol lwyddiannus, bod angen i'r holl weithwyr proffesiynol hyn rannu gwerthoedd, dealltwriaeth ac ymrwymiad cyffredin i wireddu eu cydweledigaeth.

5 Mae arweinwyr a staff mewn ysgolion cymunedol sydd ag ymgysylltiad cryf â rhieni yn meithrin medrau, hyder a hunan-barch eu rhieni. Mae rhaglenni dysgu i deuluoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda yn helpu rhieni i wella eu gallu i gynorthwyo eu plant. Yn aml, mae'r rhaglenni hyn wedi'u targedu i gynorthwyo rhieni i symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach.

6 Mae ymgysylltiad rhieni'n nodwedd allweddol o ysgolion cymunedol cryf. Mae'r ysgolion hyn yn darparu ystod o gefnogaeth a chyngor, ac yn cynnwys rhieni fel partneriaid mewn addysg. Mae rhieni'n teimlo, beth bynnag fo'r amgylchiadau, y gallant droi at yr ysgol am gymorth. Mae ysgolion cymunedol llwyddiannus yn trin pob rhiant ag urddas a pharch, ni waeth pa heriau maent yn eu hwynebu. Yn gyfnewid am hyn, mae rhieni'n falch o'u hysgol ac eisiau cydweithio â'r staff i sicrhau'r cyfleoedd bywyd gorau i'w plant a phobl eraill yn y gymuned. Mae rhieni'n ystyried yr ysgol yn lle y gallant fanteisio ar gyngor a chymorth i'w helpu i ddatrys problemau yn ymwneud â'u plant neu bryderon ehangach yn ymwneud â thai, arian, medrau neu les y teulu.

7 Mae staff â chyfrifoldeb penodol dros ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn hollbwysig i lwyddiant ysgol gymunedol. Mae arweinwyr ysgolion cymunedol effeithiol yn cydnabod pwysigrwydd penodi unigolyn neu dîm i arwain ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. Mae gan yr aelodau staff hyn fedrau, tueddfrydau, gwybodaeth ac ymroddiad penodol, sy'n sicrhau y gallant gyflawni eu rôl ag awch a sensitifrwydd.

8 Mae ysgolion cymunedol effeithiol yn gwerthfawrogi eu partneriaethau ag ystod o asiantaethau, gan gynnwys sefydliadau statudol a'r trydydd sector. Gwyddant heb y partneriaethau hyn na fyddant yn gallu darparu gofal integredig, cymorth nac ystod eang o brofiadau i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae'r berthynas rhwng yr ysgolion hyn a'u partneriaid wedi'i nodweddu gan gyd-barch. Mae arweinwyr ysgol a staff sy'n gweithio mewn ysgolion cymunedol effeithiol yn deall y cyfraniad y gall sefydliadau lleol a chenedlaethol ei wneud i'w hysgol a'r gymuned.

9 Mae ysgolion sy'n meithrin perthynas gref â theuluoedd yn ei gwneud yn hawdd ac yn ddiogel i rieni fynd i mewn i adeilad yr ysgol. Maent yn creu ardal benodol yn yr ysgol i rieni a theuluoedd ei defnyddio, weithiau heb fod angen gwahoddiad neu apwyntiad. Mae'r mannau hyn yn hygyrch, ond mewn lleoliad i ffwrdd oddi wrth yr ardaloedd a ddefnyddir gan ddisgyblion, a chânt eu defnyddio mewn ffyrdd amrywiol. Er enghraifft, gall rhieni ddefnyddio ystafell teuluoedd i gyfarfod yn anffurfiol, dysgu fel teulu, cyfarfod yn breifat â staff ymgysylltu â theuluoedd, neu fynychu cyfarfodydd grwpiau rhieni.

10 Mae ysgolion cymunedol effeithiol yn defnyddio asedau'r ysgol mewn modd ystyriol i wella bywydau plant a theuluoedd yn y gymuned leol. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â grwpiau a sefydliadau lleol mewn ffyrdd mentrus a chreadigol. Maent yn ceisio mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth chwaraeon, diwylliannol neu ofal lleol, gan gynnwys yn ystod gwyliau'r haf. Er y daw'r defnydd o gyfleusterau ac adnoddau'r ysgol gan grwpiau cymunedol ag incwm i'r ysgol, nid dyma'r prif ddiben. Yn yr enghreifftiau gorau o ddefnyddio asedau, mae arweinwyr yn agor yr ysgol oherwydd eu bod yn credu yn rôl yr ysgol fel grym a all helpu i wella'r gymuned.

11 Mae ysgolion â gwasanaethau cydleoledig, fel iechyd, lles a dysgu i oedolion, wedi ymrwymo i gydweithio â'r partneriaid hyn i wella bywydau plant a'u teuluoedd. Mae'r ysgolion hyn yn datblygu dull wedi'i deilwra i gydleoli gwasanaethau sy'n bodloni anghenion yr ysgol, teuluoedd a'r gymuned. Er enghraifft, nid oes gan bob ysgol â gwasanaethau cydleoledig gyfleusterau a adeiladwyd yn bwrpasol i letya'r gwasanaethau hynny. Yn yr achosion hyn, mae ysgolion yn darparu man 'desgiau poeth' i bartneriaid, neu fynediad at rannau o adeiladau'r ysgol yn rheolaidd.

12 Mae cydleoli gwasanaethau'n galluogi ysgolion cymunedol a'u partneriaid i rannu gwybodaeth a chydweithio i fynd i'r afael â heriau cyffredin. Mae hyn yn galluogi ysgolion i roi cymorth cyflym i deuluoedd sy'n agored i niwed, ac atal anawsterau rhag gwaethygu. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan mae ysgolion yn cydweithio'n agos â darpariaeth Dechrau'r Deg gydleoledig neu wasanaethau eraill yr awdurdod lleol. Mae teuluoedd sy'n derbyn y cymorth hwn yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a wna i'w hansawdd bywyd.

13 Er gwaethaf y dystiolaeth o botensial ysgolion cymunedol mewn llenyddiaeth ymchwil a pholisi'r llywodraeth, ni wireddwyd y weledigaeth ar gyfer ysgolion cymunedol yng Nghymru mewn modd cynhwysfawr na chynaledig. Dros amser, dehonglwyd y cysyniad o ysgolion cymunedol mewn ffyrdd amrywiol, ac mae hyn wedi gadael gwaddol o wahanol fathau o ddarpariaeth. Disgrifiwyd y ddarpariaeth hon mewn adroddiad gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2016, t.14) fel 'heb ei chydlynu ar lefel leol na chenedlaethol, i raddau helaeth'. Mae'r rhan fwyaf o ddatblygiadau ar lefel yr ysgol, wedi'u sbarduno gan arweinwyr unigol, fel arfer, sydd â diben moesol cryf a dealltwriaeth o werth cydweithio â theuluoedd a chymunedau.

## Argymhellion

**I wireddu'r weledigaeth ar gyfer ysgolion cymunedol effeithiol yng Nghymru mewn modd strategol a chynaliadwy:**

**Dylai ysgolion:**

A1 Feithrin partneriaethau cryf â theuluoedd fel rhan annatod o wella lles a chyflawniad pob disgybl

A2 Cyfeirio'n glir mewn cynlluniau strategol at sut byddant yn cydweithio â theuluoedd, y gymuned a phartneriaid i wella lles a chyflawniad pob disgybl

A3 Cyflogi staff ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned i gydweithio â theuluoedd, y gymuned a phartneriaid ehangach

A4 Cydweithio â'r awdurdod lleol a phartneriaid statudol a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion teuluoedd a'r gymuned, gan gynnwys cydleoli gwasanaethau a defnyddio asedau'r ysgol

A5 Gwerthuso effaith strategaethau ysgolion cymunedol

**Dylai awdurdodau lleol:**

A6 Gynnwys camau mewn cynlluniau strategol yn ymwneud â sut byddant yn datblygu mentrau awdurdod cyfan i gynorthwyo ysgolion i fod yn ysgolion cymunedol effeithiol

A7 Cryfhau gweithio ar draws cyfarwyddiaethau i gynllunio ffyrdd i leoli ystod o wasanaethau mewn ysgolion

A8 Sicrhau bod cynllunio ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ystyried yr angen am fannau / ystafelloedd sylfaen i deuluoedd a'r gymuned eu defnyddio

A9 Cynorthwyo ysgolion i benodi staff ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, gan gynnwys datblygu swydd ddisgrifiad ar gyfer yr aelodau staff hyn

A10 Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff cymorth ysgolion, cyrff llywodraethol a phartneriaid strategol i ddatblygu ysgolion cymunedol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A11 Ddatblygu cyfres o nodweddion diffiniol, cytûn ar gyfer ysgolion cymunedol, ac ystyried sut caiff ysgolion eu dosbarthu'n 'ysgolion cymunedol' a sut caiff y term hwn ei ddefnyddio i nodi ysgolion penodol

A12 Hyrwyddo manteision ysgolion cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, gydag ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

A13 Cryfhau'r disgwyliad i gynnwys camau gweithredu ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned mewn cynlluniau strategol ysgolion

A14 Adnewyddu arweiniad cenedlaethol ar ysgolion cymunedol, gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd, a rhoi arweiniad ar sut gall ysgolion werthuso a gwella eu strategaethau ysgol gymunedol

A15 Sicrhau bod cynllunio, arweiniad a safonau adeiladu ar gyfer y rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yn ystyried yr angen am leoedd y gall teuluoedd a'r gymuned eu defnyddio

## Cryfhau ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned

14 Mae cynnwys rhieni mewn dysgu plant yn arf grymus ar gyfer gwella ysgolion. Trwy weithio mewn partneriaeth â rhieni, y gymuned leol ac ystod o asiantaethau, mae ysgolion cymunedol yn hyrwyddo gwerth dysgu gydol oes ac yn magu hyder, gwydnwch a hunan-barch ymhlith disgyblion, rhieni a'r gymuned.

15 Mae astudiaethau ymchwil ac astudiaethau arfer effeithiol, gan gynnwys y rhai gan Estyn, yn cyfeirio at yr effaith mae ymgysylltu â rhieni a theuluoedd yn ei chael ar gyflawniad a lles. Dywed Harris a Goodall (2007, t.70) mai ymgysylltu'n effeithiol â rhieni yw'r 'lifer mwyaf grymus sydd gennym o ran gwella ysgolion'. Mae ymgysylltiad rhieni wedi'i gysylltu â statws economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â phrofiad rhieni o'r ysgol. Caiff pŵer ymgysylltu â rhieni ei bwysleisio gan Desforges ac Abouchaar (2003) a ganfu, erbyn saith oed, mae gan y graddau y mae teuluoedd yn ymgysylltu â dysgu eu plentyn chwe gwaith y dylanwad dros gyrhaeddiad addysgol plant nag ansawdd yr ysgol. Mae ymgysylltiad hynod effeithiol â theuluoedd a'r gymuned, wedi'i sbarduno gan arweinwyr â gweledigaeth gref a diben moesol, yn nodwedd gyffredin o ran addysg gymunedol effeithiol. Mae canfyddiadau ein harolwg yn awgrymu bod hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd difreintiedig.

16 Daeth adroddiad thematig ar gynnwys rhieni mewn addysg (Estyn, 208) i'r casgliad bod bron pob ysgol yn meithrin perthynas ddefnyddiol â rhieni, a bod llawer o ysgolion yn mabwysiadu ystod fwyfwy eang o strategaethau i gyfathrebu â rhieni. Fodd bynnag, mae ysgolion cymunedol effeithiol yn gwneud mwy na meithrin perthynas a chyfathrebu â rhieni. Mae'r ysgolion hyn yn cydweithio â rhieni fel partneriaid cyfartal drwy eu hannog i dreulio amser yn yr ysgol, yn trin problemau y gallai fod ganddynt fel her ar y cyd, yn darparu dysgu effeithiol a pherthnasol i deuluoedd ac yn gwybod bod cynnwys teuluoedd yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

17 Mae'r ysgolion sydd â lles a llwyddiant disgyblion, teuluoedd a'r gymuned wrth wraidd iddynt yn defnyddio ystod eang o strategaethau a dulliau i gefnogi teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys cydleoli gwasanaethau a defnyddio asedau'r ysgol at ddefnydd cymunedol. Yr ysgolion hyn sy'n dangos y nodweddion sy'n diffinio ysgol gymunedol orau.

18 Mae bron pob un o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â nhw yn ystod yr arolwg yn gwerthfawrogi rôl bwerus ymgysylltu â theuluoedd o ran helpu plant i ffynnu yn yr ysgol. Mae'r ysgolion hyn yn meithrin partneriaethau cryf â theuluoedd ac aelodau o'r gymuned ehangach. Mewn llawer o achosion, mae'r partneriaethau hyn yn effeithio ar wella deilliannau a meithrin gwydnwch ymhlith plant, teuluoedd a'r gymuned.

19 Mae pecyn cymorth ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd, a gyhoeddwyd gan awdurdod addysg lleol Barnsley, yn rhoi trosolwg defnyddiol o gamau ymgysylltu â theuluoedd. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- y broses o ddenu neu ymgysylltu â theulu i ddefnyddio'r gwasanaeth neu'r ysgol

am y tro cyntaf
- galluogi'r teulu i gydnabod manteision, nodau a disgwyliadau'r gwasanaeth neu'r cymorth
- meithrin perthynas rhwng yr ymarferydd a'r teulu i'w gynnwys yn ddigonol i ddechrau, a darparu cymorth ystyrlon a buddiol sy'n hygyrch ac yn addas i'r unigolyn a'i deulu/theulu

20 Mae'r camau hyn yn amlwg yn y dulliau ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a ddefnyddir gan yr ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg hwn.  Yn aml, caiff perthynas ymddiriedus ei ffurfio gan unigolyn yn yr ysgol y mae ei (g)werthoedd, credoau ac agweddau yn ei (g)alluogi i fod yn gydymdeimladol i gyd-destun y teuluoedd mae'n cydweithio â nhw.

## Arweinyddiaeth, gweledigaeth a chred cryf mewn cydweithio â rhieni a'r gymuned

21 Yn yr ysgolion cymunedol mwyaf effeithiol, y sbardun pwysicaf yw ymrwymiad, gweledigaeth a chred y pennaeth ym manteision meithrin perthynas gref â theuluoedd a'r gymuned.

22 Yn yr ysgolion cymunedol mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn pennu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol sy'n rhoi'r gymuned a'i theuluoedd wrth wraidd yr ysgol.  Mae llawer o ysgolion yn cyfeirio at fod 'yng nghalon y gymuned'.  Fodd bynnag, mae gan arweinwyr mewn ysgolion cymunedol hynod effeithiol weledigaeth sy'n rhoi teuluoedd a'u cymuned wrth wraidd popeth a wna'r ysgol i gyflawni ei chenhadaeth a'i nodau.

23 Mae gan yr arweinwyr hyn gred hollbwysig yng ngrym ysgolion cymunedol i weddnewid bywydau disgyblion a'u teuluoedd.  Maent yn deall na all eu hysgol wneud hyn ar ei phen ei hun, a bod rhaid iddi gydweithio â theuluoedd, y gymuned ac ystod o bartneriaid i ddarparu'r addysg a'r cymorth sydd eu hangen i sicrhau bod pob plentyn yn ffynnu ac yn llwyddo.  Mae'r arweinwyr hyn yn cydnabod bod plant a phobl ifanc yn treulio cyfran gymharol fyr o'u hamser yn yr ysgol.  Am y mwyafrif o'u hamser, cânt eu dylanwadu gan eu teuluoedd a'u cymuned.  Mae ysgolion cymunedol llwyddiannus yn rhagweithiol o ran arfogi teuluoedd â'r gallu i gefnogi eu plant.  Trwy wneud hyn, mae ysgolion cymunedol yn ymgysylltu â'r gymuned ehangach i'w helpu.

24 Mae'r berthynas eithriadol o gryf rhwng yr ysgol, y gymuned a theuluoedd yn nodwedd gyffredin ymhlith ysgolion cymunedol effeithiol.  Ym mron pob achos, mae hyn o ganlyniad i weledigaeth glir sy'n cael ei deall yn dda a'i harddel gan yr holl staff.  Caiff y weledigaeth hon ei chyflawni ag egni, dycnwch a phenderfyniad.  Mae arweinwyr ysgolion cymunedol hynod effeithiol yn canolbwyntio'n ddyfal ar oresgyn heriau a rhwystrau.  Maent yn ceisio dod o hyd i atebion er mwyn i'r disgyblion, teuluoedd a'r gymuned fod y gorau y gallant fod.  Mae hyn yn ffactor sylweddol yn llwyddiant yr ysgolion hyn fel ysgolion cymunedol.

25 Yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion, cyfarfuom â nifer o lywodraethwyr ysgol a ddangosodd angerdd ac ymrwymiad i'w hysgolion a'u cymunedau.  Mae llywodraethwyr yn chwarae rhan bwysig mewn cynorthwyo ysgolion i sefydlu ac

ymgorffori strategaethau cymunedol.  Er enghraifft, mewn ychydig o'r ysgolion y gwanethom ymweld â nhw, mae'r llywodraethwyr yn herio'n gadarn gynigion i gyllido swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, ac yn mynd ymlaen i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r fenter wedi iddi gael ei sefydlu.  Mewn achosion eraill, fel yn Ysgol Golwg y Cwm, mae'r llywodraethwyr yn chwarae rhan bwysig mewn gweithio mewn partneriaeth â'r fenter Cymunedau yn Gyntaf, ar y pryd, i sefydlu ysgol gymunedol.  Yn Ysgol Feithrin ac Ysgol Gynradd Graig y Rhacca, mae llywodraethwyr yn helpu i drefnu digwyddiadau cymunedol, fel adfer arhosfan fysiau leol, casglu sbwriel a chodi arian ar gyfer oergell cymunedol.  Yn ogystal, maent yn cynnig cymorth i deuluoedd yn yr ysgol drwy drefnu banciau bwyd, grwpiau cymorth cam-drin domestig a thrwy weithredu'n eiriolwyr i deuluoedd sy'n agored i niwed mewn argyfwng.

## Hunanwerthuso a chynllunio strategol effeithiol

26 Mae ysgolion cymunedol hynod effeithiol yn sicrhau eu bod yn cynnwys ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn eu cynlluniau strategol a'u prosesau hunanwerthuso a gwella.  Mae'r ysgolion hyn yn rhoi cynllunio strategol ystyriol a hunanwerthuso cadarn ar flaen ymgysylltu'n effeithiol â theuluoedd a'r gymuned.  Mae hyn yn rhan allweddol o'u strategaeth gwella ysgol.  Mae eu cynllunio'n cynnwys targedau sy'n ymwneud, er enghraifft, â nifer y teuluoedd sy'n manteisio ar ddysgu i deuluoedd, gostyngiad mewn atgyfeiriadau diogelu neu ddeilliannau ehangach, fel gwelliannau o ran gwybodaeth a medrau rhieni.

27 Gwna'r ysgolion hyn benderfyniadau beiddgar i ddod â strategaethau penodol i ben os ydynt o'r farn bod gorchmynion ac anghenion eu disgyblion, teuluoedd a chymunedau yn mynnu dull newydd.  Maent yn gwybod, drwy ymgysylltu a'r gymuned, grwpiau rhieni a phartneriaid ehangach, pan fydd materion newydd yn codi sy'n mynnu newid o ran strategaeth.  Yna, mae'r ysgolion hyn yn diwygio eu dulliau er mwyn ymateb i'r wybodaeth hon.  Mae gan Ysgol Gynradd Millbrook ddull sefydledig o gydweithio â theuluoedd a'r gymuned ym Metws, Casnewydd.  Ysgogwyd y dull hwn gan arweinyddiaeth uchelgeisiol a dealltwriaeth ddofn o botensial ysgolion cymunedol.  Trwy fewnwelediad eithriadol i'r gymuned leol a hunanwerthuso effeithiol, mae'r ysgol wedi symud oddi wrth fod â swyddog ymgysylltu â theuluoedd i sefydlu diwylliant sy'n disgwyl i bob aelod staff fod â rôl mewn ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, er mwyn helpu i ehangu'r dull o ymgysylltu â theuluoedd.  Caiff hyn ei ategu gan benodi ymarferydd profiadol â chefndir mewn iechyd meddwl i gefnogi nifer gynyddol y disgyblion a rhieni sydd â phroblemau iechyd meddwl a gorbryder.  Mae'r astudiaeth achos ar Ysgol Gynradd Millbrook ar **dudalen 66** yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut mae'r ysgol yn teilwra ei hymgysylltiad â theuluoedd i fodloni anghenion y gymuned.

## Meithrin perthynas gadarnhaol â theuluoedd a'r gymuned

28 Mewn ysgolion sy'n rhoi ymgysylltu â theuluoedd wrth wraidd eu polisïau, mae bron pob aelod staff yn meithrin perthynas gref ac ymddiriedus â theuluoedd.  Mewn ysgolion cynradd cymunedol hynod effeithiol, mae hyn yn dechrau yn y cyfnod cynharach mewn addysg plentyn.  Mae gan staff yn yr ysgolion hyn ymdeimlad o gyfrifoldeb corfforaethol ar y cyd i weithio mewn partneriaeth â theuluoedd a'r gymuned.

29 Nodwedd gyffredin ymhlith ysgolion cymunedol hynod effeithiol yw'r ffordd y maent yn gwerthfawrogi rhieni ac yn eu hystyried yn bartneriaid mewn dysgu. Mewn ysgolion cynradd, caiff rhieni eu hannog i ddefnyddio adeilad yr ysgol cymaint ag y bo modd. Mae hyn yn dechrau ar ddechrau'r dydd pan ddaw rhieni â'u plant i'r ysgol. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Golwg y Cwm ym Mhowys, mae'r pennaeth a'r staff yn croesawu'r disgyblion ac aelodau o'u teuluoedd i adeilad yr ysgol bob bore. Mae hyn yn galluogi'r pennaeth i siarad â'r rhieni os oes ganddi bryderon am blentyn. O ganlyniad, mae gan rieni'r hyder i fynd at uwch arweinwyr ac athrawon i rannu newyddion am eu plant a all ddylanwadu ar eu hymddygiad neu eu hagwedd tuag at waith y diwrnod hwnnw. Mae'r dull hwn wedi helpu rhieni i deimlo'n gyfforddus a bod croeso iddynt yn adeilad yr ysgol. Ar **dudalen 43**, cewch fwy o wybodaeth am y dulliau ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned a ddefnyddir gan Ysgol Golwg y Cwm.

30 Mewn ffordd debyg, mae'r pennaeth yn Ysgol Rhosymedre yn Wrecsam yn defnyddio dull gweladwy dros ben ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Yn hanesyddol, nid oedd gan rieni agwedd gadarnhaol tuag at yr ysgol ac roedd yn well ganddynt beidio ag ymgysylltu â hi. Mae'r pennaeth yn adnabod y teuluoedd yn dda ac yn ymdrechu i gael sgwrs gyffredinol â rhieni ar bob cyfle. Er mwyn ennill ymddiriedaeth rhieni, mae'n ddiamwys, yn agored ac yn onest bob tro. Yn araf, ar lafar gwlad, enillodd y pennaeth a staff yr ysgol ymddiriedaeth rhieni ac enw da am fod yn gadarn ond yn deg. Yn aml, bydd y pennaeth yn gwahodd rhieni am goffi a sgwrs pan fydd yn teimlo y gall teulu fod yn profi problemau. Mae hyn wedi arwain at bolisi 'drws agored' go iawn, lle nad oes rhaid i rieni aros i siarad â'r pennaeth.

31 Mewn ysgolion cymunedol hynod effeithiol, caiff rhieni ac aelodau eraill o'r teulu eu gwerthfawrogi a'u parchu gan uwch arweinwyr a staff yr ysgol. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, mae rhieni'n aml yn delio â sefyllfaoedd anodd o ran arian, iechyd, lles neu sefyllfaoedd domestig sy'n effeithio ar eu plant. Oherwydd eu hymddiriedaeth yn staff y disgyblion hyn, nid ydynt yn teimlo eu bod mewn perygl o gael eu barnu'n negyddol am y sefyllfaoedd y maent yn cael eu hunain ynddynt. Mae rhieni'n gwybod y gallant gael help a chyngor gan yr ysgol ac, yn aml, dyma'r lle cyntaf y byddant yn mynd i ofyn am gymorth. Mae staff yn Ysgol Brynsierfyl yn Sir Gâr yn sicrhau bod disgyblion yn sylweddoli eu bod yn rhan o gymuned ysgol gref a gofalgar. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion pobl eraill, yn enwedig mewn argyfwng. Pan fydd rhieni'n sâl ofnadwy neu pan fydd profedigaeth, mae'r ysgol yn sicrhau ei bod ar gael i gefnogi'r plentyn a'r teulu cymaint ag y bo modd. Caiff digwyddiadau i godi arian ar gyfer elusennau eu trefnu gan rieni sydd mewn angen, ac ar eu cyfer. Mae'r ysgol, gyda chymorth gan rieni a'r gymuned leol, wedi creu gardd heddwch lle gall rhieni a theuluoedd blannu coed a dod o hyd i fan tawel i fyfyrio. Mae hyn wedi helpu disgyblion i weld sut mae angen iddynt gydymdeimlo ac empatheiddio â phobl eraill, ac mae wedi dod â theuluoedd gwahanol at ei gilydd wrth iddynt gefnogi ei gilydd yn y gymuned. Mae gan yr ysgol gysylltiadau â sefydliadau fel y Samariaid hefyd, i helpu ar yr adegau hyn. Hyfforddwyd staff i gefnogi disgyblion a theuluoedd mewn argyfwng. Trwy'r gwaith hwn, mae'r ysgol wedi helpu i gael gwared â'r stigma negyddol a all fod yn gysylltiedig â theuluoedd yn gofyn am gymorth.

32 Mewn ysgolion sy'n ymgysylltu â theuluoedd yn llwyddiannus, gwna rhieni sylwadau am y ffordd y cânt eu cefnogi gan yr ysgol, yn aml drwy gyfnodau anodd ofnadwy, gan gynnwys profedigaeth, trais domestig a'r perygl o ddigartrefedd. Maent yn

ystyried yr ysgol yn lle cefnogol sy'n eu helpu i oresgyn yr heriau maent yn eu hwynebu â'u plentyn neu sefyllfa'r cartref.  Mae ysgolion sy'n ymgysylltu'n hynod effeithiol â theuluoedd a'r gymuned yn ymdrechu i drin pob rhiant yn deg ac yn urddasol drwy feithrin perthynas gref ar sail ymddiriedaeth a chyd-barch.  Maent yn deall nad yw probemau plant a theuluoedd ar wahân i'w gilydd, ac yn ymdrechu i helpu teuluoedd er lles y plentyn.

### Rôl staff ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned

33 Mae gan y rhan fwyaf o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg hwn aelod staff sydd â'r rôl o ymgysylltu â rhieni, y gymuned ac ystod o asiantaethau a sefydliadau sy'n gallu cynnig cymorth i blant a'u teuluoedd.

34 Yn aml, caiff penodi swyddog ymgysylltu â theuluoedd neu'r gymuned, neu unigolion sy'n ymgymryd â rôl debyg, ei ystyried gan uwch arweinwyr fel y cam pwysicaf a gymerwyd gan ysgol i wella eu gwaith â theuluoedd a'r gymuned.  Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio cymorth grant yn effeithiol i hwyluso'r gwaith o benodi staff allweddol. Fodd bynnag, yn aml, mae'n rhaid i ysgolion cymunedol ddibynnu'n rhy drwm ar gymorth grant i ategu eu strategaethau cymunedol.  Un o ganlyniadau hyn yw bod y staff sy'n cefnogi strategaethau gwerthfawr sy'n canolbwyntio ar y gymuned mewn rolau dros dro.

35 Ym mron pob achos, mae rhieni o'r farn mai'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yw'r rheswm pam y mae'r ysgol mor effeithiol o ran eu cynnwys yn nysgu eu plentyn, gan roi cymorth i rieni a'u helpu'n gyffredinol i ddelio â'r heriau maent yn eu hwynebu.

36 Mae arweinwyr ysgolion cymunedol effeithiol yn deall pwysigrwydd penodi neu nodi'r unigolyn 'priodol' i ymgymryd â'r rôl hanfodol hon o weithio tuag allan â theuluoedd a'r gymuned.  Mewn llawer o ffyrdd, ansawdd y berthynas rhwng y swyddog ymgysylltu â theuluoedd a'r teuluoedd sy'n cael yr effaith fwyaf ar effeithiolrwydd yr ymggysylltu.  Ym mron pob enghraifft o rolau swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn yr ysgolion, roedd yr unigolyn a benodwyd i ymgymryd â'r rôl yn rhywun a oedd â'r rhinweddau canlynol:

- ymrwymiad i'r gymuned a chynorthwyo teuluoedd
- deall anghenion y gymuned a wasanaethir gan yr ysgol
- cydnabod pwysigrwydd a gwerth cydweithio a phartneriaeth
- profiad o weithio mewn rôl sy'n canolbwyntio ar y gymuned neu â theuluoedd, mewn cyd-destun y tu allan i'r ysgol, o bosibl
- medrau rhyngbersonol cryf a'r gallu i feithrin perthynas waith gref ag ystod o bobl, beth bynnag fo'u cefndir neu sefyllfa
- gallu i roi'r plentyn a'r teulu wrth wraidd yr hyn a wnânt ac eirioli drostynt, yn enwedig pan nad yw teuluoedd yn gwybod sut neu ymhle i gael cymorth ar gyfer yr heriau sylweddol maent yn eu hwynebu
- gwerthoedd, creodau ac agweddau proffesiynol a phersonol sy'n eu helpu i feithrin perthynas ymddiriedus â theuluoedd

37 Yn bennaf, mae staff ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned sy'n gweithio yn yr ysgol sy'n rhan o'r arolwg hwn yn unigolion sydd wedi'u hysgogi gan awydd i wella

cyfleoedd bywyd plant a'u teuluoedd. Maent yn deall pwysigrwydd datblygu partneriaethau cryf â theuluoedd ac, ar y cyd â sefydliadau cymunedol ac asiantaethau eraill, maent yn y sefyllfa orau i gynorthwyo teuluoedd. Er enghraifft, caiff y dull hynod effeithiol o ymgysylltu â rhieni a'r gymuned yn Ysgol Gynradd Glen-boi yn Rhondda Cynon Taf ei arwain gan y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd. Mae'n cydweithio'n agos â'r pennaeth ac wedi meithrin perthynas â rhieni sy'n ganolog i sefyllfa'r ysgol fel un sydd â'r gymuned wrth wraidd iddi. Mantra'r rhieni yw 'mae angen swyddog ymgysylltu â theuluoedd ar bob ysgol, ond ni allant gael ein swyddog ymgysylltu â theuluoedd ni'. Oherwydd llwyddiant y dull hwn, mae'r awdurdod lleol wedi cytuno i ymestyn y fenter i ysgolion eraill yn yr awdurdod. Gallwch ddarllen mwy am rôl y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yn Ysgol Gynradd Glen-boi yn yr astudiaeth achos ar **dudalen 59**.

38 Er bod gan lawer o ysgolion cynradd staff ymgysylltu â theuluoedd neu'r gymuned sefydledig, nid yw hyn yn wir mewn ysgolion uwchradd bob tro. Fodd bynnag, mae ysgolion uwchradd cymunedol hynod effeithiol yn penodi staff i weithio'n uniongyrchol â theuluoedd a'r gymuned. Yn yr un modd ag ysgolion cynradd, mae'r ysgolion uwchradd hyn yn teilwra'r rôl i fodloni anghenion eu disgyblion a'u teuluoedd. Er enghraifft, mae Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre ym Merthyr Tudful wedi sefydlu 'Tîm o Amgylch y Plentyn', sy'n cynnwys swyddog tîm o amgylch y plentyn a dau aelod staff i gefnogi lles disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r staff hyn yn ymgymryd ag ystod o rolau, drwy weithio o'r ysgol ac ymweld â chartrefi, er mwyn meithrin perthynas â rhieni a theuluoedd. Bu'r effaith yn gadarnhaol iawn, yn enwedig o ran gwella agweddau at ddysgu. Gan fod manteision y dull hwn yn ganolog i'r strategaeth gwella ysgol, nid yw'r ysgol yn defnyddio cyllid grant mwyach, ond ei gyllideb graidd i ariannu'r fenter hon. Mae'r astudiaeth achos ar **dudalen 56** ar ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre yn rhoi mwy o wybodaeth am ei dulliau.

39 Yn aml, mae ysgolion cymunedol effeithiol yn darparu trefniadau gweithio hyblyg i staff sy'n gweithio â theuluoedd a'r gymuned. Mae hyn yn galluogi'r aelodau staff hyn i gynnig cymorth a gweithgareddau i deuluoedd y tu allan i oriau ysgol arferol, neu yn ystod penwythnosau a gwyliau.

### Rol ymchwil a dysgu proffesiynol o ran cynorthwyo datblygiad ysgolion cymunedol

40 Caiff y dull ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned a ddefnyddir gan lawer o ysgolion cymunedol effeithiol ei lywio gan arfer genedlaethol a rhyngwladol effeithiol, ymchwil a pholisi Llywodraeth Cymru.

41 Gwnaeth lawer o ysgolion sylwadau am werth *Wynebu'r her gyda'n gilydd: Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2015). Dywedant ei fod yn rhoi cyngor gwerthfawr iddynt am sut i ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, strategaethau i ddatblygu dull ysgol-gyfan ac adnoddau ymarferol i'w helpu i sefydlu a chynnal ymgysylltiad â theuluoedd a'r gymuned. Ysbrydolwyd pennaeth Ysgol Heulfan yn Wrecsam i ddefnyddio cyhoeddi'r Pecyn Cymorth YGaTh yn gatalydd ar gyfer newid. Gan ddefnyddio'r canllawiau'n fan cychwyn, datblygodd ddiwylliant agored, gonest yn yr ysgol sy'n gwerthfawrogi safbwyntiau rhieni. Mae penodi staff sy'n ymroi i egwyddorion ysgol gymunedol, a

diwylliant ysgol gyfan sy’n adlewyrchu agwedd gadarnhaol, wrth wraidd ymgysylltu â theuluoedd a’r gymuned yn yr ysgol.

42 Mae ysgolion cymunedol effeithiol yn gwerthfawrogi mentrau fel y Llofnod Dysgu Teulu a Teuluoedd ac Ysgolion gyda’i Gilydd (FAST) yn eu helpu i ddechrau ymgysylltu â theuluoedd a’r gymuned. Fodd bynnag, nid yw ysgolion cymunedol effeithiol yn ystyried y rhain fel yr unig ddull o sefydlu ymgysylltu â theuluoedd a’r gymuned. Yn hytrach, maent yn ffurfio rhan o gyfres o ddulliau sy’n cael eu defnyddio i gyfoethogi ac ategu eu dull ymgysylltu. Er enghraifft, mae Ysgol Gynradd Talysarn yng Ngwynedd yn defnyddio’r Llofnod Dysgu Teulu ar y cyd â rhaglen ymchwil, cymorth yr awdurdod lleol a sefydliadau diwylliannol cyfagos i feithrin dyhead a mwynhad mewn dysgu â theuluoedd targedig.

43 Mae llawer o arweinwyr ysgolion cymunedol effeithiol yn sicrhau y gall yr holl staff fanteisio ar ddysgu proffesiynol yn ymwneud ag ymgysylltu â theuluoedd a’r gymuned. Gallai hyn gynnwys ymweliadau i arsylwi arfer ymgysylltu effeithiol mewn rhaglenni dysgu proffesiynol sy’n cael eu cynnig gan gonsortia rhanbarthol neu sefydliadau addysg uwch. Un o werthoedd craidd yr ysgolion hyn yw bod yr holl staff yn gyfrifol am ymgysylltu’n effeithiol â theuluoedd a’r gymuned, yn hytrach na bod swyddog ymgysylltu â theuluoedd neu’r gymuned neu’r pennaeth yn gyfrifol amdano’n unig. Disgwylir i’r holl staff ddatblygu eu medrau proffesiynol, gwybodaeth a dealltwriaeth o’u rôl broffesiynol mewn ysgol gymunedol, yn enwedig yn y ffordd maent yn gweithio â phartneriaid ac asiantaethau sy’n cynnig cymorth. Mae Ysgol Rhosymedre yn cynnig ystod o ddysgu proffesiynol mewnol sy’n gysylltiedig â’r agenda les. Mae’r ysgol hefyd yn cynorthwyo disgyblion â datblygiad pwrpasol fel eu bod wedi’u paratoi’n dda i fynd i’r afael ag unrhyw anghenion penodol sydd gan blant unigol a’u teuluoedd. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys hyfforddiant Makaton ac Elklan. Caiff hyn ei gynnig i rieni hefyd. Mae arweinwyr yn cydweithio’n agos ag ysgolion lleol eraill i gyfuno cyllid er mwyn manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd dysgu proffesiynol. Maent yn teilwra dysgu proffesiynol i fodloni anghenion penodol teuluoedd a’r gymuned, fel helpu plant a’u teuluoedd wrth bontio o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd.

44 Mae penaethiaid mewn ysgolion cymunedol effeithiol yn cydnabod pwysigrwydd cael staff tra medrus i weithio â theuluoedd, yn enwedig y rhai sy’n agored i niwed ac sydd angen cymorth ychwanegol. Er enghraifft, mae’r Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd a’r Gymuned yn Ysgol Gogarth, sef ysgol arbennig yn awdurdod lleol Conwy, yn gwnsler hyfforddedig ac yn cynnig cefnogaeth mewn galar i deuluoedd. Mae hyn yn amhrisiadwy i gefnogi lles emosiynol rhieni, o ystyried y cyflyrau byrhau bywyd sydd gan ddisgyblion ag anghenion cymhleth. Mae rhieni’n gwerthfawrogi’r cyfle i siarad yn agored a gonest yn yr amgylchedd diogel a chyfarwydd a sefydlwyd gan yr ysgol. Am fwy o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddir yn Ysgol Gogarth, gallwch ddod o hyd i’r astudiaeth achos ar **dudalen 47**.

45 Dros y pum mlynedd diwethaf, mae nifer gynyddol o ysgolion yng Nghymru wedi cymryd rhan mewn ymweliad dysgu rhyngwladol mewn partneriaeth â’r British Council. Mae’r ymweliadau hyn, i’r UDA fel arfer, wedi cynnig cyfleoedd gwerthfawr i arweinwyr ysgolion, ac mewn ychydig iawn o achosion athrawon a staff cymorth dysgu, ymgysylltu â’r dulliau grymus o addysg gymunedol gan ysgolion ‘gwasanaeth llawn’ mewn dinasoedd fel Efrog Newydd a Chicago. Yn yr un modd, mae ychydig o

ysgolion wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn Lloegr i ddysgu am fentrau llwyddiannus sy'n cefnogi ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned.

46 Yn yr achosion gorau, mae arweinwyr ysgolion wedi defnyddio dysgu proffesiynol o'u hymweliadau cenedlaethol a rhyngwladol i greu dull sy'n gweddu i anghenion eu hysgolion. Mae'r dull hwn yn mynnu dealltwriaeth gref, nid yn unig o'r strategaeth a arsylwyd, ond yr ymchwil y tu ôl iddi hefyd. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Pencoed yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, mae staff wedi ystyried gwaith Charles Desforges ar werth ymgysylltiad rhieni. Yn sgil arsylwi arfer mewn awdurdod lleol yn Lloegr a oedd wedi lleoli swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ym mhob ysgol, datblygodd y pennaeth ddull ar gyfer Ysgol Gynradd Pencoed. Helpodd y dysgu proffesiynol a gafwyd yn ystod ymweliad ag ysgolion yn Efrog Newydd â'r British Council i'r ysgol atgyfnerthu ei ddull ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. Mae rhagor o wybodaeth am y dull a ddefnyddir yn Ysgol Gynradd Pencoed i'w gweld yn yr astudiaeth achos ar **dudalen 62**.

### Dysgu fel teulu

47 Mae arweinwyr a staff mewn ysgolion cymunedol effeithiol yn cydnabod mai rhieni a theuluoedd yw'r addysgwyr cyntaf ym mywyd plentyn. Trwy ddarparu rhaglenni dysgu fel teulu sy'n bodloni anghenion rhieni, mae ysgolion cymunedol effeithiol yn cael effaith gadarnhaol ar les, hyder a chyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i'r teulu cyfan. Mae gan yr ysgolion hyn ddealltwriaeth gref o natur eu cymuned a'r heriau penodol mae teuluoedd yn eu hwynebu.

48 Mae ysgolion cymunedol effeithiol yn ymroi i ddarparu rhaglenni dysgu fel teulu defnyddiol ac amrywiol i ymgysylltu â rhieni a'u datblygu. Mae dysgu fel teulu'n un ffordd yn unig ac mae'r ysgolion hyn yn meithrin perthynas gadarnhaol a grymus â rhieni. Yn y pen draw, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a'r teuluoedd sy'n cymryd rhan mewn dysgu fel teulu.

49 Mae ysgolion sy'n dangos nodweddion ysgol gymunedol effeithiol yn cynnig rhaglenni dysgu fel teulu llwyddiannus sy'n ymateb i angen a nodwyd. Mae gan yr ysgolion hyn fewnwelediad cryf i natur y gymuned a'r heriau penodol mae rhieni'n eu hwynebu. Er enghraifft, mae Ysgol Gynradd Maindee yng Nghasnewydd yn cydweithio â'r hwb cymunedol lleol i gynnal cyrsiau sy'n galluogi rhieni i ennill cymwysterau. Mae staff yr ysgol ac aelodau'r hwb cymunedol yn trefnu cyrsiau ar y cyd ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), cymorth cyntaf i blant a chwrs sy'n arwain at gymhwyster cymorth addysgu. Mae rhieni wedi elwa'n fawr ar y cyfleoedd hyn i ddatblygu medrau a chymwysterau newydd. Trwy'r bartneriaeth â'r hwb, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i rieni gymryd rhan mewn diwrnodau profiad gwaith a'r cyfle i wirfoddoli yn y gymuned. Yn aml, mae gweithgareddau eraill a drefnir gan yr ysgol a'r hwb, yn gwthio rhieni i fynd y tu hwnt i'r hwn sy'n gyfforddus iddynt ac yn rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu medrau newydd. Profwyd bod hyn yn rhoi'r hyder iddynt fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant neu ddod o hyd i waith.

50 Yn aml, eir i'r afael â dysgu fel teulu a dysgu yn y gymuned yn wahanol mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion uwchradd yn defnyddio cyfleoedd dysgu yn y gymuned fel arf i ymgysylltu â

theuluoedd ac aelodau'r gymuned. Maent yn defnyddio arbenigedd athrawon a chyfleusterau'r ysgol i gynnig cyrsiau a all sbarduno diddordeb mewn dysgu, fel datblygu medr newydd. Er enghraifft, mae Ysgol Gymuned Cefn Hengoed yn Abertawe yn cynnig ystod o sesiynau dysgu'n fisol sydd wedi'u targedu i ddiddori rhieni ac aelodau'r gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau ar TGCh sylfaenol a diogelwch ar y rhyngrwyd, mathemateg ariannol, prydau bwyd mewn 30 munud, gyrfa am oes a dwyieithrwydd. Gallwch ddarllen mwy am o ffordd mae Ysgol Gymuned Cefn Hengoed yn cydweithio â rhieni a'r gymuned yn yr astudiaeth achos ar **dudalen 52**.

51 Mewn llawer o achosion, mae ysgolion yn datblygu rhaglenni dysgu fel teulu sy'n annog disgyblion a rhieni i ddysgu gyda'i gilydd. Mae'r dull hwn yn fwyaf cyffredin mewn ysgolion cynradd, lle caiff rhieni gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn sesiynau i ddarganfod sut caiff agweddau ar y cwricwlwm, yn enwedig llythrennedd a rhifedd, eu haddysgu a'r hyn a ddisgwylir gan eu plant. Mae ysgolion uwchradd cymunedol effeithiol yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i rieni ddysgu am ddisgwyliadau arholiadau, medrau astudio a dulliau addysgu a dysgu penodol.

52 Mae ysgolion sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddifreintedd cymdeithasol uchel yn ystyried dysgu fel teulu yn ffordd o fynd i'r afael â medrau llythrennedd a rhifedd isel ymhlith rhieni. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn ysgolion cynradd, lle caiff rhieni gyfleoedd i ddysgu ochr yn ochr â'u plant. Mae hyn yn helpu i wella eu lefel medrau sylfaenol sydd, yn ei dro, yn eu helpu i ddatblygu'r hyder i gynorthwyo'u plant â'u dysgu. Yn ogystal, mae'r dull hwn o ddysgu fel teulu ar y cyd yn galluogi rhieni i fod yn ddelfryd ymddwyn effeithiol i'w plant drwy ddangos eu hymrwymiad eu hunain i ddysgu. Mae prosiect 'Dysgu Gyda'n Gilydd' yn helpu rhieni yn Ysgol Heulfan yn awdurdod lleol Wrecsam i ddatblygu dealltwriaeth well o sut i gynorthwyo dysgu eu plant mewn ffordd hamddenol a phleserus. Mae'r astudiaeth achos ar **dudalen 69** yn rhoi gwybodaeth am ddulliau llwyddiannus eraill y mae'r ysgol wedi'u defnyddio i ymgysylltu â theuluoedd.

53 Mae Ysgol Gynradd Severn yng Nghaerdydd yn darparu ystod eang o gyrsiau i fodloni anghenion ieithyddol a chymdeithasol amrywiol rhieni. Mae cynorthwyydd addysgu yn cynnal cwrs iaith wythnosol dros gyfnod o ddwy flynedd, sy'n cwmpasu pynciau'n ymwneud â bywyd ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn darparu llwybr i addysg bellach drwy hwyluso mynediad at gyrsiau mewn coleg lleol. Mae'r ganolfan ddysgu gydleoledig i oedolion a'r gymuned yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth, sy'n eu helpu i gynorthwyo eu plant yn yr ysgol. Mae gan y gymuned gyfradd symudedd uchel ymhlith teuluoedd, felly mae'r ysgol yn deall gwerth cynnwys y rhai sy'n newydd-ddyfodiaid i'r gymuned mewn gweithgareddau cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael ag unigedd.

54 I lawer o rieni, mae cymryd rhan mewn rhaglen dysgu fel teulu yn eu helpu i ddatblygu'r medrau, hyder a'r diddordebau i gymryd rhan mewn dysgu pellach i oedolion neu, mewn ychydig o achosion, yn arwain at gyflogaeth. Ar ôl cymryd rhan mewn dysgu fel teulu mewn ysgolion cymunedol llwyddiannus, mae rhieni unigol yn dod o hyd i gyflogaeth neu'n mynd ymlaen i addysg bellach. Mae enghreifftiau'n cynnwys cael eu cyflogi fel cynorthwywyr cymorth dysgu yn yr ysgol, gweithwyr gofal plant mewn darpariaeth sy'n gysylltiedig â'r ysgol neu symud ymlaen i gyrsiau prifysgol. Mae dysgu fel teulu mewn llawer o ysgolion cymunedol effeithiol hefyd yn

cynorthwyo rheini unigol i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth cymunedol gwirfoddol. Mae hyn yn eu galluogi i chwarae rhan werthfawr yn y gymuned ehangach, yn aml yn gweithredu fel cymorth ac ysbrydoliaeth i rieni eraill ac yn cyfrannu at weledigaeth yr ysgol i roi lles a llwyddiant teuluoedd a'r gymuned wrth wraidd iddi.

### Gweithio â phartneriaid i ategu a chryfhau cymunedau amrywiol

55 Mae llawer o ysgolion cymunedol yn gwasanaethu cymunedau mwyfwy amrywiol o ran eu diwylliant, ffydd, ethnigrwydd a chefndir cymdeithasol. Mae'r ysgolion hyn, sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd â chymuned ddiwylliannol ac ethnig gyfoethog ond sy'n aml yn wynebu nifer o heriau cymdeithasol, yn gwneud cyfraniad pwysig o ran cefnogi a chryfhau cydlyniad cymunedol. Maent yn cydnabod mai un o'u rolau, fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yw cefnogi cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol (Prydain Fawr, 2010). Mae'r ysgolion hyn yn cydweithio â rhieni, grwpiau cymunedol a gwasanaethau awdurdodau lleol i helpu i greu ymdeimlad o berthyn i'r holl ddisgyblion a'u teuluoedd. Yn aml, mae effaith eu gwaith yn ymestyn i'r gymuned ehangach ac yn cyfrannu at helpu teuluoedd newydd i ymgartrefu yn eu cartref newydd drwy wneud iddynt deimlo bod croeso iddynt yn y gymuned drwy eu hymgysylltiad â'r ysgol.

56 Mae ysgolion cymunedol sydd wedi'u lleol mewn cymunedau tra amrywiol yn sicrhau bod eu cymorth i deuluoedd yn ymateb i natur gyfnewidiol y boblogaeth leol. Maent yn achub ar gyfleoedd i gyflwyno cyfleoedd diwylliannol yn eu hysgolion i rannu profiadau sy'n ymwneud â threftadaeth a thraddodiad. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Maindee yng Nghasnewydd, mae mam-gu wedi sefydlu grŵp dawnsio Roma. Mae'r gymuned Roma yn falch o'r fenter hon ac mae wedi helpu i ehangu dealltwriaeth y gymuned o ddiwylliant Romani. Mae'r ysgol wedi ennill cydnabyddiaeth hefyd o'r gwaith cryf mae'n ei wneud i hyrwyddo heddwch yn y gymuned leol. Caiff prosiect Mala Heddwch ei gefnogi gan ystod eang o arweinwyr ffydd lleol, a bu'n rymus o ran cryfhau cydlyniad cymunedol yn nwyrain Casnewydd.

57 Pan mae ysgolion cymunedol sy'n gwasanaethu cymunedau amrywiol yn cydweithio'n agos â gwasanaethau awdurdodau lleol ac asiantaethau allanol arbenigol, mae'r manteision i ddisgyblion a'u teuluoedd yn sylweddol. Mae'r ysgolion hyn yn datblygu strategaethau cynhwysfawr i gynorthwyo teuluoedd â phroblemau iechyd meddwl, cyllid ac effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod o ganlyniad i newid a chorddi sylweddol yn eu bywydau. Mae'r gefnogaeth sydd wedi'i chanoli o gwmpas yr ysgol yn helpu i gael gwared â'r rhwystrau sy'n atal plant rhag llwyddo yn yr ysgol. Mae hyn yn amlwg yn Ystod Gynradd Sandfields yng Nghastell-nedd Port Talbot, lle mae partneriaethau cryf â'r awdurdod lleol, yr heddlu a'r Ganolfan Integredig i Blant yn helpu i fynd i'r afael â materion fel presenoldeb gwael a medrau llythrennedd a rhifedd gwael ymhlith nifer o ddisgyblion o deuluoedd Rwmanaidd. Oherwydd llwyddiant y dull hwn, mae'r ysgol yn cydweithio â theuluoedd Rwmanaidd sefydledig a disgyblion hŷn erbyn hyn i gynorthwyo disgyblion a rhieni sy'n newydd-ddyfodiaid i'r ysgol i integreiddio.

## Ymestyn y defnydd o asedau'r ysgol gan y gymuned

58 Nid yw'r cysyniad o agor ysgolion i'w defnyddio gan y gymuned yn un newydd. Er enghraifft, ym 1925, datblygodd Henry Morris y cysyniad o ysgolion fel hybiau cymunedol a fyddai'n darparu cyfleusterau addysg, hamdden a chymdeithasol i'w defnyddio gan deuluoedd a chymunedau ehangach yn Swydd Gaergrawnt. Yn bennaf, roedd y datblygiad hwn i helpu i fynd i'r afael â thlodi o ganlyniad i ddirywiad gwledig drwy sefydlu'r ysgol fel canolbwynt cymdeithasol ac addysgol ar gyfer cymuned bentref gynaliadwy (Y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, 2016).

59 Galluogodd y fenter ysgolion estynedig gwasanaeth llawn yn Lloegr, a lansiwyd yn 2003, i ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig gynnig ystod eang o wasanaethau neu weithgareddau y tu allan i'r diwrnod ysgol i helpu i fodloni anghenion dysgu a datblygu disgyblion, eu teuluoedd a chymunedau lleol (Adran Addysg, 2006). Roedd y prosiect Ysgolion Cymunedol Newydd (New Community Schools) yn Yr Alban wedi'i ganolbwyntio mewn ardaloedd difreintiedig lle'r oedd plant yn wynebu risg sylweddol o allgau cymdeithasol a rhwystrau rhag dysgu yn eu hamgylchedd bob dydd (Sammons *et al.*, 2003).

60 Rhwng 2005 a 2011, galluogodd cyllid grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ac ysgolion ddatblygu prosiectau a all 'ddarparu... gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu i ddiwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003, t.3).

61 Yn 2008, crybwyllodd Estyn (2008) fod y fenter Ysgolion Bro wedi gwella mynediad at adeiladau ac adnoddau ysgolion, yn enwedig ar gyfer ymarfer corff a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Roedd hefyd wedi helpu i wella'r berthynas rhwng ysgolion a'u cymunedau lleol, ac roedd gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol yn nodwedd dda o rai o'r Ysgolion Bro mwyaf llwyddiannus. At ei gilydd, ni chyflawnodd y cyllid Ysgolion Bro ddatblygiad ar raddfa fawr mewn addysg fro. Roedd llwyddiant y fenter yn dueddol o ddibynnu ar ddulliau a ddefnyddiwyd gan ysgolion unigol ac roedd yn rhy amrywiol ledled Cymru. O ganlyniad, ni wireddwyd y weledigaeth y dylai pob ysgol yng Nghymru fod yn ysgol fro yn llawn. Fel y casglwyd yn adroddiad Estyn yn 2008 ar y fenter Ysgolion Bro, 'mae gan ysgolion ffordd bell i fynd cyn dod yn 'ganolfan un stop' ar gyfer gwasanaethau cymunedol yn y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei rhagweld' (2008, t.12). Ers i'r cyllid ddod i ben yn 2010, mae llawer o ysgolion wedi parhau i agor eu cyfleusterau i'w defnyddio y tu allan i oriau ysgol craidd er mwyn gwella gallu'r teuluoedd a'r cymunedau a wasanaethir gan yr ysgol i fanteisio ar gyfleusterau a gwasanaethau.

62 Mae ymchwil a gynhaliwyd gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2016) ar gynyddu'r defnydd o gyfleusterau ysgolion i'r gymuned, yn rhoi dehongliad defnyddiol o'r ffyrdd gwahanol y gall ysgolion ymestyn y defnydd o'u hasedau at ddefnydd y gymuned ehangach. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- **Darpariaeth uniongyrchol.** Mae'r ysgol yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddarparu gweithgareddau, fel clybiau chwaraeon neu ddysgu fel teulu. Gall hyn fod yn

rhad ac am ddim neu wedi'i ariannu gan gyfranogwyr neu sefydliadau.

- **Gwesteia/defnydd deuol.** Mae'r ysgol yn agor ei chyfleusterau i grwpiau cymunedol a chlybiau chwaraeon, er enghraifft darparwyr addysg i oedolion, gweithgareddau chwaraeon yn y gampfa neu ar y caeau chwaraeon, defnyddio neuadd yr ysgol. Gall yr ysgol godi tâl bychan ond, yn gyffredinol, mae'n ystyried bod y defnydd o'r ysgol yn rhan o'i chenhadaeth i fod yn ysgol gymunedol.
- **Defnydd ar wahân o'r un adeilad, ond dan reolaeth anuniongyrchol yr ysgol**. Lle gallai'r ysgol ildio lle i'w ddefnyddio gan sefydliad arall, er enghraifft darparwr addysg i oedolion, ond gan gadw'r hawl i ddefnyddio'r lle hwnnw mewn cytundeb â'r defnyddiwr. Fel arfer, bydd yr ysgol yn codi tâl am ddefnyddio'r lle hwnnw. Gall y tâl amrywio gan ddibynnu ar y math o sefydliad a sut mae'r defnydd yn cysylltu â blaenoriaethau strategol yr ysgol.
- **Defnydd ar wahân o'r un adeilad ond dan reolaeth defnyddiwr arall.** Caiff rhan o'r ysgol ei rhoi gan reolaeth uniongyrchol sefydliad arall ac mae'r ysgol yn ildio rheolaeth o'r lle hwnnw. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwasanaethau cymdeithasol neu ddarparwyr iechyd. Fel arfer, bydd ysgolion yn codi cyfradd busnes ar gyfer defnyddio'r cyfleusterau, a disgwylir i ddefnyddwyr ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gostau cysylltiedig.

63 Mae ysgolion sy'n defnyddio eu hasedau ffisegol, naill ai yn ystod neu'r tu allan i oriau ysgol arferol, yn elwa'n sylweddol o ran ennyn mwy o ddiddordeb ymhlith disgyblion mewn gweithgareddau sy'n ategu eu lles, mwy o falchder yn yr ysgol a'r gymuned, gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned, a mwy o gefnogaeth gymunedol.

64 Mae'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg yn darparu mynediad at eu hasedau a'u hadnoddau at ystod o ddibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithgareddau chwaraeon neu weithgareddau sy'n cefnogi iechyd a lles disgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach, a ddarperir gan yr ysgol neu sefydliadau cymunedol. Yn yr achosion hyn, roedd yr ysgolion fel arfer yn cynnal y gweithgareddau neu'n gweithio â phartneriaid i ddarparu'r gwasanaethau.
- Addysg i oedolion ac addysg gymunedol, gan gynnwys rhaglenni dysgu fel teulu. Yn yr achosion hyn, roedd yr ysgolion yn gwesteia'r gweithgareddau. Mewn ychydig iawn o ysgolion, ildiodd yr ysgolion reolaeth i sefydliad arall.
- Mynediad at lyfrgell yr ysgol, yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ôl ysgol, i rieni a phlant gyda'i gilydd. Yn yr achosion hyn, roedd yr ysgolion yn cynnal ac yn rheoli'r gweithgareddau bron bob tro.
- Darparu clybiau ieuenctid mewn partneriaeth â gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol. Yn yr achosion hyn, ildiodd yr ysgolion ddefnydd o gyfleuster ysgol, ond roedd ganddynt gyfrifoldeb dros yr adeilad o hyd.

65 Mae'r ysgolion sy'n gwneud y defnydd gorau o'u hasedau er lles eu disgyblion a'r gymuned ehangach yn gwneud hynny â dealltwriaeth gref o anghenion y gymuned. Maent yn ymwybodol o sut gall yr ysgol, mewn llawer o achosion, lenwi bwlch mewn gwasanaethau neu sicrhau bod adnoddau'n fwy hygyrch i breswylwyr yn y gymuned.

66 Caiff darparu mynediad at gyfleusterau ac adnoddau'r ysgol ei ystyried yn rhan o strategaeth i wella bywydau plant a theuluoedd yn y gymuned leol. Nid yw'n weithgaredd arunig sy'n dod â manteision ariannol i'r ysgol yn unig, ond yn un sy'n

gallu cyfrannu at wella perthnasoedd a lles cymunedol. Yn yr enghreifftiau gorau o ddefnyddio asedau, mae arweinwyr yn penderfynu agos eu hysgol ar sail cred gref yn rôl yr ysgol fel grym i weddnewid y gymuned.

67 Mae gan ysgolion cymunedol effeithiol ddull strategol clir o ddefnyddio eu hasedau er budd y gymuned. Mae'r penderfyniad i ymestyn y defnydd o asedau'r ysgol i fod o fudd i'r gymuned ehangach yn rhan o ddull strategol ehangach i fynd i'r afael â difreintedd neu anghenion penodol, drwy gyflwyno cyfleoedd nad ydynt ar gael yn y gymuned fel arall. Mae Ysgol Terrig yn Sir y Fflint yn cydweithio'n agos â'r grŵp Ti a Fi lleol a'r Cylch Meithrin i sicrhau y gall rhieni fanteisio'n rhwydd ar ddarpariaeth gofal plant. O ganlyniad, caiff Ti a Fi a'r Cylch Meithrin eu cynnal yn yr ysgol. Mae'r penderfyniad i feithrin perthynas agos â'r grwpiau hyn wedi arwain at nifer o fanteision i'r ysgol a rhieni. Er enghraifft, mae darparu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y rhieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi gallu gweithio mewn partneriaeth â'r Cylch Meithrin i ddatblygu darpariaeth yn y gymuned sy'n cefnogi datblygu medrau iaith cynnar.

68 Mae arweinwyr ysgolion cymunedol effeithiol yn ceisio dod o hyd i ffyrdd arloesol i fanteisio i'r eithaf ar ddefnyddio adeiladau'r ysgol ac, mewn ychydig o achosion, cyfleusterau cymunedol cyfagos. Maent yn gweld y tu hwnt i fanteision uniongyrchol dod â rhieni i mewn i'r ysgol. Maent yn cydnabod bod yr ysgol yn adnodd gwerthfawr, yn enwedig mewn cymunedau sy'n aml â mynediad cyfyngedig, er enghraifft at gyfleusterau chwaraeon a hamdden, gwasanaethau iechyd ac adeiladau cyhoeddus eraill. Mae hyn yn amlwg iawn yn yr ysgolion gwledig yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr arolwg. Er enghraifft, mae Ysgol Moelwyn yng Ngwynedd wedi dwyn cyfrifoldeb am y ganolfan hamdden leol er mwyn sicrhau y bydd yn goroesi er budd i'r gymuned. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn yr astudiaeth achos ar **dudalen 33.**

69 Caiff llywodraethwyr eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau ynghylch defnyddio asedau'r ysgol, ac maent yn herio arweinwyr i gyfiawnhau manteision a pheryglon defnyddio'r ysgol fel adnodd cymunedol. Ym mron pob achos o ddefnyddio asedau'n effeithiol, gwna llywodraethwyr gyfraniad pwysig at lwyddiant y strategaeth drwy eu dealltwriaeth o anghenion lleol a'u gallu i feithrin cysylltiadau â grwpiau eraill yn y gymuned.

70 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion sy'n agor eu hadeiladau i'w defnyddio gan y gymuned ehangach yn cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol. Wrth wneud hynny, maent yn mynd i'r afael ag iechyd a diogelwch, diogelu, gofalu, diogeledd a threfniadau ariannol yn gadarn ac yn sicrhau cymorth defnyddiol i fentrau yr hoffent fwrw ymlaen â nhw. Mae arweinwyr ysgol yn yr ysgolion cymunedol hyn yn gwybod bod yr awdurdod lleol yn ffynhonnell werthfawr o gyngor a chymorth sy'n galluogi'r ysgol i ymestyn y defnydd o'u hasedau ac adnoddau'n ddiogel ac yn llwyddiannus.

71 Mae pwysigrwydd rheolaeth effeithiol ac effeithlon o adnoddau ysgol-gymunedol o ddydd i ddydd yn hanfodol i'r defnydd llwyddiannus o asedau'r ysgol gan y gymuned ehangach. Mae hyn yn sicrhau y caiff dyletswyddau a thasgau hanfodol eu cyflawni'n effeithlon. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod gweithdrefnau diogelu ac iechyd a diogelwch ar waith ac y glynir wrthynt, trefnu amserlen nad yw'n cael effaith negyddol ar ddefnydd disgyblion o gyfleusterau, a chysylltu â grwpiau a defnyddwyr

allanol. Yn aml, mae gan ysgolion eu hatebion eu hunain i reoli asedau, gan ddibynnu ar y sefyllfa benodol, y math o gyfleusterau ac anghenion y gymuned. Mae pob un o'r ysgolion sy'n ymestyn asedau i'w defnyddio gan y gymuned yn penodi rheolwr, fel Ysgol Bae Baglan yng Nghastell-nedd Port Talbot, neu'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliad arall i reoli a goruchwylio'r defnydd o'r cyfleuster. Mae enghraifft o'r dull hwn i'w weld yn Ysgol Golwg y Cwm, lle mae partneriaeth arloesol rhwng yr ysgol a'r clwb pêl-droed lleol wedi arwain at ddatblygu cyfleuster chwaraeon sy'n cael ei ddefnyddio gan yr ysgol a'r gymuned. Gallwch ddarllen mwy am y dulliau a ddefnyddiwyd gan yr ysgolion hyn yn eu hastudiaethau achos ar **dudalen 35** a **thudalen 43**, yn ôl eu trefn.

72 Mae llawer o ysgolion cymunedol effeithiol yn darparu clybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol neu yn ystod y gwyliau. Mae'r ysgolion hyn yn ymestyn y diwrnod ysgol i alluogi disgyblion i fanteisio ar ddysgu ychwanegol neu weithgareddau cyfoethogi. Trwy agor eu cyfleusterau y tu allan i'r oriau ysgol arferol, mae ysgolion cymunedol yn cyfrannu at les plant a'u teuluoedd. Er enghraifft, mae rhaglenni gwyliau'r haf yn sicrhau bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i gael cinio iachus ar hyd y chwe wythnos o wyliau.

73 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg, caiff y rhaglen gwyliau'r haf ei chynllunio'n dda mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau, ac mae'n ymateb i anghenion penodol y disgyblion a'u cymuned. Yn Ysgol Gynradd Tregatwg ym Mro Morgannwg, mae'r Rhaglen Gwella'r Gwyliau Haf yn galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cyfoethogi sy'n eu helpu i barhau i ddysgu, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a chadw'n iach yn ystod cyfnod y gwyliau. Mae'r ysgol yn cydweithio â phartneriaid lleol, fel y clwb criced lleol a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu i gynnig gweithgareddau symbylol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn defnyddio'r rhaglen wella yn gyfle i wahodd rhieni i'r ysgol yn ystod y gwyliau. Ar yr adegau hyn, gallant fanteisio ar yr undeb credyd a gwybodaeth ddefnyddiol am Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

74 Un o nodweddion amlwg y defnydd llwyddiannus o asedau ysgol, yn enwedig y rhai sydd wedi'u lleol mewn adeiladau ysgol hŷn, yw'r modd y mae ysgolion yn addasu eu hadeiladau er mwyn iddynt fod yn hygyrch i'r gymuned, rhieni ac asiantaethau. Yn yr ysgolion hyn, dull cyffredin yw datblygu man ger mynedfa'r ysgol, y gellir ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau rhieni neu gyfarfodydd cymunedol ac, mewn ychydig o achosion, mannau lle gall rhieni a disgyblion fanteisio ar wasanaethau cymorth. Fel arfer, mae'r gwasanaethau hyn ar gael yn ystod oriau ysgol arferol neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion yn defnyddio cyfleusterau cymunedol cyfagos i gyfarfod â rhieni. Mewn achosion eraill, mae ysgolion yn darparu mynedfa benodedig i rieni oddi wrth y brif fynedfa. Mae'r dulliau creadigol hyn o ddefnyddio adeiladau ysgolion yn helpu rhieni i deimlo'n gyfforddus ac yn hyderus wrth ymweld ag ysgolion cymunedol.

75 Mae dull creadigol o ddefnyddio adeilad yr ysgol wedi helpu'r pennaeth a'r staff yn Ysgol Gynradd Glen-boi i ddarparu lle yn yr ysgol i rieni a'r gymuned. Gall rhieni fanteisio ar ystafell gymunedol, sy'n cael ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd grwpiau rhieni, cyfarfodydd un-i-un â'r Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd neu wasanaethau cymorth. Mae hefyd yn fan lle gall rhieni gyfarfod yn anffurfiol. O ganlyniad, mae rhieni'n teimlo bod croeso iddynt yn yr adeilad ac mae ganddynt ymdeimlad o

berchenogaeth o'r ysgol. Mae'r astudiaeth achos ar Ysgol Gynradd Glen-boi ar **dudalen 59** yn cynnwys mwy o wybodaeth am y gwaith mae'r ysgol yn ei wneud i ymgysylltu â rhieni a'r gymuned.

76 Yn aml, mae'r ysgolion sy'n agor eu cyfleusterau i'r gymuned yn gwneud hynny mewn partneriaeth â mudiadau gwirfoddol neu wasanaethau'r awdurdod lleol, fel y gwasanaeth ieuenctid. Er enghraifft, mae Ysgol Gymuned Glynrhedynog yn Rhondda Cynon Taf yn cydweithio â'r gwasanaeth ieuenctid i ddarparu clwb ieuenctid ar safle'r ysgol. Yr awdurdod lleol sy'n darparu'r gweithwyr ieuenctid ac mae'r ysgol yn darparu'r adeilad am bris gostyngol. Caiff bws mini'r ysgol ei ddefnyddio i gludo disgyblion o rai o'r cymunedau mwy anghysbell a difreintiedig. Caiff y ddarpariaeth hon effaith sylweddol, yn enwedig gan ei bod yn annog disgyblion sy'n agored i niwed i fynychu. Trwy weithio mewn partneriaeth a defnyddio asedau'r ysgol, mae'r clwb ieuenctid wedi ymestyn oriau'r ysgol, darparu cyfleoedd i bobl ifanc gydweithio â gwasanaethau cymunedol, ac wedi gwella delwedd pobl ifanc yng nghymuned Glynrhedynog. Yn arwyddocaol, mae'r ganolfan ieuenctid yn hafan i bobl ifanc mewn argyfwng neu yn ystod cyfnodau anodd. Ar ben hynny, caiff cyfleuster y clwb ieuenctid ei ddefnyddio gan y gymuned leol gyda'r nos ac ar benwythnosau fel canolfan ar gyfer clybiau a chymdeithasau. Er enghraifft, mae'r clwb beiciau modur lleol yn defnyddio adeilad y clwb ieuenctid ar gyfer sesiynau ar fecaneg moduron. Gallwch ddarllen am y ffordd mae Ysgol Gymuned Glynrhedynog wedi datblygu hwb cymunedol yn yr astudiaeth achos ar **dudalen 38**.

77 Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion yn defnyddio eu cyfleusterau i gynnal prosiectau mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol. Er enghraifft, mae cymdeithasau tai lleol yn cydweithio'n agos ag ysgolion i'w helpu i fanteisio ar gyllid ar gyfer prosiectau diwylliannol lleol neu brosiectau pontio'r cenedlaethau. Mae'r dull hwn yn dwyn buddion i'r ysgol a'r sefydliad cymunedol, fel ei gilydd. Caiff disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cyfoethogi ac yn ehangu eu profiad, a gall y gymdeithas tai godi ei phroffil yn y gymuned leol a meithrin cysylltiadau cadarnhaol â theuluoedd drwy'r ysgol. Yn Ysgol Bae Baglan, mae partneriaeth gref â Tai Tarian, sef cymdeithas tai sy'n cael ei chefnogi gan Swyddogion Ymgysylltu ag Ieuenctid Cynnydd, wedi arwain at brosiect proffil uchel ar arwyr ffilm a theledu lleol.

## Cydleoli gwasanaethau mewn ysgolion cymunedol

78 Yn 2003, nododd adroddiad Ysgol y Dyfodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wyth nodwedd sy'n diffinio ysgol gymunedol. Roedd dwy o'r rhain yn adlewyrchu'r cysyniad o gydleoli gwasanaethau, sef:

- ymgysylltiad â theuluoedd, a hwnnw'n aml yn cynnwys datblygu gwasanaeth cymorth i deuluoedd yn yr ysgol
- darparu addysg integredig yn yr ysgol, addysg anffurfiol yn ogystal ag addysg ffurfiol, gwaith cymdeithasol ac addysg iechyd a gwasanaethau hyrwyddo

79 Mae adolygiad o'r fenter ysgolion estynedig gwasanaeth llawn yn Lloegr (Cummings *et al.*, 2007a) yn nodi y caiff ysgolion cyfrannog eu nodweddu gan amrywiaeth sylweddol, ond maent yn dangos nodweddion cyffredin sydd hefyd yn amlwg yn yr ysgolion a oedd yn rhan o'r arolwg hwn. Mae'r nodweddion hyn fel a ganlyn:

- ffocws ar oresgyn rhwystrau disgyblion rhag dysgu a chydnabod bod y rhain yn ymwneud â'r hyn a ystyriwyd yn broblemau teuluol a chymunedol
- datblygu darpariaeth ychwanegol i oresgyn y rhwystrau hyn
- defnyddio staff ychwanegol a ffurfio partneriaethau i gyflwyno'r ddarpariaeth hon
- trin ffrydiau cyllido i gynnal darpariaeth a thueddiad i ysgolion fynd eu ffordd eu hun wrth gyflawni eu nodau

80 Daw ysgolion gwasanaeth llawn yn UDA ag ystod o wasanaethau ynghyd hefyd, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a deintyddol, cymorth a dysgu i deuluoedd, gofal i famau newydd a chyfleoedd cwricwlwm estynedig i fynd i'r afael â heriau penodol yn y gymuned. Caiff yr ysgolion eu harwain mewn partneriaeth. Mae'r pennaeth yn goruchwylio addysgu a dysgu, ac mae cyfarwyddwr cymunedol, sydd â chyfrifoldeb sylweddol dros arweinyddiaeth strategol, yn arwain agwedd gymunedol yr ysgol.

81 Fel arfer, mae ysgolion â gwasanaethau cydleoledig yn cynnig cymorth a gwasanaethau i ddisgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned drwy gydol y diwrnod ysgol a'r tu allan i'r diwrnod ysgol a'r tymhorau ysgol arferol. Maent yn wahanol i'r dull a ddefnyddir gan ysgolion sy'n ymestyn y defnydd o'u hasedau i'r gymuned yn unig, gan fod hyn yn ymwneud â darparu gweithgareddau hamdden, chwaraeon, diwylliannol neu addysgol, fel arfer. Mae'r term 'gwasanaethau cydleoledig' yn disgrifio dull lle mae gwasanaethau sy'n cefnogi lles, iechyd a gofal disgyblion, teuluoedd a'r gymuned wedi'u lleoli yn yr ysgol, naill ai'n barhaol neu ar adegau rheolaidd yn ystod yr wythnos.

82 Mae ysgolion sy'n gweithredu fel hybiau cymunedol â gwasanaethau cydleoledig yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o wasanaethau, o fewn a'r tu hwnt i addysg, sydd o fudd i ddisgyblion yr ysgol, eu teuluoedd a phreswylwyr lleol. Nid oes unrhyw fodel neu lasbrint penodedig ar gyfer cydleoli gwasanaethau. Yn hytrach, mae ysgolion wedi datblygu dulliau unigol sy'n bodloni anghenion penodol y gymuned maent yn ei gwasanaethu, ac y gall pob ysgol unigol eu datblygu, eu cynnal a'u parhau.

83 Mae'r gwasanaethau sydd wedi'u cydleoli mewn ysgolion yn amrywio, ond maent fel arfer yn cynnwys gwasanaethau fel gofal plant, iechyd, yr heddlu ac ystod o wasanaethau awdurdodau lleol. Yn nodweddiadol, mae'r gwasanaethau canlynol wedi'u cydleoli mewn ysgolion neu adeiladau cymunedol sy'n perthyn i ysgol:

- darpariaeth gofal plant y blynyddoedd cynnar a Dechrau'n Deg
- gwasanaethau awdurdodau lleol, gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, lles addysg, y gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd, timau'r blynyddoedd cynnar, timau datblygu chwarae
- Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- gwasanaethau llyfrgell cymunedol
- cyngor a chymorth tai, a ddarperir gan gymdeithas dai leol fel arfer
- timau cam-drin domestig a sefydliadau'r trydydd sector sy'n cynnig cymorth i'r rhai sydd mewn perygl o drais domestig
- busnesau newydd lleol sy'n darparu cyflogaeth i bobl leol
- gwasanaethau iechyd, gan gynnwys ymwelwyr iechyd
- sefydliadau'r trydydd sector sy'n gallu cynnig cymorth a chyngor i deuluoedd a'r gymuned, fel Action for Children, Achub y Plant a Barnados

84 Ym mron pob un o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â nhw a oedd â gwasanaethau cydleoledig, mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau wedi'u lleoli yn yr ysgol ar sail ran-amser. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae partneriaid yn defnyddio mannau 'desg boeth' neu ystafelloedd cymunedol sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion.

85 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae cydleoli'n helpu i roi cyngor ac arweiniad cyflym i deuluoedd mewn angen. Gallant gyfeirio rhieni'n gyflym at y cymorth mwyaf priodol, gan ei fod yn aml ar y safle. Pan fydd gwasanaethau wedi'u cydleoli, mae hefyd yn galluogi cyfathrebu effeithlon rhwng darparwyr gwasanaethau a'r ysgol.

86 Yn Ysgol Gogarth, cafodd y weledigaeth o wasanaethau cydleoledig ei gwireddu o ganlyniad i ysgol newydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol. Roedd y pennaeth yn cydnabod bod angen perthynas waith agos ag ystod o asiantaethau i gynorthwyo disgyblion ag ystod o anghenion addysgol arbennig. Roedd yn aml yn aflonyddgar ac yn gythryblus i ddisgyblion a'u rhieni fynychu apwyntiadau mynych i ffwrdd o'r safle. Erbyn hyn, mae dull gwasanaethau integredig yn galluogi rhieni i fynychu apwyntiadau ar gyfer materion yn ymwneud ag iechyd ar y safle. Nid oes llawer o aflonyddwch i'r plentyn, ac mae'r model yn galluogi staff iechyd a staff yr ysgol i drafod yn rhwydd y ffordd orau i gynorthwyo disgyblion unigol. Mae'r astudiaeth achos ar **dudalen 47** yn rhoi mwy o wybodaeth am y ffordd mae Ysgol Gogarth wedi cydleoli ystod o wasanaethau ar safle'r ysgol.

87 Mae ysgolion sy'n gwesteia Dechrau'n Deg yn elwa'n sylweddol ar gydleoli'r ddarpariaeth hon. Yn yr ysgolion hyn, mae staff o'r ddau leoliad yn cydweithio'n agos â'i gilydd fel un tîm. O ganlyniad, gallant rannu gwybodaeth a dysgu proffesiynol, ac maent yn rhannu arfer a mewnwelediad yn rheolaidd i'r ffordd orau i ymdrin â heriau penodol. Maent yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol ac yn cyfleu unrhyw bryderon sydd ganddynt am blentyn neu deulu penodol sydd mewn angen yn gyflym. Mae ganddynt ddull cyson o weithio â phlant a'u teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn cynorthwyo'r broses bontio o Dechrau'n Deg i'r cyfnod sylfaen i rieni a phlant. Mae'r perthnasoedd cryf hyn, sy'n cael eu meithrin wrth i rieni ddod yn

gyfarwydd â'r ysgol am y tro cyntaf, yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer twf pellach wrth i blant symud drwy'r ysgol gynradd.

88 Pan fydd gan ysgolion wasanaethau cydleoledig, mae hyn yn eu helpu i gyflawni eu gweledigaeth a diben fel ysgol gymunedol. Mae gan ychydig o ysgolion fannau cymunedol dynodedig sy'n lletya ystod eang o wasanaethau awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Mae'r partneriaid strategol hyn yn cydweithio â'r pennaeth a staff i helpu teuluoedd a chymunedau i ymdrin ag amgylchiadau heriol, gan gynnwys materion yn ymwneud â thai a chyngor ar fudd-daliadau lles, iechyd a magu plant. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn yn brocera cymorth a chyngor i deuluoedd a gallant gyfeirio teulu mewn angen at y cymorth mwyaf priodol yn gyflym.

89 Ar adegau, nid yw'r prinder lle mewn ysgolion ac angen partneriaid i ddarparu gwasanaethau mewn lleoliadau eraill yn caniatáu cydleoli gwasanaethau mewn ysgolion yn barhaol. Fodd bynnag, mae gan ysgolion cymunedol effeithiol ddulliau hyblyg o ran darparu gwasanaethau cydleoledig. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ysgolion â gwasanaethau cydleoledig yn darparu man 'desg boeth' mewn hwb cymunedol, er mwyn i bartneriaid fod ar y safle yn ôl yr angen.

90 Mewn llawer o ffyrdd, mae ysgolion â gwasanaethau cydleoledig yn darparu 'siop un-stop' i rieni a theuluoedd nad oes ganddynt y modd ariannol na'r wybodaeth i fanteisio ar gymorth fel arall. Mae cydleoli gwasanaethau yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw'n eu galluogi i fanteisio ar y cymorth sydd ei angen arnynt mewn lle ac ar adeg pan mae eu hangen arnynt.

91 Un o nodweddion cadarnhaol cyffredin cydleoli, beth bynnag fo'r trefniadau gwaith, yw'r ffordd y mae partneriaid yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio ar y cyd. Mae hyn yn eu helpu i rannu gwybodaeth a chyfrifoldeb i fynd i'r afael â heriau cyffredin. Gyda'i gilydd, maent yn cynnig atebion cydweithredol, prydlon i'r heriau a wynebir gan ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd.

92 Yn Ysgol Gynradd Millbrook ac Ysgol Gynradd Golwg y Cwm, mae'r ysgolion yn gweithio'n ddi-dor â phartneriaid cydleoledig i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n cael eu hwynebu gan ddisgyblion a'u rhieni. Mae teuluoedd yn manteisio ar gymorth i'w plant neu ar gyfer materion ehangach, fel cael talebau ar gyfer y banc bwyd neu gymorth ar gyfer trais domestig. Mae'r cymorth hwn ar gael mewn man lle maent wedi meithrin perthynas ymddiriedus ag ystod o weithwyr proffesiynol lle maent yn teimlo'n ddiogel a bod croeso iddynt. Mae'r astudiaethau achos ar Ysgol Gynradd Golwg y Cwm ac Ysgol Gynradd Millbrook ar **dudalen 43** a **thudalen 66** yn ôl eu trefn yn rhoi mwy o wybodaeth am eu dull o gydleoli gwasanaethau.

93 Gwna'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw sylwadau cadarnhaol am fanteisio cydleoli gwasanaethau. Maent yn gwerthfawrogi'r ffordd mae cydleoli gwasanaethau'n helpu teuluoedd i weld eu hysgol yn fwy na lle sy'n addysgu plant. Yn hytrach, mae rhieni'n gweld yr ysgol yn lle sy'n darparu gofal a chyngor i'w helpu i gynorthwyo eu plant a rhoi'r cyfleoedd gorau iddynt mewn bywyd. O ystyried hyn, mae rhieni'n fodlon, yn hyderus ac yn ymroi i weithio mewn partneriaeth â'r ysgol.

94 Mae cydleoli gwasanaethau yn arbennig o bwysig mewn ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd gwledig neu sydd â theuluoedd sy'n anfodlon neu'n methu teithio y tu allan i'w hardal uniongyrchol i fanteisio ar wasanaethau. Mae darparu'r gwasanaethau

hyn mewn ysgolion yn helpu teuluoedd i fod â dealltwriaeth well o waith yr ysgol. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn newid amgyffrediad rhieni o'r ysgol ac yn gwella ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

95 Pan fydd ysgolion yn cydweithio â phartneriaid i ddarparu gwasanaethau cydleoledig, mae teuluoedd a'r gymuned yn gweld yr ysgol yn sefydliad cefnogol sy'n cyfrannu at eu lles a'u hansawdd bywyd. Efallai nad yw'r gwasanaethau wedi'u lleoli yn yr ysgol yn barhaol, ond i'r teuluoedd sydd eu hangen, nid yw hyn yn broblem. Mae staff yn yr ysgolion hyn yn manteisio ar gyngor gan wasanaethau sy'n eu helpu i gyflawni eu rolau o ran addysgu disgyblion yn effeithiol wrth i'r gorchmynion o ymdrin â materion iechyd a chymdeithasol leihau.

96 Yn Ysgol Gynradd Rhosymedre, mae cydleoli gwasanaethau yn helpu'r ysgol i gynorthwyo teuluoedd i 'fyw eu bywyd gorau'. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r ymwelydd iechyd i roi cyngor ar ddysgu plant sut i ddefnyddio'r toiled a brwsio dannedd. Yn ogystal, mae diwrnod iechyd i rieni lle gallant fesur eu pwysau gwaed a chymryd rhan mewn gweithdai ar fwyta'n iach.

97 Mae Ysgol Heulfan yn defnyddio dull tebyg. Mae'r pennaeth yn gwahodd ystod o asiantaethau i ddefnyddio'r ysgol fel canolfan ar gyfer apwyntiadau i arbed rhieni a disgyblion rhag yr anghyfleustra o deithio ar gyfer apwyntiadau. Mae gofal golwg, arbenigwyr o ysbytai Gobowen ac Alder Hey, a'r tîm ffisiotherapi yn cynnal apwyntiadau ar y safle, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'r dull hwn yn lleihau straen apwyntiadau ac yn helpu ysgolion cymunedol i fod yn chwaraewyr allweddol o ran cynorthwyo a chyfeirio rhieni at gymorth ychwanegol. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y dull a ddefnyddir yn Ysgol Heulfan yn yr astudiaeth achos ar **dudalen 69**.

98 Mewn ychydig iawn o achosion, mae ysgolion yn cymryd y cam cyntaf i ddatblygu hybiau cymunedol helaeth sy'n mynd i'r afael â'r bylchau mewn gwasanaethau presennol. Yn yr achosion hyn, mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli oddi wrth brif adeilad yr ysgol, ambell waith, er mwyn iddynt fod yn nghanol y gymuned leol. Sefydlwyd Hwb Cymunedol Glynrhedynog yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf gan yr ysgol mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol ac, erbyn hyn, caiff ei redeg gan Bartneriaeth Glynrhedynog, sef elusen sydd â'i gwreiddiau a'i rheolwyr yn Ysgol Gymuned Glynrhedynog. Mae'r fenter wedi'i thanategu gan fodel busnes clir, ac mae'n sicrhau y gall pobl Glynrhedynog fanteisio ar ofal plant o ansawdd uchel, yr heddlu lleol a chyngor iechyd, gwasanaethau llyfrell a chyfleuster cymunedol sy'n cynnig ystod eang o gyngor a chyfleoedd dysgu. Mae'r astudiaeth achos ar Ysgol Gymuned Glynrhedynog ar **dudalen 38** yn amlinellu datblygu a gweithredu'r Hwb Cymunedol.

# Atodiad 1: Astudiaethau achos

## Astudiaeth achos 1: Darparu mynediad at gyfleusterau i ddisgyblion a'r gymuned yn Ysgol Moelwyn

### Gwybodaeth am yr ysgol

Mae Ysgol y Moelwyn yn ysgol uwchradd ddwyieithog i ddisgyblion rhwng 11 ac 16 oed, a gynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae wedi'i lleoli ym Mlaenau Ffestiniog ac mae'n gwasanaethu ardal eang, wledig yn bennaf. Yn hanesyddol, mae'r dref wedi dibynnu ar y diwydiant llechi ac, yn ddiweddarach, ar yr orsaf drydan niwclear yn Nhrawsfynydd. Yn ddiweddarach, bu ei heconomi'n dirywio. Mae 325 o ddisgyblion ar y gofrestr.

Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw ychydig dros 12%, sy'n is na chyfartaledd cenedlaethol y sector, sef 16%. Mae'r ysgol wedi cydnabod bod gan ychydig dros 30% o'i disgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae gan tua 4% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na'r ganran genedlaethol. Mae tuag 82% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd.

### Cyd-destun a chefndir i'r arfer

Mae Ysgol y Moelwyn yn gwasanaethu ardal eang, wledig yn bennaf. Fodd bynnag, er gwaethaf y dalgylch mawr, mae'r ysgol yn ystyried ei bod wrth wraidd ei chymuned er lles plant, pobl ifanc ac oedolion yn yr ardal. Mae gweledigaeth y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn un uchelgeisiol i'r ysgol a chymuned Blaenau Ffestiniog. Maent yn cydnabod yr heriau mae disgyblion a'u teuluoedd yn eu hwynebu o ran manteisio ar wasanaethau, tai a chyflogaeth yn y dyfodol, ac yn cynorthwyo'r gymuned yn weithredol i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerth dysgu a phwysigrwydd lles cymunedol yn llwyddiannus drwy ei gweledigaeth a'i strategaethau. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth, disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr yn rhannu gweledigaeth gref ac ymdeimlad o falchder yn eu cymuned ehangach.

### Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth

Mae'r ysgol wedi dwyn cyfrifoldeb dros y ganolfan hamdden leol er mwyn sicrhau ei fod yn goroesi er budd y gymuned. Yn ystod y dydd, mae disgyblion Ysgol y Moelwyn a disgyblion o ysgolion cynradd y clwstwr yn defnyddio'r cyfleusterau ar gyfer gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau chwaraeon. Gyda'r nos, caiff cyfleusterau fel cae bob tywydd a chaeau chwarae'r ysgol eu defnyddio gan grwpiau chwaraeon a chymunedol lleol i gynnal gweithgareddau sydd o fudd i iechyd a lles teuluoedd. Mae'r ysgol yn sicrhau, pan nad yw'r cae yn cael ei ddefnyddio, ei fod yn cael ei gadw ar agor er mwyn i'r plant lleol fod â lle diogel i chwarae.

Caiff neuadd yr ysgol ei defnyddio'n rheolaidd gan gôr meibion lleol ar gyfer ymarferion a chyngherddau, sy'n darparu cyfleoedd i bobl leol gyfarfod a chymdeithasu. Mae'r gwasanaeth ieuenctid lleol yn cydweithio'n agos â'r ysgol i gynnig cymorth gwerthfawr i ddisgyblion. Er enghraifft, mae'r gweithiwr ieuenctid yn ymateb i geisiadau gan ddisgyblion i gynnig dosbarthiadau ffitrwydd yn y ganolfan hamdden i wella eu hiechyd, lles a hunan-barch.

Mae gan yr ysgol glwb gwaith cartref sefydledig ar ôl ysgol i helpu disgyblion i fanteisio ar ei hadnoddau dysgu. Er mwyn sicrhau mynediad cyfartal at y gweithgaredd hwn, mae'r ysgol yn darparu cludiant adref er mwyn galluogi disgyblion i elwa ar y sesiynau hyn. Yn ogystal, mae'r ysgol yn darparu clwb ar ôl ysgol i blant oed cynradd yn ystod y tymor ysgol. Yn ystod gwyliau'r haf, mae'r ysgol yn cynnal clwb gwyliau sy'n cael ei gefnogi'n dda yn y ganolfan hamdden. Er mwyn sicrhau y caiff anghenion pob disgybl eu bodloni gan y ddarpariaeth helaeth y tu allan i oriau, mae tîm cymorth dysgu'r ysgol yn cynnig rhaglen sy'n para pythefnos i ddisgyblion sy'n agored i niwed, sef 'Clwb Stalan', yn yr ysgol yn ystod gwyliau'r haf.

**Effaith ar ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned**

- Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleusterau, offer ac arbenigedd i'w gynorthwyo â dysgu ar ôl ysgol.
- Mae presenoldeb wedi parhau'n uchel.
- Nid oes unrhyw ddisgybl yn cael ei atal rhag elwa ar oriau dysgu estynedig oherwydd bod trefniadau cludiant effeithiol.
- Caiff y cyfleuster chwaraeon lleol ei gadw ar agor i'r gymuned a'r ysgol ei ddefnyddio.
- Mae gan blant lleol le diogel i chwarae.
- Mae rhieni disgyblion yn gwybod bod eu plant yn cael eu difyrru'n gadarnhaol ac yn cael gofal da, er enghraifft drwy allu cael bwyd yn ystod gwyliau'r haf.
- Caiff yr ysgol ei hystyried yn lle i ddysgu a chymdeithasu gan y gymuned leol.
- Mae rhieni'n ystyried yr ysgol yn lle agored a chroesawgar i'w plant a nhw'u hunain.

**Astudiaeth achos 2: Ymestyn y defnydd o asedau'r ysgol yn Ysgol Bae Baglan i ymgysylltu â'r gymuned**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Bae Baglan yn ysgolion pob oed 3-16 yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Ar hyn o bryd, mae 1,513 o ddisgyblion ar y gofrestr. Sefydlwyd yr ysgol ar ôl uno pedair ysgol yn 2016.

Mae'r ysgol yn un o'r 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae cyfartaledd dreigl y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd diwethaf o gwmpas 30%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 27% o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Ers i'r ysgol agor yn 2016, mae wedi gweithio'n llwyddiannus i greu ethos cymunedol cryf. Trwy bartneriaethau effeithiol ag amrywiaeth o sefydliadau, mae wedi datblygu'n hwb ar gyfer gweithgarwch cymunedol. Mae'r rhyngweithio cadarnhaol hwn â'r gymuned wedi ffurfio hunaniaeth yr ysgol wrth gyfoethogi profiadau i ddisgyblion a phobl yn yr ardal leol.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Mae'r ysgol yn rhoi pwys mawr ar berthynas gadarnhaol rhwng yr ysgol, teuluoedd a'r gymuned. Mae cynnig ystod eang o weithgareddau diwylliannol a rhaglenni chwaraeon ac mae estyn y diwrnod ysgol yn helpu'r ysgol i feithrin perthynas â'r gymuned ac yn galluogi pobl leol i elwa ar gyfleusterau'r ysgol. O ganlyniad, mae gan y gymuned ymdeimlad o berchenogaeth a balchder yn yr ysgol.

Mae strategaeth yr ysgol yn cynnwys defnyddio ei chyfleusterau rhagorol newydd yn feddylgar i:

- wella mynediad at chwaraeon yn y gymuned
- adeiladu ethos cymunedol newydd yr ysgol sy'n cynnwys yr ardal leol
- codi dyheadau disgyblion
- meithrin balchder disgyblion, rhieni a'r gymuned yn yr ysgol

Mae 45 o glybiau a sefydliadau yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, bod tua 350 o aelodau'r gymuned yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar safle'r ysgol yn rheolaidd. Trwy'r gwaith hwn, mae'r ysgol yn cefnogi dyhead yr awdurdod lleol ar gyfer 'iechyd gwell drwy fyw'n egnïol'

Gwnaeth arweinwyr yr ysgol benodiadau pwysig er mwyn sicrhau y caiff y defnydd cymunedol helaeth o adnoddau'r ysgol ei reoli'n effeithiol. Gwnaethant benodi rheolwr cymunedol, tîm bach o swyddogion chwaraeon dynodedig a gofalwr. Mae gan y rheolwr cymunedol rôl yn hyrwyddo'r defnydd o gyfleusterau'r ysgol drwy gysylltu â sefydliadau lleol hefyd.

Nid yw’r ysgol yn elwa’n ariannol ar ganiatáu i’r gymuned ddefnyddio ei hadnoddau. Yn hytrach, mae’n sicrhau y gall pobl fanteisio ar ei chyfleusterau mewn modd fforddiadwy. Mae cyfleusterau’r ysgol ar gael i’r gymuned gyda’r nos ac ar benwythnosau.

Mae’r rheolwr cymunedol yn galluogi’r ysgol i godi ei phroffil yn y gymuned ehangach. Gwna’r ysgol ddefnydd hynod effeithiol o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ei digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol. Mae’r dull hwn wedi ymgysylltu â rhieni a’u hannog i ddarganfod beth sy’n digwydd yn Ysgol Bae Baglan. Mae’r ysgol wedi manteisio ar y diddordeb hwn i sicrhau bod sianeli cyfryngau cymdeithasol hefyd yn rhoi gwybodaeth a chyngor am wasanaethau a digwyddiadau eraill yn y gymuned. Er enghraifft, rhoddodd hwylddydd cymunedol yn yr ysgol, a gynhaliwyd ar y cyd â’r gwasanaethau brys, gyfle defnyddiol i fusnesau a darparwyr gwasanaethau lleol hyrwyddo eu gwaith yn y gymuned. Daeth y digwyddiad hwn, a oedd â chynulleidfa fawr, â’r gymuned at ei gilydd, a fu’n anodd iawn cyn i’r ysgol newydd gael ei hadeiladu gan fod ychydig iawn o gyfleusterau cymunedol â’r lle i wneud hynny.

Yn dilyn ymgyrch lwyddiannus gan ddisgyblion, sefydlodd yr awdurdod lleol glwb ieuenctid yn yr ysgol. Mae hyn wedi gwella hygyrchedd y gwasanaeth i bobl ifanc yn yr ardal leol. Caiff y clwb ieuenctid ei reoli gan ddau weithiwr ieuenctid fel rhan o brosiect ‘Cynnydd’ yr awdurdod lleol. Maent yn adnabod yr ysgol a’r disgyblion yn dda, ac yn gallu cefnogi disgyblion y tu allan i oriau’r ysgol. Mae darparu’r clwb ieuenctid yn galluogi cysylltiad agos â fforwm iechyd meddwl i ddisgyblion yn yr ysgol, dan arweiniad un o weithwyr Cynnydd sydd â chefndir mewn cefnogi problemau iechyd meddwl. Mae’r fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y mathau o ddarpariaeth y gellir eu rhoi ar waith yn yr ysgol neu’r gymuned i gynorthwyo pobl ifanc sy’n wynebu anawsterau yn eu bywydau.

Mae ardal anogaeth benodedig yn yr ysgol yn galluogi amrywiaeth o asiantaethau allanol i gynnig cymorth a chyngor sy’n ymateb i anghenion disgyblion a rhieni. Er enghraifft, mae asiantaethau arbenigol yn defnyddio’r lle hwn i gynnig cyngor, cwnsela ac anogaeth i rieni newydd a chymorth i rieni mabwysiadol.

Yn ogystal â bod yn ganolbwynt i’r gymuned, mae’r ysgol yn ymdrechu i ymestyn allan a cheisio cyfleoedd i gysylltu â grwpiau cymunedol er mwyn gwella a chyfoethogi profiadau i ddisgyblion. Mae partneriaeth agos â’r gymdeithas dai leol wedi galluogi’r ysgol i fanteisio ar gyllid i gefnogi prosiect wedi’i seilio ar dreftadaeth a diwylliant lleol. Mae gan y gymdeithas dai naw mil o dai yn yr ardal ac, fel y cyfryw, mae’n debygol o ddarparu tai ar gyfer nifer sylweddol i’r disgyblion a’u teuluoedd. Mae’r prosiect hwn, ynghyd â mentrau eraill, yn ffordd i gysylltu preswylwyr lleol, y gymdeithas dai a’r ysgol i hybu balchder a dyhead yn y gymuned. Mae’r grant yn ariannu prosiect wedi’i seilio ar arwyr ffilm a theledu lleol, ac fe’i sbardunwyd gan ddisgyblion ar ôl ymweliad Michael Sheen â’r ysgol.

Mae'r ysgol yn ymgysylltu â chyn-ddisgyblion llwyddiannus o'r ardal leol sydd eisiau cyfrannu i'r gymuned a wnaeth eu hannog a'u hysbrydoli. Mae'r cysylltiadau hyn yn helpu'r ysgol i sicrhau cyllid ar gyfer rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwydnwch a dyheadau disgyblion a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae'r rhaglen 'Compass for Life' yn cynnwys pob disgybl ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 i bennu dyheadau uchel ar gyfer cyfeiriad eu bywydau. Trwy gysylltiadau â phobl ysbrydoledig a llwyddiannus sydd â'u gwreiddiau ym Mhort Talbot, mae'r ysgol yn gobeithio codi dyheadau disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

**Effaith ar ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned**

- Perthnasoedd cymunedol gwell a mwy o gyd-barch rhwng dinasyddion yn yr ardal leol.
- Mynediad gwell at adnoddau sy'n cefnogi addysg a lles disgyblion y tu allan i oriau'r ysgol.
- Ymwybyddiaeth well o gymorth i rieni a theuluoedd, a mynediad gwell ato.
- Mwy o ymdeimlad o berthyn, perchenogaeth a balchder ymhlith disgyblion mewn perthynas â chymuned yr ysgol.
- Dyheadau uwch i ddisgyblion ac aelodau'r gymuned.
- Presenoldeb gwell yn y cyfnod uwchradd.

**Astudiaeth achos 3: Ysgol Gymuned Glynrhedynog: gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu hwb cymunedol â gwasanaethau cydleoledig**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gymuned Glynrhedynog yn ysgol gymysg cyfrwng Saesneg 11-16 oed, a gynhelir gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Ar hyn o bryd, mae 589 o ddisgyblion ar y gofrestr. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o gwm Rhondda Fach. Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 32%, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd cenedlaethol y sector, sef 16%. Mae'r ysgol yn nodi bod 60% o'r disgyblion yn byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 21% o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae'r ysgol yn gwesteia uned anghenion arbennig sy'n cynorthwyo disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 o bob rhan o'r awdurdod lleol sydd ag anghenion cymhleth.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Ar ôl dechrau fel y gymdeithas rhieni ac athrawon ar gyfer Ysgol Gymuned Glynrhedynog, erbyn hyn Fern Partnership yw'r grym y tu ôl i hwb cymunedol ffyniannus sydd wedi'i leoli yng nghanol Glynrhedynog.

Yn 2008, cofrestrwyd Friends of Ferndale, sef cymdeithas rhieni ac athrawon lwyddiannus, fel elusen â'r amcanion canlynol yn gysylltiedig â'i statws elusennol:

- Datblygu addysg disgyblion drwy godi arian ar gyfer eitemau a gweithgareddau y tu hwnt i'r rhai a ddarperir gan yr awdurdod lleol
- Mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol a busnesau, helpu i ddatblygu bywydau a lles y gymuned

Y sail resymegol ar gyfer sefydlu'r elusen oedd cefnogi deilliannau gwell yn Ysgol Gymuned Glynrhedynog, yn enwedig deilliannau disgyblion sydd dan anfantais tlodi, drwy weithio â theuluoedd a'r gymuned ehangach. Fel elusen, roedd y gymdeithas rhieni ac athrawon yn gallu mynd y tu hwnt i weithgareddau codi arian traddodiadol cymdeithas rhieni ac athrawon drwy wneud cais am gyllid grant.

Strategaeth yr elusen oedd:

- meithrin perthynas gadarnhaol â'r gymuned
- manteisio ar gyllid grant er budd yr ysgol a'r gymuned
- creu brand sy'n ategu llwyddiant Ysgol Gymuned Glynrhedynog
- ail-fuddsoddi cyfran o elw'r sefydliad yn yr ysgol ac mewn prosiectau perthnasol eraill
- gweithio mewn undod fel partneriaeth wirioneddol er mwyn sicrhau deilliannau o ansawdd uchel

Yn 2014, sefydlodd Friends of Ferndale bwyllgor rheoli a phenododd ymddiriedolwyr. Y rhain oedd pennaeth Ysgol Gymuned Glynrhedynog, Rheolwr Busnes yr ysgol, Cadeirydd y Llywodraethwyr a dau aelod o'r gymuned. Yn yr un flwyddyn, cyflwynodd y sefydliad dendr i fod yn ddarparwr Dechrau'n Deg. Roedd y cynnig hwn yn llwyddiannus ac agorodd darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn 2015. Yn 2015-2016, manteisiodd yr elusen ar gyllid grant i ehangu ei gwasanaethau i gefnogi dysgu yn y gymuned, yn benodol dysgu fel teulu, a oedd wedi'i leoli mewn adeilad cymunedol ger yr ysgol.

Yn 2016, daeth y sefydliad yn gwmni cyfyngedig drwy warant â statws elusennol, yn gweithredu fel 'The Fern Partnership'. Mae The Fern Partnership ac Ysgol Gymuned Glynrhedynog yn gweithio mewn partneriaeth fel ysgol, busnes yn cyflogi pobl leol a sefydliad cymunedol â gweledigaeth gyffredin i wella bywydau a phrofiad y gymuned maent yn ei gwasanaethu. Mae'r trefniadau llywodraethu'n golygu y cynhaliwyd y cysylltiad cryf ag Ysgol Gymuned Glynrhedynog.

**Disgrifiad o'r strategaeth**

Ar ôl i Ysgol Babanod Glynrhedynog gau yn haf 2016, datblygodd Fern Partneriaeth ddarpariaeth yn yr hwb cymunedol â chefnogaeth yr awdurdod lleol. Roedd rôl strategol yr awdurdod lleol yn hollbwysig o ran datblygu'r hwn. Er enghraifft, cefnogodd yr awdurdod y bartneriaeth wrth iddi fanteisio ar gyllid a llenwi ceisiadau am grantiau.

Mae'r cyfleuster yng nghanol Glynrhedynog ac yn darparu ystod o wasanaethau i'r gymuned i fynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaethau presennol sydd ar gael i gymuned Glynrhedynog. Nid yw'r bartneriaeth wedi'i lleoli yn yr ysgol mwyach, ond mewn hwb cymunedol tua milltir o'r ysgol, ond mae cysylltiad cryf rhwng y ddau gyfleuster o hyd. Mae'r hwb cymunedol yn darparu un man cyswllt i breswylwyr Glynrhedynog, ond nid yw'n darparu'r holl wasanaethau sydd eu hangen arnynt, o reidrwydd. Mae staff yn yr hwb yn rhoi cyngor ac yn gallu cyfeirio preswylwyr at y gwasanaeth mwyaf priodol.

Datblygwyd y cynnig i sefydlu hwb cymunedol wrth ymateb i'r anghenion a nodwyd yn y gymuned, ac roedd yn mynd i'r afael â'r bylchau yn y gwasanaethau a oedd ar gael yng nghymuned Glynrhedynog. Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n gydweithredol er mwyn osgoi dyblygu gwasanaethau, a'i nod yw rhoi cyfleoedd pwrpasol o ansawdd da i gymunedau, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â difreintedd a thlodi, yn y pen draw.

Erbyn hyn, The Fern Partnership yw un o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal, ac mae'n cyflogi 68 o bobl o'r gymuned ar hyn o bryd. Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi gallu cynnig prentisiaethau mewn gofal plant a busnes i gyn-ddisgyblion Ysgol Gymuned Glynrhedynog. Caiff gwaith yr hwb ei reoli gan Gyfarwyddwr y Blynyddoedd Cynnar a'r Gymuned, a'i gefnogi gan Reolwyr Cymunedol sy'n cydweithio ag ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid i

gynnig ystod eang a pherthnasol o weithgareddau a chymorth i aelodau'r gymuned leol.

Mae'r bartneriaeth yn ymgynghori â'r gymuned yn gyson i ddarganfod pa fath o wasanaethau a chymorth sydd ei angen arnynt i wella eu lles, cyfleoedd gwaith, medrau a'u gallu i gyfrannu at adeiladu'r gymuned eu hunain. Er enghraifft, ar ôl cael adborth gan bobl leol yn 2016, sefydlodd y bartneriaeth ddarpariaeth cyn-ysgol fforddiadwy a hyblyg i helpu teuluoedd i fanteisio ar addysg bellach a chyflogaeth. Mae Little Ferns, sy'n darparu ar gyfer plant a babanod o 0-5 oed, yn ddarparwr gofal plant cofrestredig ac yn cynnal 15 awr o ofal plant i blant oed ysgol.

Mae'r hwb cymunedol yn gartref i lyfrgell ddeniadol a helaeth i'r gymuned. Caiff ei chefnogi'n dda iawn ac mae wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr a'r aelodau o un flwyddyn i'r llall. Mae'r llyfrgell yn darparu gwasanaethau eraill i breswylwyr hefyd, fel adnewyddu pasys bws a darparu gwybodaeth. Mae grwpiau lleol yn defnyddio'r cyfleusterau ar gyfer cyfarfodydd a chaiff yr ystafell TG ei defnyddio ar gyfer clwb gwaith a sesiynau cymorth digidol.

Mae'r hwb cymunedol yn cyfeirio pobl leol at ystod o asiantaethau sy'n gallu cynnig cymorth a chyngor. Roedd menter ddiweddar yn cynnwys creu Bagiau Lles, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y llyfrgell a thros 20 o sefydliadau cymorth eraill sy'n gallu helpu preswylwyr ag iechyd meddwl, dyled, cymorth i deuluoedd, heneiddio'n iach, cyflogadwyedd a hyfforddiant. Yn yr un modd, mae ystod o ddigwyddiadau cymunedol yn darparu gweithgareddau a chyngor defnyddiol i bobl leol. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol yn cynnal sesiynau galw heibio addysgiadol i deuluoedd fanteisio ar wybodaeth am ofal plant, grwpiau rhieni a babanod, a gwasanaethau lleol eraill. Bu cyngor ar leihau costau gwres a chymhwysedd i gael boeleri ac insiwleiddiad i'r cartref yn effeithiol o ran sicrhau cymorth o ran biliau ynni a gwella gwresogi'r cartref.

Mae lleoli cyngor a chymorth penodol yn yr hwb yn galluogi'r ysgol i helpu disgyblion a rhieni i fanteisio arnynt yn gyflym. Yn ogystal, mae cydleoli asiantaethau yn yr hwb yn galluogi gwaith partneriaeth agos i oresgyn heriau cyffredin yn y gymuned sy'n effeithio ar ddisgyblion yn yr ysgol. Er enghraifft, trwy gydweithio â'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu sydd wedi'i leoli yn yr hwb, sefydlodd yr ysgol a'r heddlu 'Ymgyrch Bang', a oedd â'r nod o leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol o gwmpas noson tân gwyllt. Arweiniodd hyn at arddangosiad tân gwyllt cymunedol llwyddiannus a gynhaliwyd yn yr ysgol, a gostyngiad yn nifer y digwyddiadau a'r coelcerthi.

Mae cyfleuster desgiau poeth yn darparu canolfan werthfawr i fusnesau newydd lleol. Mae hyn yn galluogi pobl leol i weithio yn y gymuned leol, yn mynd i'r afael ag anghenion gofal plant ac yn cefnogi'r economi leol.

Mae partneriaethau effeithiol â darparwyr addysg i oedolion yn golygu y gall preswylwyr Glynrhedynog fanteisio ar gyrsiau perthnasol sy'n cael eu

cyflwyno yn yr hwb cymunedol neu leoliadau eraill yn Rhondda Fach. Mae’r rhain yn cynnwys cyrsiau cymorth cyntaf, diogelu, hylendid bwyd ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth, ynghyd ag ystod o gyfleoedd i ddatblygu medrau technoleg digidol.

Mae pawb sy’n cyfrannu at ddarparu gwasanaethau yn yr hwb neu’r rhwydwaith ehangach yn cyfarfod â’i gilydd un diwrnod yr wythnos i gymryd rhan mewn rhaglen ddatblygu. Mae hyn i sefydlu dull ‘un gwasanaeth cyhoeddus’ a chefnogi’r weledigaeth bod pawb yn gyfrifol am sicrhau bod pob cysylltiad yn cyfrif. Er enghraifft, mae pawb sy’n gweithio yn yr hwb yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o glefyd Alzheimer a hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i helpu pawb sy’n defnyddio’r hwb. Caiff y dull hwn ei gefnogi gan yr awdurdod lleol, ynghyd â’r gred a rennir ym mhwysigrwydd creu diwylliant cyffredin y mae staff yn uniaethu ag ef.

Mae sefydlu Fern Partnership wedi darparu dysgu gwerthfawr i’r ysgol ac ysgolion eraill sy’n ceisio datblygu partneriaeth debyg. Mae’r pwyntiau canlynol yn rhai pwysig i’w hystyried.

- Sefydlu systemau clir i reoli cyllid cymunedol sydd ar wahân i gyllid yr ysgol.
- Sefydlu amlinelliad clir o rolau a chyfrifoldebau staff sy’n gweithio ar draws yr ysgol a’r bartneriaeth. Dylai’r dyraniad amser ar gyfer pob cyfrifoldeb fod yn dryloyw.
- Penodi unigolyn, ar uwch lefel briodol, i reoli’r bartneriaeth, gan gynnwys agweddau ariannol ar y bartneriaeth. Nid yw’r pennaeth yn gyfrifol am ymgymryd â’r rôl hon.
- Cytuno ar linellau atebolrwydd clir rhwng y Bwrdd Rheoli a’r awdurdod lleol.
- Cydweithio’n agos â’r awdurdod lleol a defnyddio ei wasanaethau a’i systemau i gynorthwyo i ddatblygu darpariaeth yr hwb. Er enghraifft, gall yr awdurdod lleol gynorthwyo’r ysgol ag asesu risg, rheoli risg a phrosesau diwydrwydd dyladwy.
- Penodi unigolyn â’r profiad a’r cefndir perthnasol i ymgymryd â rôl arweinyddiaeth gymunedol a rheoli darpariaeth o ddydd i ddydd.

**Effaith ar ddisgyblion, rhieni a’r gymuned**

- Er ei bod yn anodd gwerthuso’r effaith uniongyrchol ar ddisgyblion yn Ysgol Gymuned Glynrhedynog, mae’r ysgol o’r farn bod y buddsoddiad yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar yn un y bydd yr ysgol uwchradd yn elwa arno yn y dyfodol.
- Yn yr un modd, mae ymestyn darpariaeth gymunedol a sefydlu’r Hwb Cymunedol yn effeithio ar les teuluoedd, plant a phobl ifanc yng Nglynrhedynog.
- Mae’r ysgol wedi nodi ei bod yn haws annog rhieni i ymgysylltu â gweithgareddau a gynhelir yn yr hwb nag ydyw â gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol.

- Mae sefydlu Fern Partnership wedi cyfrannu at greu swyddi mewn ardal lle mae swyddi'n brin. Yn 2014-2015, roedd y bartneriaeth yn cyflogi pump o bobl. Mae hyn wedi cynyddu i dros 60 o gyflogeion yn 2019-2020.
- Mae cyrhaeddiad y bartneriaeth wedi ymestyn i gynnwys saith o leoliadau gofal plant yn Rhondda Fach, Rhondda Fawr a Chwm Cynon.

**Astudiaeth achos 4: Arweinyddiaeth effeithiol o ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned mewn partneriaeth ag asiantaethau a gwasanaethau cydleoledig yn Ysgol Golwg y Cwm**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yw Ysgol Golwg y Cwm, sy'n gwasanaethu ardal Penrhos ac Ystradgynlais yn awdurdod lleol Powys. Ar hyn o bryd, mae 216 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu darpariaeth i blant tair oed. Mae'r ysgol yn gartref i leoliad Dechrau'n Deg a thri chyfleuster addysgu arbenigol i 30 o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig o ysgolion eraill yn y clwstwr. Mae Dechrau'n Deg yn cynnig mynediad at gymorth estynedig gan ymwelwyr iechyd ar safle'r ysgol, ynghyd ag ystod eang o gymorth arall yn yr ysgol mewn perthynas â magu plant a datblygu iaith a lleferydd.

Mae bron pob un o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac yn siarad Saesneg fel iaith yr aelwyd. Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 30%. Mae hyn ymhell uwchlaw cyfartaledd cenedlaethol y sector, sef 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 31% o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd uwchlaw cyfartaledd cenedlaethol y sector, sef 21%.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Agorodd Ysgol Golwg y Cwm yn 2012 ar ôl ad-drefnu ysgolion yn ardal Ystradgynlais. Mae'n gwasanaethu cymunedau Ystradgynlais a Phenrhos. Ers ei phenodi i'r ysgol yn 2012, mae'r pennaeth wedi datblygu a modelu gweledigaeth gref ar gyfer yr ysgol, wedi'i seilio ar ddealltwriaeth ddofn o'r gymuned mae'n ei gwasanaethu a chydnabyddiaeth na fyddai'r ysgol yn gallu cyflawni'r disgwyliadau a'r dyheadau uchel sydd ganddi ar gyfer ei disgyblion ar ei phen ei hun. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn gymuned ddysgu fywiog ag ethos cynnes, gofalgar a chynhwysol. Mae staff, disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach yn cydweithio â'i gilydd yn arbennig o dda ac yn dangos cyd-barch tuag at y rolau sydd ganddynt o ran sicrhau'r addysg orau i blant.

Mae cyfran sylweddol o ddisgyblion yn byw dan anfantais gymdeithasol ac emosiynol, ac maent yn agored i'r effeithiau y gallai'r difreintedd hwn eu cael ar eu cynnydd addysgol a'u lles. Mae'r pennaeth a'r holl staff yn credu ei bod yn hanfodol i'r ysgol gynnig cymorth ac ymyrraeth i'r disgyblion hyn a'u teuluoedd drwy weithio mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau. Bu'r pennaeth yn llwyddiannus iawn o ran cyfleu ei gweledigaeth ysbrydoledig i staff, rhieni a'r gymuned ehangach. O ganlyniad, gall teuluoedd fanteisio ar ystod eang iawn i wasanaethau a ddarperir gan yr ysgol a'i phartneriaid niferus.

Nod Ysgol Golwg y Cwm yw creu amgylchedd diogel, hapus a fydd yn helpu pob plentyn i gyrraedd ei lawn botensial. Mae arweinwyr, staff yr ysgol a'r partneriaid niferus sy'n gweithio â'r ysgol yn credu bod plant yn elwa mwyaf ar eu haddysg pan fydd teuluoedd, staff a phlant yn cydweithio â'i gilydd fel partneriaid mewn dysgu.

**Disgrifiad o'r strategaeth**

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaeth gref ac ymddiriedus iawn â theuluoedd yn y gymuned. Mae hyn yn amlwg o'r eiliad mae drysau'r ysgol yn agor yn y bore, pan ddaw rhieni i adeilad yr ysgol i fynd â'u plant i'w dosbarthiadau. Mae hyn yn galluogi'r pennaeth i gyfarch pob un ohonynt ac, yn ôl yr angen, siarad â rhieni unigol am bryderon neu ymateb i'w cwestiynau. Gall rhieni siarad â phob un o'r athrawon dosbarth hefyd wrth iddynt adael eu plant wrth ddrws yr ystafell ddosbarth. Mae'r dull drws agored hyn yn goresgyn rhwystrau drwy helpu rhieni i deimlo bod croeso iddynt yn yr ysgol ac y gallant rannu newyddion am eu plant neu fynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

Mae Ysgol Golwg y Cwm yn fwy na man lle mae plant yn dysgu. Mae hefyd yn gyfleuster sydd o fudd i deuluoedd a chymuned Penrhos ac Ystradgynlais. Mae'r cymunedau hyn wedi'u hynysu'n ddaearyddol. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r ward fwyaf difreintiedig yn yr awdurdod lleol, sydd ymhlith y 10% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ni all llawer o deuluoedd fforddio teithio i'r trefi mwy gerllaw, felly mae'r ysgol wedi dod yn lle iddynt fanteisio ar gyfeillgarwch, cymorth a chyngor i'w helpu i fagu eu plant.

Yn ogystal â darparu ystod o gymorth a gweithgareddau i rieni, mae'r ysgol yn gartref i ddarpariaeth arbenigol yn yr hwb gwasanaethau cydleoledig. Mae'n cynnwys:

- gwasanaeth cymorth trais domestig a ddarperir gan Calan, sef sefydliad y trydydd sector
- ymwelydd iechyd
- Athrawes Ymgynghorol Gymunedol Dechrau'n Deg a'r Rheolwr Comisiynu a Rhaglenni Strategol
- tîm Cymorth y Blynyddoedd Cynnar y gwasanaethau cymdeithasol
- gweithiwr cymorth o elusen Action for Children

Mae'r darparwr hyn yn cydweithio'n ddi-dor â staff yr ysgol i gynnig cymorth cyfannol i blant a theuluoedd Golwg y Cwm.

Mae'r rheolwr cymunedol yn chwarae rhan hanfodol mewn cydlynu gweithgareddau gwerthfawr dysgu fel teulu, digwyddiadau y tu allan i oriau ac ystod helaeth o wasanaethau a ddarperir gan asiantaethau partner. Mae rôl y rheolwr cymunedol yn ffactor pwysig o ran sicrhau dull cryf o ddysgu sy'n canolbwyntio ar deuluoedd sy'n nodweddiadol o Ysgol Golwg y Cwm. Er enghraifft, mae rhaglen ddysgu Teuluoedd a'r Gymuned gyda'i Gilydd (FACT) yn cynnwys gweithgareddau amrywiol i annog teuluoedd i ddysgu gyda'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau galw heibio anffurfiol, fel y bore coffi cymunedol sy'n cael ei gefnogi'n dda, neu gymorth i famau a babanod. Mae gweithgareddau cymorth eraill i deuluoedd yn cynnwys cymorth i chwilio am swyddi, ysgrifennu CV, cyngor ar les a medrau cyfweliad.

Gwna'r ysgol ddefnydd da iawn o'r ystafell hygyrch i deuluoedd. Mae rhieni'n gwybod bod croeso iddynt yno ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol, bod croeso cynnes iddynt, cymorth a digonedd o gyngor gan yr ysgol a rhieni eraill. Mewn ychydig o achosion, mae'r rhyngweithio hwn wedi helpu rhieni i wella eu medrau Saesneg llafar a magu hyder i fynychu cyrsiau coleg, y caiff rhai ohonynt eu cynnal yn yr ysgol a'u rhedeg gan sefydliadau addysg bellach sy'n bartneriaid. Trwy'r dull croesawgar ac agored hwn, mae'r ysgol wedi meithrin ymddiriedaeth rhieni ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar les eu plant. Mae cynllun adeilad yr ysgol yn ffactor sylweddol o ran helpu rhieni i deimlo bod croeso iddynt yn yr ysgol, gan fod yr ystafell i deuluoedd wedi'i lleoli ger mynedfa'r ysgol ac yn agos at ystafell y pennaeth a'r ardal gwasanaethau cymunedol. Mae hyn yn galluogi rhieni i alw heibio i'r ysgol am sgyrsiau anffurfiol, dysgu fel teulu neu, mewn rhai achosion, cyngor gan unrhyw un o'r gwasanaethau sydd wedi'i leoli yn yr adeilad.

Trwy ei pherthynas gref â theuluoedd, mae'r ysgol yn cynnig cymorth arbennig i rieni mewn amgylchiadau anodd. Oherwydd y berthynas agored ac ymddiriedus a ffurfiwyd rhwng yr ysgol a'r rhieni, yr ysgol yw'r man cyswllt cyntaf, yn aml, pan fydd angen cymorth ar riant. Gyda'i gilydd, mae'r ysgol a'r hwb gwasanaethau cydleoledig yn cynnig cymorth cyflym, targedig i deuluoedd. Ym mhob achos pan fo teulu mewn angen, mae arweinwyr yr ysgol a'r rheolwr cymunedol yn hwyluso'r gallu i fanteisio ar ystod sylweddol o wasanaethau. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys cyngor ar dai, cymorth i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â thrais domestig, y gallu i fanteisio ar weithwyr iechyd proffesiynol, grwpiau cymorth i rieni, banciau bwyd lleol, ymyriadau yn yr ysgol a chymorth neu gyngor arall a all arwain at gyfleoedd newydd ar gyfer dysgu, cymdeithasu neu ofal.

Mae'r ysgol wedi meithrin perthynas hynod effeithiol â gwasanaethau plant yr awdurdod lleol i gynorthwyo teuluoedd sy'n agored i niwed. Mae gan lawer o'r teuluoedd hyn anghenion cymhleth sy'n cael effaith sylweddol ar les, ymddygiad ac iechyd eu plant. Mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig mewn cysylltu â thîm Plant Mewn Angen yr awdurdod lleol a'r Tîm o Amgylch y Teulu i gynorthwyo bron pob un o'r teuluoedd hyn i wneud newidiadau cadarnhaol i'w bywydau.

Mae'r ysgol yn helpu rhieni i gynorthwyo eu plant gartref drwy fentrau fel Big Book Library. Cyflwynwyd y fenter hon yn dilyn sesiwn anogaeth, pan ofynnwyd i'r plant ddod â'u hoff lyfr i'r ysgol. Datgelodd hyn fod gan rai plant fynediad cyfyngedig iawn ar lyfrau gartref, felly sicrhaodd yr ysgol gyllid i ddatblygu'r gallu i deuluoedd fanteisio ar lyfrgell yr ysgol a sachau stori i deuluoedd eu defnyddio gartref.

Mewn partneriaeth â'r undeb credyd lleol, mae'r ysgol yn cynnal clwb cynilo i ddisgyblion a'u teuluoedd, gan gynnwys neiniau a theidiau. Mae hyn yn helpu i feithrin arferion pwysig yn ymwneud â sut i reoli arian ymhlith disgyblion a'u teuluoedd. Mae plant yn dysgu am gyllid ac yn cael eu gwobrwyo am fod yn gynilwyr da. Mae disgyblion yn helpu i gyfrif yr

adneuon ac mae rhieni wedi'u hymrwymo i gefnogi'r clwb cynilo. Mae'r fenter hon yn hynod lwyddiannus yn Ysgol Golwg y Cwm, a hwn yw'r clwb cynilo ysgol mwyaf llwyddiannus yn yr awdurdod lleol. Mae'r fenter wedi dylanwadu ar sefydlu cynlluniau eraill mewn ysgolion yn yr ardal.

Mae darpariaeth Dechrau'n Deg wedi'i integreiddio'n llwyr ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae trefniadaeth yr ystafelloedd dosbarth yn golygu bod grwpiau Dechrau'n Deg yn dysgu ochr yn ochr â disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn golygu bod pontio i ddarpariaeth yr ysgol gynradd yn ddi-dor i ddisgyblion a'u rhieni. Mae hefyd yn golygu bod yr ysgol yn meithrin perthynas â rhieni yn gynnar.

Mae'r gwasanaeth trais domestig sydd wedi'i leoli yn yr ysgol yn cefnogi dros 30 o deuluoedd mewn ystod o ffyrdd. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth yn helpu teuluoedd i fanteisio ar lety wedi'i rentu'n breifat ar ôl i berthynas chwalu, yn cynorthwyo teuluoedd sy'n profi sefyllfaoedd yn ymwneud ag amddiffyn plant neu blant mewn angen, ac yn rhoi cymorth arbenigol i blant sydd wedi cael eu hamlygu i drais domestig.

Mae'r elusen plant sydd wedi'i lleoli yn yr ysgol yn rhoi cymorth ymddygiadol i blant a'u teuluoedd sy'n wynebu anawsterau. Mae'r cymorth yn cynnwys y teulu cyfan i wella deilliannau i'w plant. Mae wedi'i deilwra i fodloni anghenion a heriau teuluoedd unigol ac mae'n defnyddio arbenigedd ystod o asiantaethau. Gall teuluoedd hunangyfeirio i fanteisio ar gymorth neu gallant gael eu cyfeirio gan yr ysgol.

**Effaith ar ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned**

- Medrau llythrennedd a rhifedd gwell i ddisgyblion
- Lles gwell, agweddau gwell at ddysgu a llai o orbryder ymhlith disgyblion
- Mwy o gyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol yn yr ysgol i ddisgyblion ac aelodau'r gymuned ehangach drwy'r cysylltiad cryf â'r clwb pêl-droed lleol, sy'n rhannu cyfleusterau â'r ysgol
- Cyfraddau boddhad gwell ymhlith rhieni mewn perthynas â darpariaeth yr ysgol
- Mwy o annibyniaeth, cymhelliant a hyder mewn dysgu ymhlith rhieni disgyblion sy'n agored i niwed
- Mwy o hyder ymhlith rhieni o ran manteisio ar gyflogaeth a hyfforddiant, sy'n arwain at fwy o hunan-barch
- Cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n cynorthwyo disgyblion â'u dysgu
- Mynediad gwell at gyfleusterau arbenigol i rieni mewn argyfwng neu yn ystod cyfnodau pan maent yn fwy agored i niwed

**Astudiaeth achos 5: Gwasanaethau cydleoledig yn Ysgol Gogarth**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gogarth yn ysgol arbennig dydd a phreswyl sydd wedi'i lleoli yn nhref arfordirol Llandudno. Hon yw'r unig ysgol arbennig a gynhelir gan awdurdod lleol Conwy. Ar hyn o bryd, mae 234 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 a 19 oed. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer anawsterau dysgu cymedrol a difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog neu anhwylderau ar y sbectrwm awtistig (ASD).

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ardal awdurdod lleol Conwy a daw ychydig iawn ohonynt o awdurdodau lleol cyfagos. Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 42%. Mae ychydig iawn o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod lleol.

Mae'r ysgol yn rheoli cyfleuster preswyl sy'n cynnig lleoliadau tymor byr i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig canolfan i nifer o wasanaethau allweddol eraill, gan gynnwys y tîm gwaith cymdeithasol i blant ag anableddau, y tîm allgymorth ASD, y gwasanaeth cymorth synhwyraidd a chanolfan datblygu plant Conwy. Ers yr arolygiad diwethaf, mae safle ac adeiladau'r ysgol wedi'u hailddatblygu'n sylweddol fel rhan o Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Ar ôl cael ei benodi, fe wnaeth y pennaeth gydnabod bod angen gwirioneddol am berthynas waith agosach ag asiantaethau eraill i helpu a chynorthwyo disgyblion ag ystod eang o anghenion addysgol arbennig. Tua chwe blynedd yn ôl, symudodd yr ysgol i safle ysgol newydd a adeiladwyd yn bwrpasol. Yn ystod y broses ddylunio, mynnodd y pennaeth gael mannau ychwanegol i alluogi i asiantaethau, fel ffisiotherapyddion, i gynorthwyo disgyblion yn yr ysgol. Rhoddwyd trefniadau ar waith i'r ysgol fod ar agor drwy gydol y flwyddyn er mwyn gallu manteisio ar y ddarpariaeth hon. I gynorthwyo hyn ymhellach, sicrhaodd yr ysgol fod gan y systemau TG y gallu i alluogi asiantaethau iechyd ac asiantaethau eraill i weithio'n effeithiol. Trafododd yr ysgol drefniadau ariannu ar y cyd ag asiantaethau i gyllido adnoddau.

Gan fod gan lawer o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gogarth anghenion penodol sy'n aml yn gymhleth, cydweithiodd y pennaeth yn agos â'r gwasanaethau cymdeithasol a'r awdurdod lleol i edrych ar sut gallent wella'r ddarpariaeth breswyl fel rhan o'r gwaith adeiladu newydd. Adeiladwyd cartref pwrpasol i blant â deg ystafell wely sy'n cynnig gofal seibiant. Mae'n cynnig gofal seibiant preswyl i deuluoedd a rhwyd ddiogelwch i'r awdurdod lleol pan fydd angen gofal ar blentyn. Mae'r cyfleuster hefyd yn cynnig estyniad i'r diwrnod ysgol ac yn datblygu medrau hunangymorth ac annibyniaeth disgyblion hŷn.

Roedd angen cytuno ar bwy fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb rheolaethol ac ariannol cyffredinol hefyd.  Y pennaeth sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol dros yr ysgol a'r cyfleuster gofal preswyl.  Oherwydd natur gymhleth y cyfleuster gofal preswyl ac ymglymiad staff a chyllid gan asiantaethau niferus, sefydlwyd grŵp llywodraethu pwrpasol.  Mae hwn yn cynnwys y pennaeth gwasanaethau anabledd integredig, Cyfarwyddwr Addysg Conwy, yr aelod etholedig arweiniol dros wasanaethau plant, tri llywodraethwr ysgol, aelod staff ac aelod archwilio o'r gwasanaethau cymdeithasol.

**Disgrifiad o'r strategaeth**

Fe wnaeth yr arweinwyr gydnabod, er mwyn i gydleoli ac ehangu ymgysylltiad â theuluoedd a'r gymuned fod yn llwyddiannus, roedd angen y canlynol arnynt:

- arweinyddiaeth gref a dyraniad clir o gyfrifoldeb dros feysydd allweddol
- dealltwriaeth glir o deuluoedd a'u hanghenion
- ardaloedd wedi'u dynodi'n glir sydd ag offer addas i grwpiau gwahanol weithio ynddynt
- ymrwymiad a brwdfrydedd gan bawb dan sylw
- pobl â meddylfryd debyg ac agwedd gadarnhaol
- oriau ysgol hyblyg
- parodrwydd i addasu wrth i'r daith fynd yn ei blaen
- dymuniad gan bawb i hybu annibyniaeth, gwydnwch, iechyd a lles rhieni a disgyblion

Sefydlu strwythur rheoli cryf â meysydd cyfrifoldeb wedi'u diffinio'n glir oedd un o'r pethau cyntaf a ddigwyddodd.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifoldeb uwch arweinwyr dros reoli'r safle.  Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn cadeirio grŵp fforwm amlasiantaeth sy'n cynnwys staff iaith a lleferydd, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.  Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd ac anghenion disgyblion unigol.  Mae tri phennaeth cynorthwyol.  Mae un ohonynt yn gyfrifol am 14-19, cysylltiadau galwedigaethol a gyrfaoedd, un yn gyfrifol am gyfnod allweddol 2 ac un yn gyfrifol am ddarpariaeth ac addysgeg cyfnod allweddol 3.  Yn ogystal, mae swyddog ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn arwain ar ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned.  Mae'r pennaeth yn sicrhau bod yr ysgol yn rhoi amser i wasanaethau eraill.  Er enghraifft, mae'n rhyddhau staff i fynychu cyfarfodydd ar gefnogi cynllun chwarae haf a ddarperir gan wasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol.  Mae'r dull hwn yn helpu i feithrin perthynas waith effeithiol ag ystod o bartneriaid.

Ar hyn o bryd, mae sawl asiantaeth allweddol yn rhannu safle'r ysgol.  Mae'r rhain yn cynnwys y tîm gwaith cymdeithasol anableddau integredig, y ganolfan datblygu plant, ffisiotherapi a therapi galwedigaethol, nyrsys gofal parhaus, cymorth ymddygiad, clinigau pediatrig, a gwasanaethau anableddau dysgu plant ac oedolion (CALDS) sy'n gweithio gartref gyda rhieni.  Roedd y pennaeth eisiau cydweithio ag asiantaethau eraill hefyd i gefnogi iechyd a lles rhieni a disgyblion mewn ystyr ehangach, ac felly datblygodd gysylltiadau agos â thîm datblygu chwaraeon Conwy.

Mae’r dull gwasanaethau integredig hwn yn galluogi rhieni i fynychu apwyntiadau ar y safle ar gyfer unrhyw faterion yn ymwneud ag iechyd. Nid oes llawer o darfu ar y plentyn na staff yr ysgol sy’n gweithio â’r disgyblion ac yn mynychu cyfarfodydd i rannu eu harbenigedd, lle bo hynny’n briodol. Mae’r dull tîm hwn yn cefnogi adolygiadau cywir a phwrpasol. Mae hefyd yn lleihau’r angen i anfon negeseuon e-bost ac adroddiadau niferus ymlaen llaw, gan y gall staff siarad â’i gilydd wyneb-yn-wyneb yn hawdd.

Pan fydd yr ysgol yn cynnal ei nosweithiau rhieni, mae’n gwahodd sefydliadau eraill i osod stondinau yn neuadd yr ysgol. Tra bydd rhieni’n aros, maent yn crwydro o gwmpas ac yn sgwrsio’n naturiol. Mae hyn yn helpu i chwalu camsyniadau am yr hyn y mae sefydliadau gwahanol yn ei wneud neu’n ei ddarparu mewn gwirionedd. Yn ogystal, nid yw rhieni’n teimlo eu bod yn cael eu gorlethu wrth gyfarfod â phobl newydd, gan fod llawer o’r gweithwyr proffesiynol hyn eisoes yn rhannu derbynfeydd yr ysgol, yn weladwy iawn o amgylch yr ysgol ac yn hawdd mynd atynt am sgwrs anffurfiol. Mae’r ysgol yn cyflogi ei chynorthwywyr therapi iaith a lleferydd ei hun, sy’n cynnig gweithdai digidol buddiol i rieni ar sut i ddefnyddio offer a systemau cyfathrebu eu plentyn. Mae’r dull ymarferol hwn yn cynorthwyo rhieni yn y gymuned ehangach pan fyddant yn mynd â’u plant allan. Yn wir, mae llawer o gaffis ac archfarchnadoedd lleol wedi dysgu arwyddion Makaton sylfaenol i helpu staff i gyfathrebu’n well â disgyblion

Yn ogystal, mae’r tîm cymorth ymddygiad ar y safle yn helpu i addysgu’r medrau sydd eu hangen ar ddisgyblion i gyfranogi’n llawn yn yr ysgol, gartref ac yn y gymuned. Maent yn helpu disgyblion ag anawsterau cyfathrebu penodol i nodi a chyfleu eu hanghenion. Mae hyn yn arbennig o effeithiol o ran cynorthwyo disgyblion ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig. Mae’r cydweithio agos rhwng athrawon, rhieni a therapyddion iaith a lleferydd yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd, hunanreolaeth, medrau byw gweithredol a medrau cymunedol disgyblion yn arbennig o dda. Mae eu gwaith ar ddadsensiteiddio yn galluogi disgyblion â phroblemau penodol yn gysylltiedig ag awtistiaeth i wisgo gwregysau diogelwch neu sbectol ac amddiffynwyr clustiau heb gynhyrfu. Mae therapyddion iaith a lleferydd yn gwahodd rhieni i wylio sesiynau eu plant ac yn darparu adnoddau gwerthfawr. Mae staff therapi rhyngweithio yn cydweithio â rhieni’n wythnosol ac yn rhannu ffilmiau o sesiynau dysgwyr i gymharu arfer a llunio targedau ar y cyd. Yn benodol, mae rhieni’n gwerthfawrogi’r cyfle i gyfarfod yn wythnosol i fwynhau cacen a choffi. Mae hyn yn eu galluogi i ddatrys problemau, adolygu cynnydd a manteisio ar adnoddau neu gyngor. Mae hefyd yn cael gwared â’r ofn o siarad â staff iechyd neu wasanaethau cymdeithasol mewn amgylchedd anghyfarwydd.

Mae’r ysgol yn deall pwysigrwydd meithrin perthynas gref â rhieni a’u plant. I helpu i feithrin y cysylltiadau hyn, mae staff yn ymgynghori â rhieni’n rheolaidd i ddarganfod beth sydd ei eisiau arnynt mewn gwirionedd ar ben y gwaith pwrpasol ag asiantaethau eraill. Mae arweinwyr yn dadansoddi’r ymatebion ac yn edrych ar ffyrdd i fodloni anghenion iechyd a lles rhieni, a

chynnig cymorth ymarferol ag unrhyw fater arall. Er enghraifft, mae staff yn cydweithio'n agos â thîm datblygu chwaraeon Conwy, sy'n cynnal gweithgareddau yn ymwneud ag iechyd a ffitrwydd yn Ysgol Gogarth bob wythnos. Mae'r tîm datblygu chwaraeon yn cydweithio'n agos â'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned i gynnal teithiau e-feicio i rieni o gwmpas Pen-y-Gogarth, ynghyd â gweithgareddau ffitrwydd hwyliog, fel Zumba a chylchau hwla pwysol.

Mae'r pennaeth yn cydnabod pwysigrwydd bod â staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda er mwyn iddynt gynnig cymorth pwrpasol i rieni a disgyblion. Mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn gwnsler hyfforddedig ac yn cynnig cymorth mewn galar. Bu hyn yn amhrisiadwy o ran cefnogi lles emosiynol pawb, o ystyried y cyflyrau byrhau bywyd sydd gan ddisgyblion ag anghenion cymhleth yn aml. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfle i siarad yn agored ac yn onest mewn amgylchedd diogel a chyfarwydd.

Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n rheolaidd â busnesau a darparwyr yn y gymuned i gynnig gwybodaeth a chymorth ychwanegol i rieni. Er enghraifft, cafodd CALDS sgwrs agored a gonest â rhieni am sut beth yw gofalu am blentyn ag anabledd. Fe wnaethant ddefnyddio'r canfyddiadau i ddysgu'r ffordd orau i deilwra'r gwasanaethau i gynorthwyo rhieni â'r hyn y mae angen help arnynt ag ef mewn gwirionedd, yn hytrach na thybio eu bod yn gwybod beth oedd ei angen. Creodd hyn wasanaeth mwy pwrpasol sy'n bodloni anghenion unigol yn well. Defnyddiodd tîm datblygu chwarae Conwy ddull tebyg, ac mae'n cydweithio â rhieni plant ifanc i hybu pwysigrwydd chwarae ac i gynnig syniadau ac adnoddau defnyddiol i'w defnyddio gartref. Mae Ambiwlans Sant Ioan yn cydweithio â'r ysgol i hyfforddi rhieni mewn cymorth cyntaf sylfaenol. Dywed llawer o rieni eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ymdrin â materion a all godi o ganlyniad i gyflwr meddygol eu plant. Mae cwmni cyfreithiol lleol yn cynnal seminar ewyllysiau ac ymddiriedolaethau yn yr ysgol hefyd. Mae hyn yn helpu rhieni i ymdrin â materion ymarferol yn ymwneud â'r hyn a fydd yn digwydd i'w plant wedi iddynt farw.

**Yr effaith ar ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned**

- Mae gan ddisgyblion y medrau a'r hyder i fanteisio ar gyfleusterau chwaraeon a lleoliadau gwaith yn annibynnol. Mae gan ddisgyblion hŷn ddyheadau clir ar gyfer rhagolygon gwaith yn y dyfodol.
- Mae gwasanaethau cydleoledig yn cynnig cymorth hynod effeithiol ar gyfer medrau byw'n annibynnol.
- Mae staff o'r ysgol yn gweithio'n strategol â rhieni i fanteisio i'r eithaf ar fedrau er budd y disgyblion.
- Gall teuluoedd fanteisio ar gymorth gwerthfawr sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at eu lles a'u hyder wrth gynorthwyo eu plant.
- Mae sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn yr ysgol yn cydweithio â'i gilydd yn hyblyg gyda chyd-ddealltwriaeth o fanteision, cyfyngiadau a'r pwysau ar wasanaethau.
- Mae staff yr ysgol a'r sefydliadau partner yn gwerthfawrogi manteision

gweithio mewn partneriaeth.  Maent yn rhannu gweledigaeth ac mae ganddynt ddull sy'n canolbwyntio ar atebion i gefnogi anghenion disgyblion a'u teuluoedd.

- Mae gan yr ysgol safle cryf yn y gymuned a chaiff ei pharchu'n fawr gan fusnesau lleol.  Mae hyn wedi arwain at gynnwys disgyblion mewn hyfforddiant cymunedol a galwedigaethol.
- Mae'r ysgol yn codi ymwybyddiaeth y gymuned o anabledd a'r hyn y gall disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ei gyflawni.  O ganlyniad, caiff disgyblion eu gwerthfawrogi yn y gymuned leol.

**Astudiaeth achos 6: ‘Os ydych chi’n credu, gallwch chi gyflawni’ – meithrin perthynas gadarnhaol â theuluoedd a’r gymuned er mwyn meithrin uchelgais a gwydnwch disgyblion yn Ysgol Gymuned Cefn Hengoed**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gyfun 11-16 oed yw Ysgol Gymuned Cefn Hengoed, sydd wedi’i lleoli yn ardal Bon-y-maen/Winch Wen yn Abertawe. Mae gan yr ysgol chwe ysgol clwstwr sydd wedi’u lleoli yn nwyrain Abertawe. Ar hyn o bryd, mae 790 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae’r ysgol yn nodi bod 55% o’r disgyblion yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae cyfartaledd tair blynedd y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ychydig yn llai na 34%, sydd uwchlaw’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16%. Mae gan bron i 42% o’r disgyblion anghenion addysgol arbennig.

**Cyd-destun a chefndir i’r arfer**

Mae Ysgol Gymuned Cefn Hengoed yn ysgol gymunedol ffyniannus sy’n cydweithio’n agos â’r gymuned a theuluoedd i sicrhau bod disgyblion yn ffynnu ac yn llwyddo yn yr ysgol. Mae gan bennaeth a staff yr ysgol ddealltwriaeth gref o anghenion y gymuned a’r teuluoedd yn yr ardal mae’r ysgol yn ei gwasanaethu. Mae hyn wedi llywio’r dull strategol y mae’r ysgol wedi’i ddefnyddio i ymgysylltu â theuluoedd a’r gymuned. Caiff ei ymrwymiad i feithrin gwydnwch ac uchelgais disgyblion a’r gymuned ehangach ei adlewyrchu orau gan ethos yr ysgol, sef ‘if you can believe it, you can achieve it’. Nodwedd nodedig dros ben yw bod yr ysgol wedi cynnal ei dulliau llwyddiannus ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a’r gymuned dros y blynyddoedd.

Nod yr ysgol yw bod mor agored a hygyrch â phosibl i deuluoedd a’r gymuned. Mae’n estyn llaw i feithrin perthynas gref â theuluoedd, gan wybod bod ymgysylltu’n aml yn rhagflaenu ac yn cefnogi cyflawniad. Mae pedwar nod i’r strategaeth ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a’r gymuned, sef:

- ymgysylltu â rhanddeiliaid
- dathlu llwyddiant
- codi dyheadau
- darparu cymorth cynhwysol

**Disgrifiad o’r strategaeth**

Mae Ysgol Gymuned Cefn Hengoed wedi datblygu model arfer sy’n cynnwys teuluoedd cyn gynted ag y bydd eu plentyn yn ymuno â’r ysgol. Mae’r ysgol yn meithrin perthynas effeithiol â theuluoedd drwy nifer o fentrau ysgol gyfan, gwaith cryf fel clwstwr a digwyddiadau rheolaidd sy’n dod â theuluoedd i’r ysgol. Mae’r rhain yn cynnwys nosweithiau cymorth i rieni disgyblion ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, digwyddiadau gwybodaeth i helpu rhieni i sicrhau bod eu plant yn ddiogel rhag niwed, a sesiynau ymarferol fel rhai i helpu disgyblion i baratoi ar gyfer arholiadau.

Er enghraifft, nod digwyddiad diweddar a oedd yn cynnwys y gymuned ehangach ac ysgolion y clwstwr oedd addysgu'r gymuned gyfan am faterion diogelu. Rhoddodd y digwyddiad hwn wybodaeth am gaethwasiaeth fodern, eithafiaeth a chydlyniad cymunedol, cymorth ar gyfer cam-drin domestig a chyngor ar safonau masnach. Caiff digwyddiadau sy'n helpu'r ysgol i hyrwyddo ei diwylliant o lwyddiant a'i delwedd gymunedol eu cynnal yn rheolaidd.

Gwna'r ysgol ddefnydd hynod effeithiol o gyfryngau cymdeithasol i hybu llwyddiant disgyblion a gweithgareddau sydd o fydd i rieni a'r gymuned ehangach. Mae wedi datblygu ap ysgol i ddisgyblion a rhieni, ac mae'n cydweithio'n agos ag ysgolion cynradd y clwstwr i ddefnyddio cymhwysiad digidol i amlygu pryderon wrth, ac ar ôl, pontio i'r ysgol uwchradd. Mae'r ffocws di-baid hwn ar ymgysylltu â rhieni wedi arwain at dros 70% o rieni'n mynychu nosweithiau rhieni a digwyddiadau ymgysylltu dros y pum mlynedd diwethaf. Yn ogystal, caiff rhieni a oedd yn anodd eu cyrraedd yn draddodiadol eu hannog a'u cynorthwyo i ymgysylltu â'r ysgol drwy waith y tîm eang a phrofiadol o staff bugeiliol.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n sylweddol i ddatblygu tîm o staff sy'n cynnig cymorth, nid yn unig i ddisgyblion ond eu teuluoedd hefyd. Mae'r tîm hwn yn cynnwys Rheolwr Lles a Swyddog Cymorth Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig, sy'n cynorthwyo disgyblion a theuluoedd sy'n wynebu anawsterau sy'n cael effaith negyddol ar les a dysgu disgyblion.

Mae'r cymorth a roddir gan y Rheolwr Lles wedi'i deilwra i fodloni amgylchiadau disgyblion unigol a'u teuluoedd, ac nid yw'n cael ei ddarparu yn yr ysgol na chan yr ysgol yn unig. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn chwarae rhan hollbwysig o ran nodi a brocera cymorth effeithiol. Er enghraifft, os bydd disgybl yn dechrau colli'r ysgol, cyn cynnwys y Swyddog Lles Addysg, bydd y Rheolwr Lles yn ceisio nodi'r broblem benodol. Os yw'r mater yn ymwneud â phroblem tai, fel hylendid neu ddiffyg cyfleusterau, bydd y Swyddog Lles yn cysylltu â'r gymdeithas dai leol neu'n helpu'r rhiant i gysylltu â nhw. Trwy wneud hynny, gellir atal problemau hirdymor yn ymwneud â phresenoldeb a gall y disgybl barhau i ddysgu. Mae'r Rheolwr Lles hefyd yn cynorthwyo teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth ac yn eu helpu i fanteisio ar gwnsela a chymorth ehangach.

Mae'r Swyddog Cymorth Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig yn gweithio'n benodol â disgyblion ar y sbectrwm awtistig a'u teuluoedd, ac mae'n gysylltiad pwysig sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan rieni. Mae'n siarad â rhieni'n ddyddiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd eu plant ac yn cadw llygad ar newidiadau o ran ymddygiad disgyblion. Mae hyn yn ei galluogi i fynd i'r afael â phryderon yn gyflym mewn partneriaeth â rhieni. Mae ei dull o weithio â rhieni yn gefnogol ac yn gadarnhaol, fel nad yw rhieni'n teimlo eu bod ar fai neu'n peri trafferth i'r ysgol. O ganlyniad, mae gan rieni'r hyder i gysylltu â'r ysgol gan wybod y bydd yn gwrando ar eu pryderon ac yn ymdrin â nhw, ni waeth pa mor ddibwys y gallant fod. Maent yn cydnabod bod yr ysgol yn cydweithio â nhw mewn partneriaeth wirioneddol a chyfartal, ac maent yn adolygu ac yn mireinio dulliau'r ysgol a'r cartref gyda'i gilydd yn rheolaidd.

Caiff rolau'r Rheolwr Lles a'r Swyddog Cymorth Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig eu cyflawni mewn modd cefnogol, anfarnol ond awdurdodol. Mae teuluoedd yn ymddiried yn y staff ac yn gwybod eu bod yn eu helpu i fynd i'r afael ag anawsterau er lles eu plant. Mae'r Rheolwr Lles a'r Swyddog Cymorth Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig yn cydweithio'n agos â theuluoedd i feithrin gwydnwch ymhlith disgyblion sy'n wynebu anawsterau. Maent yn cyfathrebu â rhieni'n rheolaidd ac yn aml yn cael eu croesawu i'w cartrefi. I rieni, mae'r aelodau staff hyn yn cynnig gobaith, hyder a'r gred y bydd eu plant yn hapus ac yn llwyddo yn yr ysgol, er y gall hyn ymddangos yn her sylweddol ar adegau. Mae hyn yn lleihau pryder rhieni ac, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar les a llwyddiant eu plant.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cronfa les i gynorthwyo teuluoedd mewn angen. Mae disgyblion a staff yn codi arian drwy weithgareddau codi arian, ac mae bwletin wythnosol i'r staff yn gofyn am eitemau ar gyfer y banc bwyd lleol. Trwy ddefnyddio'r gronfa hon a thalebau o'r banc bwyd, gall y staff gynorthwyo teuluoedd pan fo angen. Er enghraifft, yn Rhagfyr 2019, defnyddiwyd Cronfa Argyfwng y Nadolig i ddarparu talebau bwyd ac anrhegion i saith o deuluoedd a oedd yn profi anawsterau.

Mae Sesiynau Ymgysylltu Cefn Hengoed a'r Clwstwr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni ac aelodau'r gymuned elwa ar adnoddau ffisegol ac adnoddau dynol yr ysgol. Mae staff yn cynnig ystod o sesiynau dysgu defnyddiol yn fisol, sydd wedi'u targedu i ennyn diddordeb rhieni a'r gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau ar TGCh sylfaenol a diogelwch ar y rhyngrwyd, mathemateg ariannol, prydau bwyd mewn 30 munud, gyrfaoedd gydol oes a dwyieithrwydd. Mae'r Sesiynau Ymgysylltu â'r Clwstwr yn dystiolaeth o gryfder y gwaith clwstwr rhwng Ysgol Gymuned Cefn Hengoed a'r ysgolion cynradd lleol. Mae'r ysgolion yn cydweithio â'i gilydd yn arbennig o effeithiol ac yn cydnabod mai'r ffordd fwyaf effeithiol i oresgyn heriau economaidd-gymdeithasol cyffredin yw rhannu arbenigedd ac adnoddau, lle bo hynny'n bosibl. Er enghraifft, maent yn cyfuno cyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i benodi swyddog lles i weithio ar draws y clwstwr.

Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ac yn parchu'r medrau, doniau a'r adnoddau y gall y gymuned eu cynnig i'r ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn cyfranogi'n fawr ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol ac yn sicrhau bod materion cymunedol ar flaen trafodaethau a phenderfyniadau. Mae aelodau'n gwerthuso cynnydd yr ysgol yn rheolaidd fel partner cymunedol allweddol a darparwr adnoddau cymunedol. Mae dau gynghorydd lleol yn aelodau o'r corff llywodraethol, un ohonynt yn gadeirydd, ac mae llywodraethwyr o'r gymuned, yr awdurdod lleol a rhieni yn cynnig her a chymorth i'r ysgol er mwyn iddi ehangu fel ysgol gymunedol.

Yn ddiweddar, dyfarnwyd cyllid i'r ysgol i ddatblygu hwb i ddarparu gwasanaethau hamdden a chymunedol yn yr ysgol. Mae Prosiect Hwb Cymunedol Cefn Hengoed wedi cynnwys yr ysgol, yr awdurdod lleol a sefydliadau'r trydydd sector yn cydweithio â'i gilydd i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i adeiladu cyfleusterau chwaraeon a chymunedol a fydd o fudd i'r ysgol a'r gymuned. Trwy adeiladu ar ymgysylltiad cymunedol

arbennig o gryf Ysgol Cefn Hengoed, y weledigaeth yw y bydd y cyfleusterau newydd yn cynnig cyfle i gydleoli gwasanaethau yn yr ysgol, gan ddod â'r ysgol, teuluoedd a'r gymuned yn agosach fyth at ei gilydd.

**Yr effaith ar ddisgyblion, rhieni a'r gymuned**

- At ei gilydd, mae lles ac ymgysylltiad disgyblion yn rhagorol.
- Mae disgyblion yn cyflawni ymhell uwchlaw'r disgwyl, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed ac yn wynebu heriau yn eu bywydau.
- Mae disgyblion yn deall bod ganddynt rôl bwysig o ran sicrhau bod eu cymuned yn lle sy'n parchu ac yn cefnogi unigolion.  Maent yn cyfrannu'n feddylgar at brosiectau a mentrau cymunedol i helpu'r rhai sydd mewn angen.
- Mae rhieni'n hyderus o ran y cymorth a'r cyngor a gânt gan yr ysgol.
- Caiff teuluoedd eu grymuso i gynorthwyo eu plant yn ystod cyfnodau anodd.
- Mae'r gymuned yn falch o gyflawniad disgyblion ac mae'n cyfrannu at godi eu dyheadau a'u hunan-barch.
- Trwy weithio mewn partneriaeth â rhieni a'r gymuned, mae'r ysgol wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol yng nghanran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Mae troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gostwng yn y gymuned.

**Astudiaeth achos 7: Rôl y Tîm o Amgylch y Teulu yn Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg 11-16 oed yw Ysgol Pen-y-Dre, a gynhelir gan awdurdod lleol Merthyr Tudful. Mae 591 o ddisgyblion ar y gofrestr. Bu'r ffigur hwn yn cynyddu dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r cyfartaledd tair blynedd ar gyfer nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros 30%, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16%.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch sy'n cynnwys ystâd dai fawr y Gurnos, yn ogystal â nifer o gymunedau'r cymoedd ar gyrion Bannau Brycheiniog. Daw disgyblion o chwe ysgol gynradd partner, yn bennaf. Mae'r ysgol yn nodi bod 70% o'r disgyblion yn byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf ac yn dod o gefndir gwyn Prydeinig.

Canran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yw tua 45%, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd cenedlaethol y sector, sef 23%.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Er 2012, bu'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus i sicrhau y caiff rhieni eu cynnwys yn ystyrlon mewn sawl agwedd ar fywyd yr ysgol, a'u bod yn hyderus y bydd yr ysgol yn cyflawni'r gorau i'w plant a'r gymuned mae'n ei gwasanaethu. Mae gan yr ysgol bolisi drws agored ac mae wedi gweithio'n llwyddiannus i wella cyfathrebu a chryfhau'r berthynas â rhieni. Yr ysgol oedd y cyntaf yng Nghymru i ennill yn y Gwobrau Addysg Broffesiynol ar gyfer ei gwaith â rhieni a'r gymuned.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Mae ymgysylltu'n effeithiol â theuluoedd yn flaenoriaeth yn Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre. Mae llawer o rieni wedi cael profiadau negyddol o addysg ac roeddent yn gyndyn i ymgysylltu â'r ysgol uwchradd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r ysgol wedi sefydlu strategaethau hynod effeithiol i agor yr ysgol i rieni a chael gwared ar unrhyw ragdybiaethau negyddol sydd ganddynt mewn perthynas ag addysg. Mae'r gwaith hwn yn dechrau mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd y clwstwr. Mae'r ysgol uwchradd yn meithrin cysylltiadau â rhieni tra mae eu plant yn yr ysgol gynradd drwy ystod o brosiectau clwstwr diddorol a bywiog. Caiff cyllid y Grant Datblygu Disgyblion ei ddefnyddio i gyflogi dau gynorthwywyd cymorth dysgu, sydd wedi'u lleoli yn yr ysgol uwchradd ond sy'n gweithio ar draws ysgolion cynradd y clwstwr i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed.

Ar ôl pontio i'r ysgol uwchradd, caiff disgyblion a'u teuluoedd eu cynorthwyo'n dda gan dîm o staff sydd â rôl benodol i helpu i wella lles, yn enwedig ymhlith disgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Mae'r tîm hwn, dan arweiniad swyddog y Tîm o Amgylch y Plentyn, yn chwarae rhan bwysig yn meithrin perthynas gadarnhaol â theuluoedd, yn enwedig y rhain a all fod yn wynebu heriau yn eu bywydau. Maent yn cynnal ymweliadau

cartref i fagu ymddiriedaeth a meithrin perthynas â rhieni. Er enghraifft, os bydd disgybl yn absennol, bydd aelod o'r tîm yn cynnal ymweliad ar ôl diwrnod cyntaf yr absenoldeb. Yn achos disgyblion sy'n fwy agored i niwed, bydd y tîm yn ymweld cyn gynted ag y daw'r ysgol yn ymwybodol o'r absenoldeb.

Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn chwarae rhan bwysig yn helpu teuluoedd i ddeall pam y gallai fod angen cymorth penodol arnynt drwy eu cyfeirio at asiantaethau allanol, fel gwasanaethau cymdeithasol neu sefydliadau'r trydydd sector. Yn aml, mae rhieni'n poeni y gallai hyn beri problemau iddynt ond, gyda chymorth y Tîm o Amgylch y Teulu, cânt eu helpu i ddeall pam y bydd cymorth ychwanegol o fudd i'w bywydau ac yn helpu eu plant â'u haddysg. Gellir ond cyflawni hyn oherwydd y modd mae'r tîm wedi meithrin perthynas gref ac ymddiriedus iawn â theuluoedd.

Gan fod yr ysgol yn ymwybodol iawn o'r gwahaniaeth y gall ymgysylltu'n effeithiol â theuluoedd ei wneud i lwyddiant plentyn, mae'n fodlon archwilio dulliau gwahanol i wella ymgysylltu â theuluoedd. Er enghraifft, er mwyn meithrin cysylltiadau â theuluoedd sy'n gyndyn i ymweld â'r ysgol neu swyddfeydd yr awdurdod lleol, trefnodd y Tîm o Amgylch y Teulu gyfarfodydd â rhieni mewn canolfannau cymunedol lleol. Yn yr un modd, treialodd yr ysgol 'gymorthfeydd' i rieni yn y ganolfan siopa a'r swyddfa bost leol. Roedd rhieni'n gallu galw heibio i siarad â staff y Tîm o Amgylch y Teulu i drafod cynnydd eu plant. Er bod y mentrau hyn yn llwyddiannus i ddechrau, canfu'r ysgol nad oeddent yn gynaliadwy'n ariannol nac yr un mor llwyddiannus ag ymweliadau â'r cartref. Trwy werthuso, canfu'r ysgol fod ymweliadau â'r cartref yn galluogi ymyrraeth a chyngor pwrpasol mwy effeithiol i deuluoedd sy'n wynebu anawsterau. Er enghraifft, mae ymweliadau â'r cartref yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i staff helpu rhieni i lenwi ffurflenni cais i fanteisio ar gymorth gan yr awdurdod lleol, budd-daliadau a thai. Mae hyn yn sicrhau bod amgylchiadau cartref disgyblion a'u teuluoedd yn sefydlog ac yn gallu cael effaith gadarnhaol ar les, cynnydd a chyflawniad yn yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi archwilio ffyrdd i ddatblygu cymorth pwrpasol ymhellach i fodloni anghenion penodol iawn disgyblion yn yr ysgol. Er enghraifft, ar y cyd ag un o'r penaethiaid cynorthwyol, mae'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi trefnu noson rieni yng Ngharchar y Parc. Galluogodd hyn i ddisgybl rannu llwyddiannau â rhiant sydd yn y carchar. Cafodd hyn effaith sylweddol ar y disgybl, gan iddo gynyddu ei hunan-barch a'i ddyheadau, a'i helpu i ystyried llwybrau ar gyfer gyrfa yn y dyfodol. Helpodd iddo gynnal cysylltiadau pwysig â'i deulu hefyd yn ystod cyfnod o straen sylweddol i'w deulu. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cynllunio i adeiladu ar lwyddiant yr arfer hon drwy sicrhau cynllun cymorth i ddisgyblion mewn sefyllfaoedd tebyg.

**Yr effaith ar ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned**

- Mae'r ysgol yn hyderus bod ymgysylltu'n well â theuluoedd wedi cyfrannu at welliant mewn safonau disgyblion unigol.
- Bu gwelliannau mewn presenoldeb ac agweddau at ddysgu ymhlith rhai

o'r disgyblion mwyaf agored i niwed.

- Mae cynyddu ymgysylltu â theuluoedd wedi arwain at wella ymddygiad, agweddau at ddysgu a gwydnwch.
- Mae nifer gynyddol o rieni'n ymweld â'r ysgol yn hyderus, ac yn gwybod y byddant yn cael cymorth anfarnol a buddiol gan staff yr ysgol.
- Mae'r rhyngweithio gwell rhwng staff a rhieni wedi cael effaith gadarnhaol ar enw da'r ysgol yn y gymuned.
- Mae gwaith y Tîm o Amgylch y Teulu wedi cyfrannu at leihau absenoldeb ymhlith disgyblion.
- Trwy gydweithio ag ystod o asiantaethau, mae gan rieni ddealltwriaeth well o ba gymorth sydd ar gael iddynt gan yr ysgol a gwasanaethau ehangach.

**Astudiaeth achos 8: Ymgysylltu â theuluoedd a'u cynorthwyo drwy waith y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yn Ysgol Gynradd Glen-boi**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gynradd Gymuned Glen-boi wedi'i lleoli yn Aberpennar yng Nghwm Cynon yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan yr ysgol yn un o'r rhai mwyaf difreintiedig yn yr awdurdod lleol. Mae gan yr ysgol 133 o ddisgyblion ar y gofrestr. Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw bron i 58%, ac mae gan 48% o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae'r ysgol yn gartref i ddosbarth arbenigol i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Roedd penodi Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd (SYâTh) tra medrus ac effeithiol yn 2015 yn gam pwysig tuag at helpu'r ysgol i gyflawni ei gweledigaeth fel ysgol gymunedol. Llywiwyd y penderfyniad hwn gan adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn ar arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais (2012). Cydnabu'r pennaeth a'r corff llywodraethol y byddai Ysgol Gynradd Glen-boi yn elwa ar nifer o strategaethau a nodwyd yn yr adroddiad, yn enwedig y rhai a oedd yn canolbwyntio ar fanteision ymgysylltu â rhieni a gofalwyr. Ers hynny, mae'r ysgol wedi cymryd nifer o gamau pwysig i ddatblygu ac ymgorffori ymgysylltiad hynod effeithiol â theuluoedd a'r gymuned i gryfhau'r berthynas rhwng teuluoedd a'r ysgol.

Mae'r ysgol yn credu y bu penodi'r SYâTh yn hollbwysig o ran gwella'r berthynas â rhieni. Cymaint oedd llwyddiant y strategaeth hon fel bod yr ysgol wedi cyrraedd man lle mae rhieni'n rhan annatod o gymuned yr ysgol. Er 2015, bu ymgysylltu â rhieni'n flaenoriaeth yn y cynllun gwella ysgol, ac mae'r holl staff yn ei ystyried yn hanfodol i lwyddiant disgyblion. Mae'r holl staff, yn enwedig y SYâTh, yn ymdrechu i feithrin perthynas gref rhwng y cartref a'r ysgol. Daw hyn â manteision sylweddol i ddisgyblion a'u teuluoedd.

**Disgrifiad i'r gweithgarwch/strategaeth**

Roedd penodi'r SYâTh yn benderfyniad strategol a oedd yn cynnwys y corff llywodraethol. Ystyriodd y llywodraethwyr a'r pennaeth gyllid ar gyfer y rôl a'r manteision posibl i'r ysgol yn ofalus. Roedd gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth ddofn o heriau'r gymuned, ac roedd yn cydnabod potensial penodi rhywun a all weithio i ymgysylltu â theuluoedd a'u cynorthwyo.

Rhoddodd Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd Llywodraeth Cymru (2015) arweiniad gwerthfawr a helpodd yr ysgol i ffurfio rôl y SYâTh. Yn benodol, roedd yr ysgol yn cydnabod ei bod yn bwysig penodi rhywun â'r medrau, gwerthoedd a'r ymroddiad priodol i wella cyfleoedd bywyd plant a theuluoedd sy'n cael eu gwasanaethu gan yr ysgol.

O ganlyniad i gynllunio meddylgar, mae rôl y SYâTh wedi'i theilwra i fodloni anghenion Ysgol Gynradd Glen-boi a'r gymuned.  Mae hyn yn cynnwys bod â dealltwriaeth gref o'r gymuned, teuluoedd a'r heriau maent yn eu hwynebu.  Mae gan y SYâTh broffil uchel yn yr ysgol a'r gymuned, ac mae'n aelod uchel ei pharch o'r corff llywodraethol.

Mae'r SYâTh yn cydweithio'n agos iawn â'r pennaeth i sicrhau y caiff gwybodaeth bwysig am ddisgyblion a'u teuluoedd ei chyfleu'n brydlon i staff, ac y caiff atebion eu rhoi ar waith yn gyflym.  Mae'r berthynas waith gref â'r SYâTh yn galluogi'r pennaeth i ganolbwyntio ar arwain addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yr ysgol.  Mae'r SYâTh yn canolbwyntio ar gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd drwy bartneriaethau â sefydliadau cymunedol a gwasanaethau perthnasol yr awdurdod lleol, fel y fenter Teuluoedd Cydnerth.

Mae'r SYâTh yn weladwy iawn a gall rhieni fynd ati ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.  Fel hyn, gall rhieni godi materion neu roi gwybod iddi am unrhyw heriau y gallai plentyn fod yn eu hwynebu.  O ganlyniad, mae'r ysgol yn ymateb i anawsterau'n gyflym ac yn rhagweithiol.  Er enghraifft, gall y SYâTh gysylltu â'r asiantaethau perthnasol yn gyflym neu roi gwybod i athrawon nad yw'r plentyn yn y meddylfryd iawn i ddysgu, o bosibl.

Mae rôl y SYâTh yn un triphlyg.  Yn gyntaf, mae'n gweithio ag ystod o asiantaethau i gynnig cymorth a gwasanaethau y gall pob disgybl a'u teuluoedd fanteisio arnynt.  Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn yn cynnwys:

- ymgysylltu'n llwyddiannus â'r rhaglen Teuluoedd ac Ysgolion Gyda'i Gilydd (FAST) mewn partneriaeth ag Achub y Plant
- cydweithio â mentrau sy'n cael eu rhedeg gan y gymdeithas dai leol a Valley Kids i ddarparu gweithgareddau cyfoethogi i blant, eu teuluoedd a'r gymuned
- darparu rhaglen dysgu fel teulu a chyrsiau magu plant effeithiol i gynorthwyo rhieni i ymgysylltu â dysgu eu plant
- trefnu rhaglenni llythrennedd i'r teulu neu ddosbarthiadau i rieni a phlant ddysgu sut i goginio prydau bwyd iach a fforddiadwy
- darparu ymyriadau penodol i wella lles disgyblion
- creu lle yn yr ysgol y gall teuluoedd a'r gymuned ei ddefnyddio

Yn ail, mae'r SYâTh yn gweithio mewn ffordd dargedig i fodloni anghenion teuluoedd penodol i'w helpu i oresgyn heriau sylweddol.  Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gweithgareddau fel y canlynol.

- Mae'n cysylltu â sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu offer cartref a dodrefn hanfodol i helpu rhieni i ofalu am eu plant.  Mae'r SYâTh yn dosbarthu talebau bwyd brys i deuluoedd mewn angen hefyd.
- Fel y dirprwy swyddog diogelu, mae'r SYâTh yn cydweithio â thîm cymorth integredig i deuluoedd yr awdurdod lleol a gweithwyr cymdeithasol sy'n gysylltiedig â theuluoedd penodol i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â diogelu a materion teuluol eraill.  Mae'r SYâTh yn mynychu cynadleddau achos, cyfarfodydd grwpiau craidd a

chyfarfodydd adolygu 'Teuluoedd Cydnerth' yn rheolaidd.
- Mae'r SYâTh yn cynnig cymorth ychwanegol i deuluoedd yn ystod cyfnodau anodd, gan gynnwys cynorthwyo teuluoedd sydd mewn perygl o symud i loches i ferched, helpu teuluoedd sy'n newydd-ddyfodiaid i'r ardal i ymgartrefu yn y gymuned, a chynorthwyo teuluoedd ar ôl profedigaeth, gan gynnwys trefnu cwnsela.

Yn olaf, mae'r SYâTh yn cydweithio â grwpiau o rieni i'w helpu i sefydlu grwpiau rhieni, fel y Cyngor Rhieni a Chyfeillion Glen-boi.  Mae hyn wedi helpu i ddatblygu gallu arweinyddiaeth ymhlith rhieni ac aelodau'r gymuned. Mae rhieni a fu'n rhan o'r grwpiau hyn wedi magu hyder, hunan-barch a medrau trefnu gwerthfawr, y maent yn eu defnyddio mewn rolau cymunedol eraill.

**Yr effaith ar ddisgyblion, rhieni a'r gymuned**

- Mae lles disgyblion wedi gwella er 2016, ac mae disgyblion sy'n rhan o ymyriadau yn gwneud cynnydd da o ran eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.
- Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella ers cyflwyno strategaethau i ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned.
- Mae teuluoedd yn ymgysylltu'n arbennig o dda â'r ysgol ac yn cyfrannu'n weithredol ar ddysgu eu plant.
- Caiff ymgysylltu â theuluoedd ei nodi'n agwedd gref iawn ar waith yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi torri'r cylch o ymgysylltiad gwael â rhieni ac wedi newid amgyffrediad rhieni tuag at bwysigrwydd addysg.

**Astudiaeth achos 9: Dull wedi'i lywio gan dystiolaeth i ddatblygu ymgysylltu â theuluoedd yn Ysgol Gynradd Pencoed**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gynradd Pencoed wedi'i lleoli ym mhentref Pencoed yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae tua 597 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed. Mae gan yr ysgol 25 o ddosbarthiadau, gan gynnwys pedair uned adnoddau dysgu i ddisgyblion ag ystod o anawsterau dysgu. Y cyfartaledd treigl tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 15%, sydd ychydig bach islaw cyfartaledd cenedlaethol y sector, sef 18%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 29% o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd uwchlaw cyfartaledd cenedlaethol y sector, sef 21%. Daw ychydig o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ac mae ychydig ohonynt yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Mae pennaeth yr ysgol wedi cynnal ymchwil helaeth i fanteision ymgysylltu â theuluoedd. Darganfu bod y manteision i'r ysgol yn cynnwys cynnydd yng nghyrhaeddiad disgyblion, presenoldeb uwch, perthynas well â rhieni, gwella'r ysgol yn ehangach ac ystod eang o fanteision i'r gymuned leol. Er mwyn helpu i sefydlu arferion effeithiol, mae'r ysgol wedi edrych yn fanwl ar waith Charles Desforges (2003), sy'n datgan mai cyfraniad rhieni yw'r ffactor unigol mwyaf yng nghyrhaeddiad plant.

Yn 2010, aeth y pennaeth i ymweld ag awdurdod lleol Bradford, gan fod ganddynt arfer ragorol mewn gwaith ymgysylltu â theuluoedd. Gwelodd fod yr holl ysgolion yn yr awdurdod lleol yn cyflogi swyddog ymgysylltu â theuluoedd (SYâTh) i arwain yr ysgol yn yr agwedd hon ar ei gwaith. Yn ogystal, roedd yr awdurdod lleol yn arwain hyfforddiant staff ar weithgareddau ymgysylltu ac yn trefnu sesiynau dysgu fel teulu i rieni. Yn dilyn yr ymchwil werthfawr hon, penododd yr ysgol ei SYâTh ei hun ac aeth arweinwyr ati i wella eu harfer eu hunain.

Yn 2018, aeth y pennaeth a'r SYâTh i ymweld ag Efrog Newydd fel rhan o grŵp a ariannwyd gan y British Council, i edrych ar amrywiaeth o ysgolion cymunedol a sut roeddent yn ymgysylltu â'u teuluoedd. Daethant â syniadau defnyddiol yn ôl i'w helpu i gryfhau darpariaeth ym Mhencoed ymhellach. Roedd hyn yn cynnwys cydnabod mai ysgolion yw canolbwynt y gymuned leol, ac edrych ar sut mae gwasanaethau'n cydweithio'n agos â'i gilydd i sicrhau bod plant yn barod i ddysgu wrth iddynt gyrraedd yr ysgol. Gwelsant, mewn ysgolion gwasanaeth llawn yn Efrog Newydd, fod teuluoedd wedi'u cynnwys yn fawr yn addysg plentyn a bod ymgysylltu â theuluoedd wrth wraidd y model ysgolion cymunedol.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Defnyddiodd arweinwyr ac aelodau staff eraill y wybodaeth a gafwyd o'u hymchwil helaeth i ddechrau gwella darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd yn yr ysgol. Roedd arweinwyr yn cydnabod, er mwyn i'w gwaith

fod yn llwyddiannus ym Mhencoed, bod angen y canlynol arnynt:

- dull ysgol gyfan
- arweinyddiaeth gref
- dealltwriaeth o deuluoedd a'u hanghenion
- amser i ganolbwyntio ar gymorth
- ymrwymiad a brwdfrydedd gan bawb dan sylw
- newid meddylfryd
- oriau ysgol hyblyg

Mae'r blaenoriaethau hyn wedi llywio strategaeth gynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, sydd wedi llywio gwaith yr ysgol dros y naw blynedd diwethaf.

Rhan bwysig o hyn yw'r gwaith ymgysylltu â rhieni sy'n digwydd cyn i'r disgyblion ddechrau yn yr ysgol. Er mwyn helpu i feithrin yr ymgysylltiad cynnar hwn â rhieni, mae SYâTh yr ysgol, gyda chymorth rhieni sy'n wirfoddolwyr, yn cynnal grŵp wythnosol i fabanod a phlant bach sy'n denu cynulleidfa fawr. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ymwelwyr iechyd lleol, sy'n cyfeirio rhieni lleol a fyddai'n elwa ar y ddarpariaeth hon. Mae rhieni sy'n mynychu yn gwerthfawrogi'r cyfle i feithrin perthynas gynnar â'r ysgol a magu cyfeillgarwch â rhieni eraill. Mae'r ysgol yn elwa drwy ddod i adnabod anghenion y plant a'u teuluoedd cyn iddynt ddechrau yn y dosbarth meithrin. Gall staff gyfeirio rhieni at gymorth ychwanegol hefyd, yn ôl yr angen. Yn ogystal, er mwyn cryfhau'r berthynas gynnar hon â theuluoedd, mae'r SYâTh yn ymuno â staff pan fyddant yn ymweld â chartrefi'r holl ddisgyblion cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae hyn ar gyfer disgyblion oed meithrin yn bennaf, ond mae hefyd yn berthnasol i bob disgybl sy'n ymuno â'r ysgol ar unrhyw adeg. Mae'r ymweliadau hyn yn helpu i hyrwyddo rhaglen deulu gref yr ysgol, ac mae hefyd yn galluogi'r SYâTh i amlinellu disgwyliadau'r ysgol o ran sut mae'n disgwyl i rieni ymgysylltu â'r ysgol a dysgu eu plentyn.

Mae'r Fforwm Rhieni yn grŵp sefydledig sy'n cyfarfod bob hanner tymor, ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth deuluol o bob grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Mae'r SYâTh yn mynychu pob cyfarfod, a chaiff y pennaeth ei gwahodd yn aml hefyd. Mae rhieni'n pennu'r agenda ac yn trafod ystod eang o faterion yn ymwneud â'r ysgol. Yn aml, rhaid i arweinwyr yr ysgol ateb cwestiynau ac ymholiadau, a chaiff eu hymatebion eu trafod gan y grŵp mewn cyfarfodydd dilynol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grŵp fel 'bwrdd seinio' hefyd pan fydd am ymgynghori â rhieni ar benderfyniadau'r ysgol, er enghraifft ar sut i wella cyfathrebu â rhieni. Mae'r corff hwn yn rhoi llais cryf a gwerthfawr i rieni yn yr ysgol, a gall aelodau drafod materion yn ymwneud â'r ysgol mewn fforwm agored a gonest.

Mae'r pennaeth yn trefnu boreau coffi misol y gall unrhyw aelod o'r teulu eu mynychu. Cynulliadau anffurfiol yw'r rhain sy'n rhoi cyfle i rieni alw heibio i drafod unrhyw bryderon neu syniadau â hi a'r SYâTh dros ddiod a byrbryd. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfle hwn i ymgysylltu â staff ar y lefel hon. Mae staff yr ysgol yn nodi y gallant fynd i'r afael â phryderon yn gynnar mewn amgylchedd hamddenol. Mae hefyd yn helpu i oresgyn y rhwystrau

rhwng staff yr ysgol a rhieni. Fel arfer, mae tua 15 o aelodau teuluoedd yn mynychu pob sesiwn.

Mae'r SYâTh yn cynnal ystod eang o ddigwyddiadau a rhaglenni, sy'n galluogi rhieni ac aelodau teulu i gyfrannu'n llawn at addysg eu plentyn. Mae'n targedu llawer o'r rhaglenni dysgu fel teulu er mwyn sicrhau y gall rhieni ymgysylltu â dysgu eu plentyn, gan felly ganolbwyntio ar ddeall a datblygu medrau penodol. Er enghraifft, mae 'Beyond the Book Bag' yn ceisio cynorthwyo rhieni â'u dealltwriaeth o fedrau darllen cynnar, ac mae 'Funky Phonics' ac 'Impact in writing' yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion. Mae hefyd yn trefnu rhaglen Ysgol y Goedwig i Deuluoedd ar foreau Sadwrn, gan mai dyma'r amser mwyaf cyfleus i deuluoedd gymryd rhan, yn aml. Mae'r sesiynau hyn yn rhoi cyfle i rieni gwblhau gweithgareddau dysgu awyr agored i ddatblygu medrau cydweithio, gwydnwch a chyfathrebu â'u plant. Yn ogystal â phenwythnosau, mae rhaglenni dysgu fel teulu ar gael yn yr ysgol yn ystod gwyliau'r haf hefyd i barhau i gynorthwyo teuluoedd.

Mae llawer o waith diweddar y SYâTh wedi canolbwyntio ar ddatblygu ymhellach y cysylltiadau rhwng yr ysgol, disgyblion a theuluoedd, a'r gymuned ehangach drwy raglen yr ysgol, 'The Generation Games'. Rhaglen yw hon sy'n hyrwyddo dysgu sy'n pontio'r cenedlaethau'n llwyddiannus, ac mae wedi'i lleoli mewn cartref gofal preswyl lleol. Mae disgyblion iau, ynghyd â'u rhieni neu aelodau eraill o'r teulu, yn ymweld â'r cartref bob wythnos. Yna, cânt eu 'cyfeillio' ag un o'r preswylwyr yn y cartref gofal ac maent yn cwblhau gweithgareddau gwahanol bob wythnos, sy'n cyfateb yn agos i anghenion y disgyblion a'r preswylwyr. Mae SYâTh yr ysgol yn cydweithio'n agos â'r rheolwr digwyddiadau yn y cartref gofal i lunio rhaglen chwe wythnos, ac i sicrhau eu bod yn cynllunio gweithgareddau symbylol a boddhaus. Mae'r gweithgareddau'n rhoi cyfle i'r disgyblion a'r preswylwyr gyfathrebu â'i gilydd a rhannu gwybodaeth am eu bywydau a'u hatgofion, ynghyd â datblygu medrau eraill gan gynnwys medrau corfforol, creadigol, personol a chymdeithasol. Caiff Tease, sef ci 'Pets as Therapy' yr ysgol, ei gynnwys yn y rhaglen hefyd, ac mae'n gwella lles y disgyblion a'r preswylwyr fel ei gilydd. Mae'r rhaglen wedi cryfhau'r berthynas ddysgu dwyochrog rhwng cenedlaethau gwahanol ac mae wedi helpu i ddatblygu cydlyniad cymdeithasol yn y gymuned leol.

Mae gan y disgyblion sy'n cymryd rhan ddealltwriaeth lawer gwell o anghenion pobl eraill ac maent wedi magu mwy o hyder wrth gyfathrebu â grwpiau o genedlaethau gwahanol. Bu'r adborth gan y rhieni a'r aelodau teulu sydd wedi cymryd rhan yn gadarnhaol, ac mae rhai ohonynt wedi mynegi diddordeb mewn parhau i gynorthwyo'r henoed ar ôl i'r rhaglen ddod i ben. Mae'r preswylwyr dan sylw wedi elwa'n fawr, gan ddangos lefelau uwch o les a symbyliad. Mae hon yn enghraifft dda iawn o waith cymunedol lle cafwyd manteision niferus.

Mae gan yr ysgol dîm ymgysylltu â theuluoedd i ddisgyblion, sy'n cyfarfod â staff yn fisol i drafod syniadau ar gyfer sut i ymgysylltu â'r gymuned. Mae disgyblion yn cymryd eu rolau o ddifrif ac, yn ddiweddar, maent wedi cyfrannu at drefnu bore coffi a gemau elusennol a chinio Nadolig ar fore

Sadwrn i breswylwyr lleol. Dosbarthodd y disgyblion y gwahoddiadau yn y gymuned â llaw. Mae'r gwaith hwn wedi helpu llawer o ddisgyblion i oresgyn swildod wrth ymgysylltu â phobl hŷn, ac mae wedi eu helpu i ddatblygu ymdeimlad cryf o ymwybyddiaeth gymunedol.

Mae'r ysgol yn gwerthuso effaith ei gwaith ymgysylltu â theuluoedd yn rheolaidd. Mae'n cynnig ystod eang o ffyrdd i rieni rhoi adborth ar ôl digwyddiadau a hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys gwerthusiadau ysgrifenedig traddodiadol a chyfleoedd i gofnodi eu teimladau gan ddefnyddio symbolau a phlotio eu hadborth ar darged. Mae staff yn gofyn i rieni lenwi holiaduron mewn nosweithiau rhieni hefyd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cwestiynau'n canolbwyntio ar bynciau penodol y mae'r ysgol yn ceisio adborth arnynt.

**Yr effaith ar ddisgyblion, rhieni a theuluoedd**

- Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â'u cyfoedion.
- Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol ac mae ychydig iawn o waharddiadau.
- Mae presenoldeb wedi gwella'n raddol ers cyflwyno strategaethau i ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned.
- Mae'r rhaglen ymgysylltu â theuluoedd wedi cael effaith fesuradwy a sylweddol ar gyrhaeddiad disgyblion. Er enghraifft, mae'r rhaglen Impact in Writing wedi arwain at fwy na hanner y plant yn gwneud cynnydd y tu hwnt i'r lefelau disgwyliedig yn eu medrau ysgrifennu.
- Mae perthynas gref rhwng yr ysgol a'r rhan fwyaf o rieni. Mae rhieni'n ymddiried yn y staff ac yn teimlo bod ganddynt lais cryf y mae arweinwyr yn gwrando arno.
- Mae preswylwyr lleol yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi gan yr ysgol a'u cynnwys yng ngweithgareddau'r ysgol.

**Astudiaeth achos 10: Bodloni anghenion teuluoedd a chymuned Ysgol Gynradd Millbrook drwy gynllunio strategol a hunanwerthuso effeithiol**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 3-11 oed yw Ysgol Gynradd Millbrook, a gynhelir gan Gyngor Dinas Casnewydd. Mae'n gwasanaethu cymuned Betws yng Nghasnewydd, sy'n ardal sydd dan anfantais economaidd.

Y cyfartaledd treigl tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 27%, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd, sef 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod tua 72% o'r disgyblion yn byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Canran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yw tuag 18%. Mae hyn islaw ffigur cenedlaethol y sector, sef 21%. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf a daw llawer ohonynt o gefndir gwyn Prydeinig. Nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Mae gan Ysgol Gynradd Millbrook ddull sefydledig o weithio â theuluoedd a'r gymuned ehangach. Arweiniwyd y dull hwn gan arweinyddiaeth uchelgeisiol, sy'n cydnabod y rôl bwysig a chanolog y gall yr ysgol ei chwarae o ran cynorthwyo teuluoedd a dylanwadu ar newid yn y gymuned. O'r cyfnod cynharaf yn ei datblygu'n ysgol gymunedol, roedd y dull ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned wedi'i seilio ar dystiolaeth ac ymchwil i arfer genedlaethol a rhyngwladol effeithiol. Roedd penodi Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yn 2009 yn gam pwysig tuag at helpu'r ysgol i feithrin perthynas werthfawr â theuluoedd, yn enwedig y rhai a oedd yn anodd eu cyrraedd neu'n wynebu amgylchiadau anodd.

Dros amser, mae'r ysgol wedi datblygu dealltwriaeth gref dros ben o'r gymuned. Yn ystod y ddwy i dair blynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi cydnabod bod natur y gymuned a'i heriau penodol yn newid. Roedd mwy o blant yn dangos gorbryder, yr oedd rhywfaint ohono'n gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl rhieni. Yn fewnol, roedd staff yr ysgol wedi newid ac roedd cyfleoedd a strategaethau newydd ar gael a all helpu'r ysgol i gyflawn ei gweledigaeth. Er enghraifft, mabwysiadodd yr ysgol rôl y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yn gynnar. Helpodd hyn i'r ysgol feithrin perthynas gref â theuluoedd drwy raglenni dysgu fel teulu. Fe wnaeth yr ysgol feithrin y wybodaeth a'r gallu i'r holl staff ddod yn gyfrifol am ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned hefyd. Ailedrychodd yr ysgol ar ei dull o ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. O ganlyniad, cymerodd y camau canlynol:

- ymestyn ei dull amlasiantaeth i ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, iechyd, yr heddlu a sefydliadau'r trydydd sector, fel Achub y Plant a Barnado's
- penodi Swyddog Lles i ganolbwyntio ar weithio â theuluoedd sy'n agored i niwed sy'n wynebu heriau emosiynol ac iechyd meddwl

- sicrhau bod yr holl athrawon a staff cymorth dysgu yn cymryd cyfrifoldeb dros ymgysylltu â theuluoedd disgyblion yn eu dosbarthiadau, ochr yn ochr â'r cymorth dwys sy'n cael ei ddarparu gan y Swyddog Lles

**Disgrifiad o'r strategaeth**

Mae'r ysgol wedi datblygu Fframwaith Partneriaeth Cymunedol sy'n cynorthwyo'r pennaeth, staff a phartneriaid cymunedol i gynllunio'n strategol eu dull ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd.  Mae'r fframwaith yn nodi'r egwyddorion allweddol sy'n tanategu gwaith Ysgol Gynradd Millbrook. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- gweledigaeth a nodau ar y cyd ar draws pob un o'r partneriaid
- gwerth partneriaethau, integreiddio a chydweithio
- creu sefydliad dysgu cymunedol â chyfleoedd dysgu i bawb, gan gynnwys disgyblion, staff, rhieni a phartneriaid
- grymuso rhieni a phlant i weithredu
- ethos sy'n hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol

Mae'r egwyddorion hyn yn golygu y bydd gan yr ysgol a'i phartneriaid gyfeirbwynt cyffredin i werthuso eu gwaith.  Bydd hyn, yn ei dro, yn llywio'r cynllunio strategol ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu ethos cryf a dealltwriaeth ymhlith y staff o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ysgol gymunedol.  Un o'r gwerthoedd allweddol yw i'r holl staff fod yn gadarnhaol, edrych ar atebion yn hytrach na heriau a rhoi arwyddair yr ysgol ar waith, sef 'everyone should have a yes in their heart'. Mae hyn yn golygu bod pob aelod staff yn gyfrifol am ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned.  Mae wir yn ddull ysgol gyfan sy'n cael ei hwyluso drwy berthynas waith agos iawn rhwng yr athrawon dosbarth, cynorthwywyr cymorth dysgu, teuluoedd a gwasanaethau sydd wedi'u cydleoli yn yr ysgol.

Mae bloc cymunedol dynodedig yn gartref i dîm o asiantaethau'r awdurdod lleol sy'n cynorthwyo Ysgol Millbrook i fod yn ysgol sy'n ymateb i anghenion ac uchelgeisiau'r gymuned.  Maent yn cydweithio'n agos â'r pennaeth a'r staff i wneud gwahaniaeth i gyfleoedd bywyd plant a theuluoedd yn y gymuned.  Mae rhai asiantaethau wedi'u lleoli'n barhaol yn Ysgol Millbrook, fel Dechrau'n Deg, y Tîm Datblygu Chwarae a'r Tîm Iaith a Chwarae, Teuluoedd yn Gyntaf a 'Stay and Play' yn Ysgol Millbrook.  Mae gwasanaethau eraill yn rhannu lle swyddfa ac yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.  Mae'r rhain yn cynnwys Heddlu Gwent, nyrs yr ysgol, y swyddog lles addysg a dwy elusen genedlaethol i blant, sef Achub y Plant a Barnado's.  Mae'r ysgol a'i phartneriaid yn cydnabod y modd y mae cydleoli gwasanaethau'n eu helpu i gydweithio â'i gilydd i rannu gwybodaeth a chynnig cymorth ac ymyrraeth brydlon i fynd i'r afael â heriau.  Er enghraifft, mae'r ysgol, mewn partneriaeth â Teuluoedd yn Gyntaf, yn cynorthwyo perthynas sy'n gofalu am ddisgybl yn yr ysgol ac yn aros am gyfeiriad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae ymarferydd profiadol dros ben â chefndir mewn iechyd meddwl yn

cefnogi iechyd a lles emosiynol disgyblion a rhieni. Mae'n helpu rhieni disgyblion â gorbryder i ddatblygu strategaethau y gallant eu defnyddio gartref. Mae hen ystafell ddosbarth wedi dod yn ystafell breifat hygyrch a chroesawgar i deuluoedd, sy'n cynnig lle i rieni ofyn am gyngor, cymorth a chyfeillgarwch. Mae mentrau fel y Caffi Darllen wythnosol poblogaidd yn adeg i rieni ddarllen â'u plant a chymdeithasu â rhieni eraill. Mae bod â'r ganolfan hon i rieni wedi gwneud gwahaniaeth i deuluoedd unigol, yn enwedig y rhai sy'n wynebu amgylchiadau personol heriol a all effeithio ar les a chyflawniad eu plant.

Dros amser, mae rhaglenni sefydledig dysgu fel teulu wedi helpu rhieni i ddod o hyd i gyflogaeth. Yn ei dro, mae hyn wedi cyfrannu at les economaidd teuluoedd. Yn yr un modd, mae'r rhaglen dysgu fel teulu wedi cynorthwyo rhieni i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth yn y gymuned. Er enghraifft, maent wedi ennill cymwysterau hylendid bwyd a gwybodaeth am ddiogelu er mwyn sicrhau bod plant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a drefnir gan rieni yn cael eu hamddiffyn. Mae'r grŵp rhieni, Friends of Millbrook, wedi sefydlu nifer o fentrau sydd wedi cael croeso mawr gan deuluoedd a phlant ym Metws. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu undeb credyd a threfnu digwyddiadau Nadolig cymunedol yn annibynnol ar yr ysgol.

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gref o anghenion y gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu. Mae'n gwybod bod angen adolygu a diwygio strategaethau ymgysylltu'n rheolaidd i fodloni heriau cyfnewidiol cymuned sy'n profi caledi economaidd-gymdeithasol sylweddol. Mae'r ysgol wedi dod yn hwb cryf yn y gymuned, gan ddarparu addysg, cymorth i rieni ac ystod o wasanaethau cymorth i deuluoedd. Mae'r Fframwaith Partneriaeth Cymunedol, ynghyd â hunanwerthuso trylwyr, yn sicrhau bod Ysgol Gynradd Millbrook yn parhau i roi anghenion ei theuluoedd a'i chymunedau wrth wraidd blaenoriaethau'r ysgol.

**Yr effaith ar ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned**

- Gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau
- Gostyngiad sylweddol yn nifer y cyfeiriadau diogelu
- Gwelliant mewn presenoldeb ers cyflwyno strategaethau ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned
- Gwella medrau, hyder a hunan-barch rhieni sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu fel teulu
- Cynyddu gallu rhieni i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth a threfniadaeth yn y gymuned
- Cynyddu nifer y gweithgareddau cymdeithasol dan arweiniad y gymuned sy'n ennyn diddordeb disgyblion a'u teuluoedd
- Sefydlu mentrau sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a theuluoedd yng nghymuned Betws, fel darparu undeb credyd dan arweiniad y gymuned

**Astudiaeth achos 11: Ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn Ysgol Heulfan**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Heulfan wedi'i lleoli yng Ngwersyllt, yn awdurdod lleol Wrecsam. Mae 378 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 44 o blant oed meithrin sy'n mynychu ar sail ran-amser. Mae gan yr ysgol 12 dosbarth oed cymysg. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth ag adnoddau, o'r enw Y Canol, sy'n cynnwys tri dosbarth i 23 o ddisgyblion rhwng 3 ac 16 oed ag ystod eang o anghenion dysgu cymhleth. Mae darpariaeth ychwanegol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen, y mae gan y rhan fwyaf ohonynt anhwylder dieiriau ar y sbectrwm awtistig. Mae llawer o'r disgyblion hyn yn teithio o'r tu allan i ddalgylch traddodiadol yr ysgol.

Mae'r cyfartaledd treigl ar gyfer y tair blynedd diwethaf yn golygu bod tua 30% i ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwchlaw cyfartaledd cenedlaethol y sector (18%).

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac yn siarad Saesneg. Mae tua 7% o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel ail iaith ac yn datblygu cymhwysedd yn Saesneg. Nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 21% o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal o ddifreintedd cymdeithasol ac economaidd yn Wrecsam. Yn 2006, pan benodwyd y pennaeth presennol, roedd arweinwyr yn sylweddoli bod wir angen gwella ymgysylltiad yr ysgol â rhieni a'r gymuned.

Ar ôl uno'r ysgolion babanod ac iau, cydnabu arweinwyr a llywodraethwyr y rôl bwysig y gallai'r ysgol ei chwarae i bontio'r bwlch rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn sicrhau y gallai disgyblion, teuluoedd a grwpiau cymunedol gydweithio â'i gilydd yn fwy cynhyrchiol. Roedd yn amlwg nad oedd rhieni'n teimlo'n gyfforddus yn mynychu gweithdai traddodiadol wedi'u seilio ar ddysgu na nosweithiau rhieni ffurfiol. Roedd yn ymddangos bod diwylliant o amheuaeth oherwydd, yn hanesyddol, nid oedd llawer o rieni wedi cael y profiad gorau o fod yn yr ysgol ac, mewn llawer o achosion, yn teimlo eu bod wedi cael eu siomi gan y system addysg.

**Disgrifiad o'r strategaeth**

Ar ôl i staff fynychu digwyddiad dysgu proffesiynol yn canolbwyntio ar ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, penderfynodd yr ysgol ddefnyddio Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd Llywodraeth Cymru yn gatalydd ar gyfer newid. Yn ogystal, gweithiodd y pennaeth yn galed i greu diwylliant agored a gonest sy'n wirioneddol gwerthfawrogi safbwyntiau

rhieni. Roedd penodi staff blaengar i swyddi allweddol a chreu diwylliant ysgol gyfan a oedd yn adlewyrchu agwedd gadarnhaol yn hanfodol. Mae gan dri phennaeth cynorthwyol weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned wedi'u diffinio'n glir fel rhan o'u rôl, ac mae'r pennaeth yn rhoi cymorth a hyfforddiant priodol i'r holl staff i roi'r newid hwn ar waith. Mae gan uwch arweinwyr rolau penodol sy'n cefnogi dull ysgol gyfan, ac i sicrhau bod gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu'r ysgol yn bodloni anghenion rhieni'n llwyddiannus. Mae'r ysgol yn defnyddio dull strategol ar gyfer partneriaethau cymunedol ac yn cyfuno adnoddau'n llwyddiannus. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith mentrau ac yn defnyddio partneriaid cymunedol yn effeithiol i ategu eu gwaith ymgysylltu â theuluoedd. Mae arweinwyr yn deall bod angen i'r ysgol gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol a meithrin perthynas gref â grwpiau eraill yn yr ardal, gan gynnwys grwpiau ffydd. Er enghraifft, aeth disgyblion y dosbarth Derbyn i'r gwasanaeth Dydd y Cofio ger y Senotaff.

Roedd cefnogaeth ac ymgysylltiad llywodraethwyr yn hanfodol i lwyddiant y dyfodol. Mae cadeirydd y llywodraethwyr yn ffigur â phroffil uchel yn lleol ac mae rhieni'n teimlo'n gyfforddus yn mynd ato. Mae'r holl lywodraethwyr yn gweld pwysigrwydd yr ysgol wrth wraidd ei chymuned ac yn ystyried data academaidd yn rhan fach o lwyddiant yr ysgol. Maent yn edrych ar ba mor dda mae'r ysgol yn ategu'r cynnydd mae disgyblion yn ei wneud o'u mannau cychwyn gwahanol, a pha mor dda mae'r ysgol yn cefnogi eu lles. Mae llywodraethwyr yn weladwy iawn o amgylch yr ysgol ac yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu rheolaidd, gan gynnwys rhai gyda rhieni. Cânt drafodaethau â disgyblion yn rheolaidd i ddarganfod beth sy'n gweithio'n dda, yn eu barn nhw, a beth y gellid ei wella.

Mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion, eu teuluoedd ac aelodau'r gymuned ehangach yn llwyddiannus mewn nifer o wahanol ffyrdd.

**Agor y drysau i grwpiau cymunedol lleol**

Sylweddolodd y pennaeth fod angen i'r ysgol gael ei hystyried fel 'y lle i fynd' yn y gymuned. Roedd yn awyddus i gydweithio'n agosach ag asiantaethau eraill a grwpiau cymunedol lleol. I'r perwyl hwn, mae Dechrau'n Deg yn defnyddio adeilad yr ysgol ac yn rhannu ei hadnoddau. Mae hyn yn helpu plant ifanc i ymgartrefu'n gyflym ym mywyd yr ysgol, gan eu bod yn gyfarwydd â'r staff a'r arferion. Mae'r ysgol yn cynnig ei hadeilad i grwpiau eraill yn rhad ac am ddim. Er enghraifft, mae grŵp yr eglwys, 'Pebbles', yn defnyddio'r ysgol unwaith yr wythnos ar gyfer gweithgareddau adrodd storïau a chrefftau. Mae'r ficer yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau, fel taith gerdded y stori'r geni yn yr eglwys leol. Mae'r geidiau yn defnyddio neuadd yr ysgol hefyd, ac mae'r 'clwb amser te' ar ôl ysgol yn defnyddio adeilad ac adnoddau'r ysgol i ofalu am ddisgyblion o 3.00 hyd 5.30.

**Cydweithio ag asiantaethau eraill**

Mae'r ysgol yn gwahodd asiantaethau perthnasol i ddefnyddio'r ysgol i fod yn ganolfan ar gyfer apwyntiadau, er mwyn arbed rhieni a disgyblion o

ddarpariaeth Y Canol rhag yr anghyfleustra o deithio ar gyfer apwyntiadau. O ganlyniad, mae gofal golwg, arbenigwyr o ysbytai Gobowen ac Alder Hey, a'r tîm ffisiotherapi, yn cynnal apwyntiadau ar y safle, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'r ysgol wedi adeiladu pwll hydrotherapi, ac mae rhieni'n codi arian yn weithredol i helpu i gael offer arbenigol i'r ysgol. Mae nyrs ysgol wedi'i lleol yn Ysgol Heulfan bedwar diwrnod yr wythnos, ac mae staff sy'n gweithio â disgyblion unigol yn mynychu'r holl gyfarfodydd â rhieni. Mae rhannu gwybodaeth ac arbenigedd yn y modd hwn o fudd enfawr i iechyd a lles disgyblion a rhieni fel ei gilydd. Mae'r system hon yn lleihau'r straen o dynnu disgyblion o'r ysgol ar gyfer apwyntiadau ac yn galluogi'r ysgol i ddod yn rhan allweddol o gynorthwyo a chyfarwyddo rhieni er mwyn iddynt fanteisio ar gymorth ychwanegol yn gyflym. Trwy agor ei drysau, mae'r ysgol wedi rhoi ei hun yng nghanol ei chymuned ac wedi ennill ymddiriedaeth rhieni. Erbyn hyn, mae llawer o rieni'n credu os yw'r ysgol yn addo rhywbeth y bydd yn gwneud hynny, ac nid ydynt yn byw mewn ofn o gael eu siomi gan y system mwyach.

Mae'r pennaeth a'r staff yn credu'n gryf fod eu rôl o ran gweithio â phlant a'u teuluoedd yn rhywbeth sy'n mynd y tu hwnt i'r diwrnod ysgol. Mae'r parodrwydd hwn i fynd y tu hwnt i'r galw yn allweddol i lwyddiant yr ysgol wrth iddi gydweithio â'i chymuned. Nid oes ymdeimlad o stigma mwyach, ac mae rhieni'n fodlon mynd at yr ysgol am gymorth ar gyfer ystod eang o faterion. Er enghraifft, erbyn hyn, gall y pennaeth lofnodi talebau i ddefnyddio'r banc bwyd lleol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â chyfleuster gofal seibiant lleol ac yn helpu rhieni i fanteisio ar ystod o wasanaethau i gefnogi eu hiechyd a'u lles meddyliol.

**Prosiectau dysgu gyda'n gilydd**

Mae staff yn gwahodd rhieni i weithio ochr yn ochr â'u plant i weld beth fuont yn ei ddysgu. Er enghraifft, nodwyd bod gwella medrau mathemateg pen disgyblion yn flaenoriaeth yn y cynllun gwella ysgol. Mae'r ysgol yn cynnal cyfres o weithdai i ddangos i rieni sut mae'n mynd i'r afael â hyn. Caiff pob dosbarth ei rhannu'n ddwy fel bod grŵp hylaw o tua 12 i 14 o ddisgyblion a'u rhieni neu neiniau a theidiau. Ar hyn o bryd, mae disgyblion y dosbarth Derbyn yn gweithio ochr yn ochr â'u rhieni i ddangos iddynt sut maent yn dysgu i adio, tynnu a chyfrifo cyfanswm rhifau. Mae hyn yn ymarferol ac yn hwyliog iawn, ac yn cynnwys chwarae gemau a bingo rhifau. Mae rhieni'n mwynhau'r sesiynau hyn yn fawr, ac mae'r bonion sylwadau yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth well o sut i gynorthwyo dysgu eu plentyn, a'u bod yn mwynhau'r ffordd hwyliog a hamddenol y caiff y sesiynau eu cyflwyno. Yn ddiweddar, cynhaliodd y disgyblion hŷn ddiwrnod ffasiynau, gan ofyn i rieni â medrau gwnïo neu grefftau helpu. Siaradodd rhieni a neiniau a theidiau am sut roedd ffasiwn wedi newid dros amser, a dangos lluniau, a rhoddodd diwrnod *'passion for fashion'* gyfle i ddisgyblion ddylunio a gwneud dillad drwy addasu hen rai. Eto, roedd yr adborth gan bawb a gymerodd ran yn gadarnhaol ac, er bod y diwrnod yn un hwyliog, dysgodd disgyblion a rhieni fedrau mathemateg a datrys problemau defnyddiol, gan gynnwys mesur a darlunio patrymau cywir.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth cyfartal ar ddatblygu medrau academaidd a chymdeithasol disgyblion a'u hymdeimlad o les.  Ar hyn o bryd, mae'r disgyblion meithrin yn cymryd rhan mewn ymweliadau wythnosol â chartref preswyl lleol i'r henoed.  Cafwyd y syniad ar ôl gwylio rhaglen deledu yn dangos menter debyg.  Mae pob un o'r plant yn mynd â bag gyda nhw, sy'n cynnwys llyfr stori, gemau a deunyddiau crefft.  Maent yn mwynhau darllen â phreswylydd, chwarae bingo anifeiliaid, tynnu lluniau a gwneud pethau yn ymwneud â'r stori.  Mae'r prosiect hwn yn datblygu hyder plant ifanc ac yn goresgyn rhwystrau ymddangosiadol yn gysylltiedig ag oedran.

**Teithiau dysgu i rieni**

Yn dilyn llwyddiant y digwyddiadau hyn, erbyn hyn, mae'r ysgol yn cynnal teithiau dysgu i rieni.  Gellir mesur llwyddiant ymdrechion yr ysgol i ymgysylltu â rhieni yn ôl y cyfraddau presenoldeb uchel ar gyfer y teithiau hyn.  Ar gyfartaledd, mae rhwng 50 ac 80 yn eu mynychu'n rheolaidd.  Mae'r teithiau dysgu yn arddangos nid yn unig beth mae eu plant yn dysgu amdano, ond hefyd yn mynd â'r rhieni i bob ardal o'r ysgol i edrych ar arddangosiadau a thrafod beth fu pob dosbarth yn ei wneud, a sut mae hynny'n cysylltu â gwella'r ysgol.  Mae adborth yn awgrymu bod hyn yn helpu rhieni i ddatblygu dealltwriaeth well o sut olwg sydd ar flaenoriaethau'r ysgol yn ymarferol.  Hefyd, mae ganddynt ddealltwriaeth well o'r dulliau addysgu a darparu sy'n cael eu defnyddio yn nosbarthiadau'r brif ffrwd a'r ganolfan adnoddau.  Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r staff a'u hymroddiad ac ymrwymiad i gynnydd academaidd disgyblion a'u hymdeimlad o les.

**Yr effaith ar ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned**

- Mae cynnydd academaidd, hyder ac ymdeimlad o werth disgyblion yn gryf.
- Mae gan ddisgyblion a rhieni ddyheadau uchel i blant fod yn llwyddiannus yn yr ysgol, mynd i'r brifysgol neu gael swydd foddhaus sy'n eu galluogi i ffynnu.
- Mae disgyblion yn gwella eu gwydnwch, hyder ac annibyniaeth.
- Mae disgyblion yn mwynhau ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddysgu ochr yn ochr â'i gilydd ac yn gwerthfawrogi barn pobl eraill.
- Mae gan rieni a disgyblion ymdeimlad gwirioneddol o berchenogaeth a balchder yn eu hysgol.
- Mae rhieni'n ymddiried yn yr ysgol ac yn ymgysylltu â hi'n fwy.
- Mae prosiectau cymunedol yn helpu disgyblion i ddeall anghenion pobl eraill
- Mae gan rieni ac athrawon ymdeimlad cryf o fod yn bartneriaid mewn dysgu.
- Mae'r ysgol yn hwb cryf yn y gymuned ac yn cynnig gwasanaethau a chymorth gwerthfawr.
- Mae staff a phartneriaid allweddol yn gweithredu fel tîm cydlynus i gefnogi ymgysylltiad cymunedol a lles rhieni a disgyblion.
- Mae gan y gymuned ymdeimlad o falchder yn yr ysgol, ac mae enghreifftiau o fandaliaeth yn brin iawn.

- Mae rhieni’n teimlo bod yr ysgol yn eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt yn hyder i fynd at y pennaeth â’r staff am ystod o faterion, yn hytrach na’r rhai sy’n ymwneud ag addysg yn unig.

## Astudiaeth achos 12: Ysgol Gynradd Tregatwg

### Gwybodaeth am yr ysgol

Mae Ysgol Gynradd Tregatwg wedi'i lleoli yn y Barri ym Mro Morgannwg. Mae 499 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 88 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Dros y tair blynedd diwethaf, y cyfartaledd treigl ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 34%. Mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18% ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 33% o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol hefyd, sef 21% ar gyfer ysgolion cynradd.

### Cyd-destun a chefndir i'r arfer

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal economaidd ddifreintiedig yn y Barri. Mae gan yr ardal y gyfradd uchaf o droseddau ieuenctid yn yr awdurdod lleol. Yn 2011, pan benododd yr ysgol y pennaeth presennol, sylweddolodd arweinwyr fod angen cryfhau ymgysylltiad yr ysgol â rhieni a'r gymuned. Gwnaethant sefydlu gweledigaeth a chenhadaeth newydd i'r ysgol, a oedd yn cynnwys ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn gonglfaen iddynt. Roedd staff a llywodraethwyr yn cydnabod y rôl bwysig y gallai'r ysgol ei chwarae o ran pontio'r bwlch rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn sicrhau y gall disgyblion, teuluoedd a grwpiau cymunedol ffynnu. Eu cenhadaeth oedd darparu hafan ddiogel, gyffrous a hapus yng nghanol cymuned Tregatwg. I lwyddo yn eu nod, mae'r staff wedi datblygu dull ysgol gyfan ar gyfer perthnasoedd ac ymyriadau, lle nad yw ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn ategyn i'w gwaith, ond yn sbardun allweddol ar gyfer popeth a wnânt. Mae staff yn ymfalchïo mewn gwrando er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi'r cymorth, parch a'r cyfleoedd sydd eu hangen ar bawb yng nghymuned yr ysgol i ddysgu, tyfu a gwneud eu gorau. Mae arweinwyr wedi penodi Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd (SYâTh) amser llawn ac wedi sefydlu tîm o staff i'w chynorthwyo â'r gwaith hwn, gan gynnwys aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth. Yn ogystal, mae arweinwyr yn dyrannu amser ac adnoddau i gefnogi a thyfu gwaith yr ysgol â theuluoedd a'r gymuned yn barhaus.

### Disgrifiad o'r strategaeth

Mae sawl ffordd mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion, eu teuluoedd ac aelodau'r gymuned ehangach yn llwyddiannus.

### Canolfan gymunedol/'Caradog's Corner'

Mae'r ysgol yn lwcus i rannu safle â'r ganolfan gymunedol leol. Sylweddolodd arweinwyr botensial ar adnodd ychwanegol hwn. Gwnaethant gydweithio â grŵp o rieni i sefydlu 'Caradog's Corner'. Grŵp elusennol yw hwn, sy'n gwasanaethu teuluoedd yn yr ysgol ynghyd ag aelodau eraill o gymuned ehangach Tregatwg. Eu nod cychwynnol oedd ennill cyllid i ymestyn cyfleusterau'r ganolfan gymunedol er mwyn i'r ysgol ddefnyddio'r ganolfan ar gyfer nifer o weithgareddau ymgysylltu â theuluoedd, gan gynnwys sefydlu caffi cymunedol. Mae'r grŵp yn gyfrifol

am redeg y ganolfan o ddydd i ddydd, ac yn rheoli archebion ar gyfer grwpiau cymunedol ehangach sy'n defnyddio'r cyfleuster i ddarparu gweithgareddau cymunedol, fel grŵp dawnsio.  Yn ystod y diwrnod ysgol, mae'r ganolfan yn ffocws ar gyfer gweithgareddau cymunedol yr ysgol.  Mae staff yn defnyddio'r lle at ystod eang o ddibenion, gan gynnwys y clwb brecwast i ddisgyblion iau, gweithgareddau dysgu fel teulu, sesiynau galw heibio am goffi i rieni, a phrosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae gan yr ysgol ffocws cryf ar leihau effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod drwy weithio'n rhagweithiol â theuluoedd a'r gymuned ehangach i wella lles, a thrwy roi ffocws cryf ar faethiad.  Mae'r ysgol yn rhan o brosiect peilot 'Food for Fuel', lle mae'n ailgylchu cynnyrch sydd wedi dyddio o archfarchnadoedd i'w ddefnyddio yng nghaffi'r ysgol, ac yn gwerthu bwyd mewn marchnad i deuluoedd ei brynu.  Arweiniodd tîm ymgysylltu â theuluoedd yr ysgol brosiect i helpu i werthu'r bwyd yn y caffi a'r siop ar sail 'talu fel y mynnwch' er mwyn annog rhieni, yn enwedig y rhai ar incwm isel, i fanteisio arno.  Disgyblion Blwyddyn 6 sy'n rhedeg y caffi, ac yn defnyddio'r cynnyrch a roddwyd i goginio bwyd maethlon i rieni ac aelodau eraill o'r gymuned leol.  Mae gan rieni le diogel i fynd lle maent yn gwybod y gallant gael bwyd a chymorth.  Mae disgyblion Blwyddyn 6 hefyd yn gwneud 'bagiau tyfu', lle maent yn rhoi ryseitiau a chynhwysion ar gyfer prydau bwyd iach.  Maent yn gwerthu'r bagiau hyn i rieni.  Mae disgyblion yn defnyddio'r arian maent yn ei godi i dalu am eu parti 'prom' diwedd blwyddyn.

**Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf**

Yn ystod gwyliau'r haf, pan na all yr ysgol gynnig brecwast a chinio am ddim i ddisgyblion, gall teuluoedd gael trafferth fforddio a chael bwyd i ddarparu diet iach i'w plant, yn aml.  Yn ogystal, gall disgyblion wynebu ynysigrwydd cymdeithasol a diffyg symbyliad deallusol, sydd fel arfer yn cael eu darparu gan weithgareddau cyfoethogi'r ysgol neu deuluoedd.  Gall hyn gyfrannu at ledu'r bwlch cyrhaeddiad ymhlith disgyblion.  Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn, mae'r ysgol yn cynnig Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf i sicrhau y gall teuluoedd sy'n agored i niwed fanteisio ar gymorth yn ystod y chwe wythnos o wyliau.  Mae'r ysgol yn defnyddio grant Llywodraeth Cymru i dalu'r holl gostau.  Staff cymorth o'r ysgol sy'n cynnal y rhaglen am dair wythnos gyntaf gwyliau'r haf.  Mae'r oedolion hyn yn gweithio yn yr ysgol eisoes, ac felly'n adnabod y disgyblion a'u hanghenion penodol yn dda.  Yn ogystal, mae staff arlwyo lleol yn darparu brecwast a chinio maethlon i bob disgybl sy'n bresennol.  Mae staff yn trefnu ystod eang o weithgareddau addysgol, hwyliog ac yn annog disgyblion a'u teuluoedd i fod yn fwy egnïol a bwyta'n iach.  Mae'r ysgol yn defnyddio sefydliadau lleol i helpu â'r gweithgareddau.  Mae'r rhain yn cynnwys clybiau criced lleol a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.  Yn ystod y rhaglen, gwahoddodd yr ysgol rieni i gymryd rhan hefyd.  Achubodd yr ysgol ar y cyfle hwn i'w galluogi i fanteisio ar wasanaethau pwysig, fel yr undeb credyd lleol, Teuluoedd yn Gyntaf, y gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd a Dechrau'n Deg.  Yn ystod haf 2019, manteisiodd 92 o ddisgyblion ar y rhaglen.

**Teuluoedd ac Ysgolion gyda'i Gilydd**

Un o fentrau mwyaf llwyddiannus yr ysgol fu'r prosiectau Teuluoedd ac Ysgolion gyda'i Gilydd (FAST). Prosiect Achub y Plant yw hwn, sydd â'r nod o wella dysgu a pherthnasoedd drwy ddod â rhieni, plant, athrawon a'r gymuned ehangach at ei gilydd. Mae'n dod â theuluoedd at ei gilydd mewn ffordd gadarnhaol, gefnogol ac anfarnol. Creodd arweinwyr dîm FAST a oedd yn cynnwys staff, rhieni ac aelodau o'r gymuned leol, a chafodd staff hyfforddiant ar y dull hwn. I ddechrau, nododd yr ysgol grwpiau o ddisgyblion a theuluoedd sy'n agored i niwed i'w targedu. Yna, mae'r teuluoedd hyn yn cymryd rhan mewn rhaglen ar ôl ysgol sy'n para wyth wythnos i adeiladu ar gryfderau'r teulu a'r gymuned. Nod y prosiect yw grymuso rhieni, yn hytrach na defnyddio dull rhagnodol. Mae gweithgareddau'n cynnwys rhoi amser un-i-un gwerthfawr i rieni â phlant unigol, bwyta prydau bwyd gyda'i gilydd, trafod materion teuluol, siarad am broblemau ehangach a chymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog i'r teulu. Mae swyddog un o'r eglwysi lleol a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn chwarae rhan fawr yn y gwaith hwn. Mae hyn yn helpu i gryfhau'r berthynas ag aelodau allweddol o'r gymuned. Mae'r tîm yn manteisio ar gyllid i rieni i'w helpu i ddatblygu medrau, fel gyrru a chwnsela. Mae gan yr ysgol lawer o hanesion o lwyddiant yn ymwneud â pherthnasoedd gwell ymhlith teuluoedd, mwy o hunan-barch ymhlith rhieni a disgyblion, a rhieni'n dod o hyd i waith.

**Dysgu fel teulu**

Mae mwyafrif y rhieni yn yr ysgol yn ddi-waith ac yn methu dod o hyd i waith. Gall eu hunan-barch fod yn isel ac, yn aml, nid oes ganddynt yr hyder i gynorthwyo eu plant eu hun â'u haddysg. Cydnabu'r ysgol y rhan bwysig y gall ei chwarae o ran ymgysylltu â rhieni, teuluoedd a'r gymuned ehangach i wella eu lles a rhoi cyfle iddynt ddysgu medrau newydd. Mae staff wedi llunio a cheisio cyrsiau pwrpasol i fodloni anghenion rhieni. Mae cyrsiau wedi cynnwys rhai Saesneg a mathemateg, dysgu ar gyfrifiadur, gwnïo, coginio, Cymraeg, hylendid bwyd, cymorth cyntaf a chynllunio ariannol. Mae'r ysgol naill ai'n cynnal yr hyfforddiant yn y ganolfan gymunedol ar y safle neu'n cyfeirio rhieni at ganolfannau addysg lleol eraill.

**Yr Ardd**

Er bod yr ysgol ar safle eang, nid oes ganddi unrhyw fannau gwyrdd. I helpu i fynd i'r afael â hyn, mae arweinwyr wedi sicrhau perchenogaeth o ddarn o dir yn gyfagos at yr ysgol i'w ddatblygu fel gardd ysgol ac ystafell ddosbarth awyr agored. Mae manteision arfaethedig y prosiect hwn wedi cynnwys nid yn unig ddarparu lle gwyrdd i ddisgyblion a'u teuluoedd, ond hefyd cynnwys aelodau o'r gymuned leol mewn datblygu medrau garddio ac adeiladu. Cydweithiodd yr ysgol â grŵp cymunedol lleol, sef Barry Family Foundation, i ymgysylltu â rhieni a gwirfoddolwyr eraill o'r gymuned leol i wireddu'r weledigaeth. Roedd llawer o'r gwirfoddolwyr hyn wedi dioddef anhwylder straen ôl-drawmatig. Darparodd y sefydliad hyfforddiant i'r gwirfoddolwyr mewn iechyd a diogelwch a'u helpu i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen i greu'r lle a gwneud adnoddau fel meinciau, cysgod awyr

agored a phwll dŵr.  Trodd y tîm ddarn o dir segur, a oedd wedi gordyfu, yn fan sy'n hyrwyddo lles meddyliol a chorfforol disgyblion, staff a theuluoedd fel ei gilydd.  I ariannu'r fenter, sicrhaodd yr ysgol gyllid gan y Loteri Genedlaethol a busnes lleol, sef Dow Silicones Limited.

**Yr effaith ar ddarpariaeth a safonau**

- Nododd yr ysgol ostyngiad yn nifer y digwyddiadau a adroddwyd gartref yn ystod gwyliau'r haf ar ôl darparu Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf.
- Crybwyllodd bron pob un o'r rhieni a gymerodd ran mewn arolwg ymgysylltiad gwell â'r ysgol ac effaith ariannol gadarnhaol a oedd wedi'u helpu i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â gwyliau'r haf.
- Mae rhieni a gymerodd ran yn y rhaglen Teuluoedd ac Ysgolion gyda'i Gilydd wedi gallu cyfathrebu â'u plant yn fwy effeithiol ac yn fwy hyderus.
- Mae dyheadau rhieni a disgyblion wedi gwella.
- Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a rhieni sy'n anodd eu cyrraedd wedi gwella.
- Datblygwyd perthynas gref ac ymddiriedus rhwng grwpiau cymunedol, gan gynnwys yr heddlu lleol, a theuluoedd lleol.
- Bu rhieni a fu'n ddiwaith am gyfnod hir yn llwyddiannus o ran dod o hyd i waith ar ôl cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu fel teulu.
- Mae ymwybyddiaeth a medrau rhieni, yn ymwneud â materion fel bwyta'n iach a sut i gynorthwyo eu plant gartref, wedi cynyddu.
- Mae lles, hyder a hunan-barch rhieni sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu fel teulu wedi gwella.
- Datblygwyd balchder a pherchenogaeth y gymuned ar ôl creu'r Ardd.
- Mae gwirfoddolwyr o'r gymuned a weithiodd ar yr Ardd wedi datblygu medrau allweddol a gwella eu lles a'u hyder.
- Cafodd cyfranogwyr brofiad gwaith gwerthfawr i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl diweithdra tymor hir.

# Atodiad 2: Sail dystiolaeth

## Mae canfyddiadau'r arolwg hwn wedi'u seilio ar ddadansoddiad o dystiolaeth o:

- Graffu ar adroddiadau arolygu
- Ymweliadau ag 20 o ysgolion y nodwyd, gan ddefnyddio tystiolaeth arolygu, eu bod yn ysgolion cymunedol llwyddiannus/yn dangos nodweddion ysgol gymunedol
- Cyfweliadau â 14 o benaethiaid cynradd, pum pennaeth uwchradd ac un pennaeth ysgol arbennig
- Grwpiau ffocws â rhieni a disgyblion
- Cyfweliadau â staff ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned
- Cyfweliadau â swyddogion awdurdodau lleol sy'n gweithio ag ysgolion cymunedol
- Cyfweliadau â phartneriaid o sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio ag ysgolion cymunedol
- Ystod o ymchwil genedlaethol a rhyngwladol ar ysgolion cymunedol
- Craffu ar bolisi Llywodraeth Cymru o 2001 i 2020

## Ymwelwyd â'r ysgolion canlynol yn rhan o'r arolwg hwn:

Ysgol Gynradd Gymuned Tregatwg, Bro Morgannwg
Ysgol Gymuned Cefn Hengoed, Abertawe
Ysgol Gymuned Glynrhedynog a Fern Partnership, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Glen-boi, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd a Meithrin Gymuned Graig-y-Rhacca, Caerffili
Ysgol Gynradd Maindee, Casnewydd
Ysgol Gynradd Millbrook, Casnewydd
Ysgol Gynradd Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Uwchradd Pen y dre, Merthyr Tudful
Ysgol Gynradd Gymuned Rhosymedre, Wrecsam
Ysgol Gynradd Sandfields, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Gynradd Severn, Caerdydd
Ysgol Bae Baglan, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Gymraeg Brynsierfyl, Sir Gâr
Ysgol Gogarth, Conwy
Ysgol Golwg y Cwm, Powys
Ysgol Heulfan, Wrecsam
Ysgol y Moelwyn, Gwynedd
Ysgol Gynradd Talysarn, Gwynedd
Ysgol Terrig, Sir y Fflint

## Nodyn ar gyd-destun y sampl o ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn rhan o'r arolwg hwn

Mae'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn rhan o'r arolwg wedi'u dosbarthu ar draws y **grwpiau prydau ysgol am ddim** yn y cyfrannau canlynol.

| | |
|---|---|
| Band 1 | 0% |
| Band 2 | 16% |
| Band 3 | 21% |
| Band 4 | 21% |
| Band 5 | 42% |

Mae'r ysgolion hyn wedi'u dosbarthu fel a ganlyn mewn perthynas â **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru** (MALIC). Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod MALIC yn fesur cymharol ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yng Nghymru. Mae'r mesurau ar gyfer ysgolion ar gyfer yr LSOA **y mae'r ysgol ynddi yn unig**. Ym mron pob achos, mae dalgylch yr ysgol yn fwy o lawer na'r LSOA y mae'r ysgol ynddi. Felly, yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r ffigurau hyn yn ystyried amddifadedd y dalgylch ehangach, o reidrwydd.

| Categori MALIC | Cyfran yr ysgolion |
|---|---|
| 10% mwyaf difreintiedig | 30% |
| 10-20% mwyaf difreintiedig | 20% |
| 20-30% mwyaf difreintiedig | 15% |
| 30-50% mwyaf difreintiedig | 15% |
| 50% lleiaf difreintiedig | 20% |

Mae hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi'u lleoli yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sef:

Ysgol Heulfan
Ysgol Brynsierfyl
Ysgol Gynradd Graig-y-Rhacca
Ysgol Gynradd Sandfields
Ysgol Gynradd Glen-boi
Ysgol Gynradd Maindee
Ysgol Bae Baglan
Ysgol Gymuned Cefn Hengoed
Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre
Ysgol Gymuned Glynrhedynog

Mae ychydig o'r ysgolion wedi'u lleoli yn yr 20%-30% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sef:

Ysgol Gynradd Tregatwg
Ysgol Rhosymedre
Ysgol Talysarn

Mae ychydig o'r ysgolion wedi'u lleoli yn yr 30%-50% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sef:

Ysgol Golwg y Cwm
Ysgol y Moelwyn
Ysgol Gynradd Millbrook

Mae ychydig o'r ysgolion wedi'u lleoli yn y 50% o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig, sef:

Ysgol Gynradd Pencoed
Ysgol Gynradd Severn
Ysgol Gogarth
Ysgol Terrig

## Data cyd-destunol mewn astudiaethau achos

Gan na fydd data'r cyfrifiad newydd yn cael ei gyhoeddi tan fis Gorffennaf 2020, daw'r data cyd-destunol yn yr astudiaethau achos o CYBLD Ionawr 2019, oni nodir yn wahanol.  Er enghraifft, caiff gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol ei nodi felly.

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron bob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | o dan 40% |
| ychydig = | o dan 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Atodiad 3

### Mae ysgolion cymunedol...

yn rhoi lles pennaf teuluoedd a chymunedau wrth wraidd popeth a wnânt

yn cyfrannu at gryfhau teuluoedd ac adeiladu cymunedau cryf at y dyfodol

yn parchu ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y gall rhieni ei wneud

yn lle i bawb ddysgu

yn estyn llaw i ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned

yn agor eu cyfleusterau ac yn cydleoli gwasanaethau er budd y gymuned

yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth

yn gwneud defnydd hynod effeithiol o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol â theuluoedd

yn cynllunio'n strategol i fodloni anghenion teuluoedd a'r gymuned

yn darparu dysgu effeithiol i deuluoedd

yn dangos eu hymrwymiad i chwarae teg, cynhwysiant a thegwch

yn cydleoli gwasanaethau i helpu teuluoedd a'r gymuned i fanteisio ar gyngor a chymorth

yn cydnabod potensial ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned o ran helpu plant i lwyddo

yn buddsoddi amser ac egni i ddod i adnabod anghenion, diddordebau a dyheadau disgyblion, teuluoedd a'u cymunedau

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA)** | Unedau daearyddol sy'n cael eu defnyddio ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) |
| **Cymunedau yn Gyntaf** | Rhaglen gymunedol a gynorthwyodd Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r agenda tlodi hyd at 2018 |
| **Dechrau'n Deg** | Dechrau'n Deg yw rhaglen y blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru i deuluoedd sydd â phlant dan bedair oed. Mae wedi'i thargedu yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Nod y cynllun yw cynnig gwasanaethau cymorth dwys, gan gynnwys magu plant, iechyd, ac iaith, lleferydd a chyfathrebu |
| **Elklan** | Rhaglen hyfforddiant sy'n helpu staff addysg i fod yn fwy effeithiol wrth weithio â phlant ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu |
| **Grant Datblygu Disgyblion (GDD)** | Cyllid i wella deilliannau i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. Fe'i bwriedir i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal disgyblion o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu llawn botensial. |
| **Llofnod Dysgu Teulu** | Rhaglen sy'n helpu ysgolion i ddatblygu darlun o allu ac anghenion dysgu teulu https://www.signature-academy.com/family |
| **Makaton** | Rhaglen iaith unigryw sy'n defnyddio symbolau, arwyddion a lleferydd i alluogi pobl i gyfathrebu https://www.makaton.org/aboutMakaton/ |
| **Prosiect Cynnydd** | Menter sy'n cael ei chyflwyno mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, colegau addysg bellach a Gyrfa Cymru, sy'n gweithio â phobl ifanc 11-24 oed sydd mewn perygl o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant |
| **Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru** | Buddsoddiad hirdymor i ysgolion a cholegau i'w datblygu'n hybiau ar gyfer dysgu a gostwng nifer yr adeiladau sydd mewn cyflwr gwael. |

| | |
|---|---|
| **Teuluoedd ac Ysgolion gyda'i Gilydd (FAST)** | Rhaglen gan Achub y Plant sy'n helpu ysgolion i feithrin perthynas rhwng rhieni, ysgolion a chymunedol i wneud yn siŵr fod plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud eu gorau yn yr ysgol https://www.savethechildren.org.uk/what-we-do/uk-work/in-schools/fast |
| **Teuluoedd yn Gyntaf** | Menter Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei gweinyddu gan awdurdodau lleol, sy'n galluogi teuluoedd i fanteisio ar gymorth |
| **Ysgolion a gynhelir** | Categori o ysgolion a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n sylweddol gan yr awdurdod lleol |
| **Ysgolion gwasanaeth llawn (UDA)** | Mae'r rhaglen ysgolion cymunedol gwasanaeth llawn yn cynnig gwasanaethau academaidd, cymdeithasol ac iechyd cynhwysfawr i fyfyrwyr, aelodau teulu myfyrwyr ac aelodau'r gymuned, a fydd yn arwain at ddeilliannau addysgol gwell i blant https://www2.ed.gov/programs/communityschools/index.html |
| **Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir** | Mae gan yr ysgolion hyn fwy o annibyniaeth o ran polisi a chyllid nag ysgolion gwirfoddol a reolir. Maent yn dueddol o fod yn ysgolion crefyddol neu'n ysgolion ffydd. Y corff llywodraethol sy'n cyflogi'r staff ac yn pennu'r meini prawf derbyn, a mudiad gwirfoddol (yr eglwys, fel arfer) sy'n berchen ar adeiladau a thir yr ysgol. |
| **Ysgolion gwirfoddol a reolir** | Ysgolion sy'n cael eu rhedeg gan fudiadau gwirfoddol (yr Eglwys Babyddol neu'r Eglwys yng Nghymru, yn nodweddiadol) ond sy'n cael eu rheoli'n ofalus gan yr awdurdod lleol. Yr awdurdod lleol sy'n cyflogi'r staff, ond yr eglwys sy'n berchen ar yr ysgol a'r adeiladau, ac yn penodi rhai aelodau o'r corff llywodraethol. |

## Cyfeiriadau

Awdurdod Lleol Barnsley *Engaging Families Toolkit*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.barnsley.gov.uk/media/4297/engaging-families-toolkit.pdf [Cyrchwyd 27 Chwefror 2020]

Cummings, C., Dyson, A., Muijs, D., Papps, I., Pearson, D., Raffo, C., Tiplady, L., Todd, L. and Crowther, D. (2007a) *Evaluation of the full service extended schools initiative: Final report*. Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau. [Ar-lein] Ar gael o: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130323010825/https:/www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/RR852.pdf [Cyrchwyd 20 Medi 2019]

Cummings, C., Todd, L. and Dyson, A. . (2007b) Towards extended schools? How education and other professionals understand community-oriented schooling. [Ar-lein]. *Children & Society,* **21**, 189-200. Ar gael o: https://www.ncl.ac.uk/media/wwwnclacuk/cflat/files/towards-extended-schools-paper.pdf [Cyrchwyd 20 Medi 2019]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003) *Ysgolion Bro*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/NAFWC-34-03-ysgolion-bro-fersiwn-gymraeg.pdf [Cyrchwyd 26 Medi 2019]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008) *Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/136/contents/made/welsh [Cyrchwyd 25 Gorffennaf 2019]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) *Y Wlad sy'n Dysgu Dogfen Ymbaratoi: ar gyfer Rhaglen Gynhwysfawr Addysg a Dysgu Gydol Oes hyd at 2010 yng Nghymru*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.careerswales.com/prof/upload/pdf/20041027_learningcountry-w_20090729100904.pdf [Cyrchwyd 18 Medi 2019]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2002) *Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Disgyblion*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes (2003) *Ysgol y Dyfodol.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://senedd.cymru/Laid%20Documents/Education%20and%20Lifelong%20Learning%20Committee%20Interim%20ReportSchool%20of%20the%20Future%20(pdf,%20753kb)%20-%20LD2069-01042003-25313/bus-GUIDE-N000000000000000000000000009460-Cymraeg.pdf
[Cyrchwyd 25 Gorffennaf 2019]

Department for Education (2006) *Full Service Schools*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.education-ni.gov.uk/articles/extended-schools-programme [Cyrchwyd 10 Rhagfyr 2019]

Desforges, C. and Abouchaar, A. (2003) *The Impact of Parental Involvement, Parental Support and Family Engagement on Pupil Achievement and Adjustment: A Literature Review*. Llundain. Yr Adran Addysg a Sgiliau. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/6305/1/rr433.pdf [Cyrchwyd 17 Medi 2019]

Estyn (2002) *Ysgolion Rhagorol: Gweledigaeth ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn yr 21ain Ganrif.* Caerdydd: Estyn.

Estyn (2007) *Trawsnewid ysgolion: papur trafod*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Trawsnewid%20ysgolion%3A%20papur%20trafod%20-%20Mawrth%202007.pdf [Cyrchwyd 22 Gorffennaf 2019]

Estyn (2008) *Darpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau bro gan ysgolion*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/darpariaeth-gwasanaethau-chyfleusterau-bro-gan-ysgolion-mai-2008 [Cyrchwyd 22 Gorffennaf 2019]

Estyn (2012) *Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Arfer%20effeithiol%20wrth%20fynd%20i%C3%A2%E2%82%AC%E2%84%A2r%20afael%20%C3%83%C2%A2%20thlodi%20ac%20anfantais%20mewn%20ysgolion%20-%20Tachwedd%202012.pdf [Cyrchwyd 20 Medi 2019]

Estyn (2013) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/ESTYN_Annual%20Report%20FINAL_WELSH_WEB_%2002_0.pdf [Cyrchwyd 25 Gorffennaf 2019]

Estyn (2018) *Cynnwys rhieni – Cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni plant oedran ysgol*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Involving%20parents%20-%20cy.pdf [Cyrchwyd 25 Gorffennaf 2019]

Harris, A. and Goodall, J. (2007) *Engaging Parents in Raising Achievement: Do parents know they matter?* Warwick: University of Warwick. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/6639/1/DCSF-RW004.pdf [Cyrchwyd 16 Medi 2019]

Jenkins, D. and Duffy, M. (2016) *Community schools in practice: Research on implementation and impact*. Philadelphia: Pennsylvania Clearinghouse for Education Research (PACER). [Ar-lein] Ar gael o: http://8rri53pm0cs22jk3vvqna1ub-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2016/01/RFA-PACER-Brief-Community-Schools-in-Practice-January-2016-v2.pdf [Cyrchwyd 16 Medi 2019]

Llywodraeth Cymru (2013a) *Canllawiau ar gyfer defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion: Beth sydd wir yn gweithio?* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/beth-sydd-wir-yn-gweithio.pdf [Cyrchwyd 18 Medi 2019]

Llywodraeth Cymru (2013b) *Canllaw i'r gyfraith i lywodraethwyr ysgolion: Pennod 27: Ysgolion Bro*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/canllaw-ir-gyfraith-i-lywodraethwyr-ysgolion [Cyrchwyd 25 Gorffennaf 2019]

Llywodraeth Cymru (2015) *Wynebu'r her gyda'n gilydd: Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/wynebu-r-her-gyda-n-gilydd-ygath-pecyn-cymorth-ymgysylltu-a-r-gymuned-a-theuluoedd-i-ysgolion-yng-nghymru-prif-ganllawiau.pdf [Cyrchwyd 16 Medi 2019]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl: Cynllun gweithredu 2017-21*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf [Cyrchwyd 18 Medi 2019]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Ffyniant i bawb: y strategaeth genedlaethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol [Cyrchwyd 18 Medi 2019]

Prydain Fawr (1998) *Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998*. Llundain: Y Llyfrfa.

Prydain Fawr (2002) *Deddf Addysg 2002*. Llundain: Y Llyfrfa.

Prydain Fawr (2010) *Deddf Cydraddoldeb 2010*. Llundain: Y Llyfrfa.

Sammons, P., Power, S., Elliott, K., Robertson, P., Campbell, C. and Whitty, G. (2003) *New Community Schools in Scotland: Final report – National evaluation of the pilot phase*. Llundain: Adran Addysg Gweithrediaeth yr Alban.

Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2016) *Increasing the Use of School Facilities.* Caerdydd: Sefydliad Polisi Cyhoeddus. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.ppiw.org.uk/files/2016/04/Increasing-the-Use-of-School-Facilities-Report.pdf [Cyrchwyd 16 Medi 2019]